

Cyfrol I, Rhif 2, Hydref 2007 • ISSN 1741-4261

# GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams



Cyhoeddwyd gyda chymorth



Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg  
...addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg

Welsh Medium Teaching Development Centre  
...Welsh medium university education

ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Cyfrol I, Rhif 2, Hydref 2007

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg*



## Bwrdd Golygyddol

---

Golygydd:	Yr Athro Ioan Williams
Golygydd Cynorthwyol:	Anwen Jones, Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Dr Prys Gruffydd, Prifysgol Cymru, Abertawe Yr Athro Aled G. Jones, Prifysgol Cymru, Aberystwyth Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Cymru, Bangor Dr Eleri Pryse, Prifysgol Cymru, Aberystwyth Wyn Thomas, Prifysgol Cymru, Bangor Yr Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd Dr Daniel Williams, Prifysgol Cymru, Abertawe Dr Einir Young, Prifysgol Cymru, Bangor

e-Gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaid yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiâu golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: [www.gwerddon.org](http://www.gwerddon.org)

Cyllidir *Gwerddon* gan y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio [gwybodaeth@gwerddon.org](mailto:gwybodaeth@gwerddon.org) neu drwy'r post: Gwerddon, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

[www.gwerddon.org](http://www.gwerddon.org)

# Cynnwys

---

Golygyddol	5
Cân o Gyfarch i Gwerddon	7
Crynodebau	8
Summaries	10
Erthygl 1: Dr Hywel Jones: "Goblygiadau newid ym mhroffeil oedran siaradwyr Cymraeg"	12
Erthygl 2: Dr Eleri Pryse: "Llif yr atmosffer drydanol dros begwn y gogledd"	35
Erthygl 3: Wyn Thomas: "Annie Ellis 'Cwrt Mawr', Canorion Aberystwyth a chanu traddodiadol Cymru"	51
Erthygl 4: Yr Athro Ioan Williams: "Ideoleg ac estheteg yn y mudiad drama"	87
Cyfranwyr	104

## Golygyddol

Dyma ail rifyn *Gwerddon*, gyda phedair erthygl ar bynciau tra amrywiol. Lawnsiwyd y cylchgrawn ar Ebrill 30, 2007, yn y Llyfrgell Genedlaethol ac ar yr achlysur dymunol hwnnw darllenwyd cerdd a gyfansoddwyd yn arbennig i'w croesawu gan Elin ap Hywel, Cymrawd Ysgrifennu'r Gronfa Lenyddol Frenhinol. Rydym yn ddiolchgar i Elin am ganiatâd i gyhoeddi'r gerdd isod.

Erbyn hyn y mae deunydd wrth law i'r ddau rifyn nesaf o *Gwerddon* ac y mae'n dda gennyf ddweud bod y deunydd hwnnw'n cynrychioli trawstoriad eang iawn o bynciau a meysydd academaidd gwahanol. Credaf fod hynny yn profi bod y cylchgrawn yn dechrau ennill ei blwyf ymhlith y cymunedau academaidd yng Nghymru a thu hwnt. Rydym yn ymwybodol iawn bod llawer o waith yn ein disgwyl cyn argyhoeddi cynrychiolwyr rhai meysydd bod cyhoeddi erthygl academaidd yn y Gymraeg yn weithred resymol, ond yn y cyfamser da o beth yw sylwi bod cynifer o academwyr yn awyddus ac yn fodlon i rannu ffrwyth eu hymchwil gyda darllenwyr o Gymry.

Mater o gael a chael bu cynnal *Gwerddon* hyd yn hyn, gyda chymorth hael oddi wrth Dr Ioan Matthews a Phrifysgol Aberystwyth. Ni ellid parhau felly am gyfnod hir ac rydym yn troi am gefnogaeth a chymeradwyaeth at y pwyllgor llywio canolog sydd newydd ei sefydlu gan y Cyngor Cyllido ac Addysg Uwch Cymru. Credwn fod rôl bwysig gan *Gwerddon* dan y drefn newydd, nid fel cylchgrawn yn unig ond fel canolbwynt i'r diwylliant ymchwil sy'n rhan anhepgor o'r gweithgarwch cynyddol ym myd addysg uwch y mae'r Cynulliad wedi siarsio'r Cyngor Cyllido â'r cyfrifoldeb o'i hybu. Yn y cyfamser, dyma'r ail rifyn o'r cylchgrawn, gydag addewid y bydd y trydydd yn ei ddilyn yn ddiymdroi. Croesawn gyfraniadau i'r rhifynnau dilynol.

## Canllawiau cyflwyno

Mae *Gwerddon* yn cyhoeddi erthyglau academaidd ar draws ystod eang o bynciau yn y Dyniaethau, y Gwyddorau a'r Celfyddydau. Gellir cyflwyno erthyglau rhwng 5,000 a 8,000 o eiriau ar ffurf dogfen Word i sylw'r golygydd cynorthwyol, Anwen Jones, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Gofynnir hefyd am gopi ychwanegol ar far data neu ddisg i'w anfon trwy'r post cyffredin i'r cyfeiriad isod:

Golygydd cynorthwyol *Gwerddon*  
Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu  
Adeilad Parry Williams  
Campws Penglais  
Aberystwyth  
SY23 3AJ

Dylid dilyn canllawiau Gwasg Prifysgol Cymru wrth baratoi'r ddogfen. Gweler [www.uwp.co.uk](http://www.uwp.co.uk); dilynwch y ddolen gyswllt 'cysylltu' i gyrraedd 'Canllawiau ar gyfer testunau Cymraeg i'w cyhoeddi'. Rhaid cynnwys unrhyw luniau, ffotograffau, tablau

neu ddeunydd gweledol o fath arall fel rhan o'r ddogfen. Ni ellir eu derbyn fel ffeiliau ar wahân. Ar ôl derbyn erthyglau, fe'u hanfonir at olygydd iaith a diwyg ac yna at ddau arfarnwr a fydd yn argymhell cyhoeddi ai peidio. Bydd y broses hon yn cymryd hyd at dri mis. Cysylltir ag awduron wedi hyn i nodi ymateb yr arfarnwyr cyn bwrw ymlaen gyda'r broses olygu.

## Llyfr Du Caerfyrddin yn clywed sôn am Gwerddon

Roeddwn yn flin i ddechrau.  
Yn flin fel y gacynen  
sy'n tyrchu i grombil yr afal cochaf un  
i fwrw ei llid a'i cholyn.

Yn drist fel y glaw  
ar feddau anhysbys yn nannedd y gwynt.

Pa les sydd yn yr anweladwy hwn, meddyliais,  
nad llyfr mohono, nad yw yn ddu.  
A oes 'na siw na miw ynddo am Gaerfyrddin?

Ond yna, bûm yn meddwl:  
mae pwysau pechod ar lyfrau.  
Y fath gyfrifoldeb,  
yw cynnwys perchyll, brwydrau a Duw  
o dan yr unto o ledr ac inc  
heb iddynt fynd i gecru a hollti'r cyfan;  
y fath swmp o hanesion  
am arwyr, cleddyfau a dur  
yn fy naearu.  
Edrychwch arnaf mewn difri. Gwelwch y ffordd  
mae fy meingefn bach yn crymu,  
fy nghroen yn breuo,  
fy ngewynnau yn ymddihatru.

O am gael bod fel y bluen hon o beth:  
lle gwëir dewiniaeth geiriau  
mewn gofod, eu rhithio o'r awyr  
trwy ledrith eu hawl i fod.

Ust, rhwng ei llinellau mi glywaf leisiau,  
mor ysgafn, mor feiddgar hyderus  
o'u lle yn y byd â blodau'r afallen.

*Elin ap Hywel*

## Crynodebau

### ***Dr Hywel Jones: "Goblygiadau newid ym mhroffeil oedran siaradwyr Cymraeg"***

Mae dadansoddiadau Aitchison a Carter o'r Cyfrifiad dros y degawdau diwethaf wedi llwyddo i sicrhau bod y prif dueddiadau o ran dosbarthiad gofodol y Gymraeg yn hysbys i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol yr iaith. Serch hynny, mae rhai agweddau yn dal i fod heb eu harchwilio. Ymgais yw'r papur hwn i roi golwg wahanol ar y tueddiadau drwy gyflwyno nifer o ddadansoddiadau newydd. Yn y rhan gyntaf, archwilir cynhyrchiad iaith rhwng 1991 a 2001 sydd yn effaith y system addysg. Dangosir bod cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Ngwent wedi arwain at y newidiadau mwyaf. Yn yr ail ran, edrychir ar ddsbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yr ardaloedd hynny lle gallai mwy na 70% siarad Cymraeg. Cyflwynir rhai mynegeion er mwyn mesur y sefyllfa ac esbonio arwyddocâd yr ardaloedd hynny. Yn olaf, trafodir goblygiadau dosbarthiad gofodol (neu rwydwaith cymdeithasol) i ddefnydd y Gymraeg drwy ystyried damcaniaeth debygolrwydd fach.

### ***Dr Eleri Pryse: "Llif yr atmosffer drydanol dros begwn y gogledd"***

Mae'r papur yn ymchwilio i strwythur ac ymddygiad yr atmosffer wedi'i ïoneiddio (trydanol) yn y nos yn yr ardaloedd pegynol ac awroraidd; sef yr ardal lle y mae goleuni'r Gogledd yn digwydd. O ddiddordeb arbennig y mae strwythurau plasma ar raddfeydd llorweddol o gannoedd o gilometrau. Cafodd yr arsylwadau a gyflwynir eu gwneud gan arbrawf radiotomograffeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, y mae ganddi bedair system derbyn lloeren yn yr Arctig uchel ger pegwn y gogledd, yn Ny Ålesund a Longyearbyen ar Svalbard, Bjørnøya (Ynys yr Arth) a Tromsø ar dir mawr Norwy. Mae cymariaethau rhwng delweddau tomograffeg ac arsylwadau ar lif plasma gan y radar rhyngwladol, SuperDARN, yn awgrymu bod plasma dwysedd mawr a gynhyrhir ar ochr y dydd yn llifo ar draws yr ardal begynol ac i sector y nos. Mae'r canlyniadau yn cyfrannu at y gwaith o ddehongli prosesau ffisegol sy'n cysylltu amgylchedd y Ddaear â'r gofod, ac maent hefyd o ddiddordeb i ddefnyddwyr systemau radio lle gall yr atmosffer wedi'i ïoneiddio ddirywio ymlediad y signalau.

### ***Wyn Thomas: "Annie Ellis 'Cwrt Mawr', Canorion Aberystwyth a chanu traddodiadol Cymru"***

Mae'r erthygl hon yn amlinellu'r cyfraniad gwerthfawr a wnaed gan Annie Ellis (Davies gynt) i adfywio caneuon gwerin yng Nghymru ac, yn benodol, ei dylanwad yn ardal Aberystwyth / Sir Aberteifi yn ystod degawdau cyntaf yr Ugeinfed Ganrif. Mae'n tynnu ar ohebiaeth wreiddiol, dyddiaduron gwaith maes, trawsgrifiadau wedi'u nodiannu,



erthyglau papur newydd (yn y Gymraeg a'r Ffrangeg) a recordiadau ffonograff o Lyfrgell Genedlaethol Cymru, y Llyfrgell Brydeinig, Bibliothèque Nationale de France a chasgliadau preifat. Trafodir y meysydd canlynol:

- Ymwneud Annie Ellis â gweithgareddau cysylltiedig â chaneuon gwerin ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, gan gynnwys sefydlu Cymdeithas y Canorion, cystadlaethau casglu caneuon gwerin a pherfformiadau o opereta J. Lloyd Williams, *Aelwyd Angharad*.
- Chwe chyngerdd hanesyddol arwyddocaol o ganu traddodiadol Cymru a roddwyd gan bedwarawd o gantorion israddedig ym Mharis yn ystod mis Mawrth 1911, gan gynnwys perfformiadau yn Le Lied en Tout Pays ac Amffitheatr Richelieu (Sorbonne). Roedd yr ymweliad hwn yn ymgorffori'r *Entente Cordiale* a sefydlwyd rhwng Prydain a Ffrainc yn ystod y blynyddoedd yn arwain at y Rhyfel Byd Cyntaf. Cysylltiad â Madame Lucie Barbier (pennaeth astudiaethau lleisiol yn y Brifysgol) ac ymateb cadarnhaol y wasg ym Mharis.
- Ymweliad gwaith maes tri diwrnod Ruth Lewis ac Annie Ellis â Llandysul, Pencader a'r cyffiniau ym mis Mehefin 1913 a chanlyniad eu gwaith casglu caneuon gwerin, gan gynnwys gwerthusiad o'r testunau a'r melodïau a gasglwyd.

Mae'r erthygl hefyd yn amlygu rôl un fenyw Edwardaidd wrth ddatblygu bywyd diwylliannol Cymru a'i hymgeisiau i hyrwyddo canu traddodiadol Cymru ar lwyfan rhyngwladol.

### ***Yr Athro Ioan Williams: "Ideoleg ac estheteg yn y mudiad drama"***

Mae'r papur hwn yn archwilio'r cefndir a'r rhagdybiaethau sylfaenol a oedd yn rhan o ddadl gyhoeddus rhwng Dr Kate Roberts a Dr Thomas Parry a gynhaliwyd yng ngholofnau papur newydd *Y Genedl* ddechrau'r 1930au. Pwnc y ddadl oedd y polisi a oedd yn rheoli'r broses o ddewis dramâu ar gyfer perfformiad blynyddol Cymdeithas Ddrama Gymraeg myfyrwyr Bangor. Ers ei chynhyrchiad arloesol o gyfieithiad Ifor Williams o *Tŷ Dol* yn 1926, daeth cynhyrchiad drama blynyddol Bangor i gael ei ystyried yn ddigwyddiad o bwys sylweddol yn rhaglen y Mudiad Drama yng Nghymru. Fodd bynnag, mae awdur yr erthygl yn awgrymu bod dadansoddiad o ragdybiaethau esthetig a diwylliannol y ddau awdur – yr oedden nhw eu hunain yn ffigurau o bwys canolog ar y pryd – yn codi materion o bwys ehangach na'r mudiad Drama ei hun, sy'n dal i effeithio ar ddadl academaidd a diwylliannol heddiw.

## Summaries

### ***Dr Hywel Jones: "Implications of changes in the age profiles of Welsh speakers"***

Aitchison and Carter's analyses of the Census over the last decades have succeeded in making the main trends concerning the spatial distribution of Welsh known to everyone with an interest in the future of the language. Even so, some aspects remain unexamined. This paper is an attempt to give a different view of the trends by presenting a number of new analyses. In the first part, language production between 1991 and 2001 that is the effect of the education system, is examined. It is shown that the introduction of the National Curriculum in Gwent led to the biggest changes. In the second part, the geographical distribution of Welsh-speakers is looked at, especially those areas where more than 70% could speak Welsh. Some indices are introduced in order to quantify the situation and to explain the significance of those areas. Lastly, the implications of spatial distribution (or social network) to the use of Welsh is discussed by consideration of a little probability theory.

### ***Dr Eleri Pryse: "The flow of ionised atmosphere over the north pole"***

The paper investigates the structure and behaviour of the nighttime ionised (electrified) atmosphere in the polar and auroral regions; the region where the aurora borealis occurs. Of particular interest are plasma structures on horizontal scales of hundreds of kilometres. The observations presented were made by the radiotomography experiment of the University of Wales, Aberystwyth, which has four satellite receiving systems in the high Arctic near the north pole, at Ny Ålesund and Longyearbyen on Svalbard, Bjørnøya (Bear Island) and Tromsø on mainland Norway. Comparisons of tomography images with observations of plasma flow by the international SuperDARN radar suggest that large density plasma produced on the dayside flows across the polar region and into the night sector. The results contribute to the interpretation of physical processes that couple the Earth's environment with space, and are also of interest to users of radio systems where the ionised atmosphere can degrade the propagation of the signals.

### ***Wyn Thomas: "Annie Ellis 'Cwrt Mawr', the Aberystwyth Canorion Society and traditional folksong in Wales"***

This article outlines the valuable contribution made by Annie Ellis (née Davies) to the folksong revival in Wales and in particular her influence in the Aberystwyth/Cardiganshire district during the early decades of the Twentieth Century. It draws on original correspondence, fieldwork diaries, notated transcriptions, newspaper articles (in Welsh and French) and phonograph recordings from the National Library of Wales, the British

Library, Bibliothèque Nationale de France and private collections. The following areas are discussed:

- Annie Ellis's involvement in folksong related activities at the University of Wales, Aberystwyth, including the establishing of the Canorion Society, folksong collecting competitions and performances of J. Lloyd Williams's operetta, *Aelwyd Angharad (Angharad's Hearth)*.
- Six historically significant concerts of traditional Welsh music given by a quartet of undergraduate singers in Paris during March 1911, including performances at Le Lied en Tout Pays and the Richelieu Amphitheatre (Sorbonne). This visit represented the embodiment of the *Entente Cordiale* established between Britain and France during the years leading up to the First World War. Association with Madame Lucie Barbier (head of vocal studies at the University) and the positive response of the Parisian press.
- Ruth Lewis and Annie Ellis's three day fieldwork visit to Landyssul, Pencader and the surrounding district in June 1913 and the outcome of their folk song collecting, including an evaluation of the texts and melodies collected.

The article also highlights the role of one Edwardian woman in developing the cultural life of Wales and her attempts to promote Welsh traditional music on an international platform.

### ***Professor Ioan Williams: "Ideology and aesthetics in the drama movement"***

This paper examines the background and underlying assumptions involved in a public debate between Dr Kate Roberts and Dr Thomas Parry which was conducted in the columns of the *Genedl* newspaper in the early nineteen thirties. The subject of the debate was the policy governing the selection of plays for the annual performance of the Bangor students' Welsh Drama Society. Since its ground breaking production of Ifor Williams's translation of *A Dolls House* in 1926 the annual Bangor drama production had come to be seen as an event of considerable importance in the programme of the Drama Movement in Wales. However, the author of the article suggests that analysis of the aesthetic and cultural assumptions of the two authors – themselves figures of central importance at the time – raises issues of wider importance than the Drama movement itself, which continue to affect academic and cultural debate today.

*D. Hywel Jones*

**Goblygiadau newid  
ym mhroffeil oedran  
siaradwyr Cymraeg**

---

**GWERDDON**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol 1, Rhif 2, Hydref 2007 • ISSN 1741-4261

# Goblygiadau newid ym mhroffeil oedran siaradwyr Cymraeg

*D. Hywel Jones*

## Cyflwyniad

Trafododd gweithiau blaenorol Aitchison a Carter (1985, 1994, 2000, 2004) strwythur oed y boblogaeth oedd yn siarad Cymraeg, a'i dosbarthiad gofodol, ond cymharol gyfyngedig oedd eu dadansoddiadau, o raid, gan nad oedd y data angenrheidiol ar gael ar y pryd iddynt fynd ymhellach. Edrychodd Higgs et al. (2004) ar ganlyniadau Cyfrifiad 2001 ond ar lefel awdurdod lleol yn bennaf, eto oherwydd nad oedd data manylach ar gael ar y pryd. Un awgrym a wnaethant ar gyfer ymchwil pellach oedd dadansoddiad o bwysigrwydd addysg i'r tueddiadau. Roedd hon yn thema a ystyriwyd yn sgîl Cyfrifiad 1991 gan Farrell et al. (1997). Ymdriniodd eu dadansoddiad hwy â'r cynnydd yn y Gymraeg a gofnodwyd rhwng 1981 a 1991 yn ne-ddwyrain Cymru ymhlith pobl ifainc, gan ymchwilio am berthynas rhyngddo a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Bwriad y papur hwn yw ymestyn y dadansoddiadau blaenorol gan edrych ar rai materion na chyffyrddwyd â hwy o'r blaen, a thrwy gymhwyso technegau gwahanol i rai o'r dadansoddiadau blaenorol. Mae hefyd am geisio amlygu cysylltiad rhwng rhai o'r mesurau a gyflwynir ac ystyriaethau mathemategol i rai o'r prosesau cymdeithasol sydd ar droed. Canolbwyntir ar yr ardaloedd lle mae dros 70 y cant o'r bobl yn gallu siarad Cymraeg - testun un o dargedau strategaeth Iaith Pawb Llywodraeth Cynulliad Cymru - wrth wneud hynny.

## Dadansoddiadau: Cynhyrchu'r iaith

Ad-drefnwyd llywodraeth leol yng Nghymru ar 1 Ebrill 1996, bron union hanner ffordd rhwng Cyfrifiadau 1991 a 2001.

**Tabl 1:** Newid yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, 1991 i 2001, yn ôl sir (cyn addrefnu 1996) ac yn ôl oedran

Awdurdod unedol	Pawb 3 oed neu'n hŷn	Grŵp oedran					
		3-4	5-15	16-24	25-39	40-64	65+
Gwynedd	-2.5	-1.3	-0.7	-2.3	1.4	-4.8	-3.2
Clwyd	0.3	0.4	7.4	4.7	0.3	-2.5	-3.1
Powys	0.5	0.5	11.8	7.7	-0.6	-3.4	-3.8
Dyfed	-2.0	0.2	10.1	-0.7	-2.4	-5.3	-6.5
Gorllewin Morgannwg	0.0	1.2	12.2	3.4	-0.4	-2.9	-6.4
Morgannwg Ganol	3.3	3.2	13.3	9.1	2.8	0.5	-3.8
Gwent	7.6	6.3	36.7	9.0	1.3	0.7	0.4
De Morgannwg	4.4	4.1	15.8	5.2	3.1	1.1	0.2
Cymru	2.1	2.6	14.9	5.0	0.9	-1.5	-3.1

Mae'n naturiol bod dadansoddiadau Cyfrifiad 2001 yn dueddol o fod ar sail daearyddiaeth llywodraeth leol yn 2001 ond o ran dylanwadau, gellid disgwyl y byddai polisïau addysg yr hen siroedd wedi cael mwy o ddylanwad mewn newidiadau er 1991 gan mai eu polisïau hwy fyddai'n cael eu gweithredu tan ddechrau blwyddyn ysgol 1996-97. Mae Tabl 1 yn cofnodi'r newidiadau ar sail daearyddiaeth yr hen siroedd. Gwelir yn glir mor eithriadol oedd y newid a gafwyd yng Ngwent ymhlith plant. Mae Tabl 2 yn cyflwyno'r newidiadau ar sail daearyddiaeth bresennol llywodraeth leol.

**Tabl 2:** Newid yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg, 1991 i 2001, yn ôl sir (2003) ac yn ôl oedr


Awdurdod unedol	Grŵp oedran						
	Pawb 3 oed neu'n hŷn	3-4	5-15	16-24	25-39	40-64	65+
Sir Ynys Môn	-1.9	0.7	-2.4	6.7	1.1	-4.2	-3.2
Gwynedd	-3.1	-1.0	1.2	-11.9	2.2	-4.2	-4.2
Conwy	-1.2	0.4	1.5	5.6	0.4	-4.6	-2.6
Sir Ddinbych	-0.5	-2.6	5.3	3.3	-0.1	-3.7	-1.9
Sir y Fflint	0.8	0.1	6.0	4.7	1.5	-1.1	-3.3
Wrecsam	0.8	1.8	10.9	6.2	-0.1	-2.7	-3.5
Powys	0.5	0.6	11.8	8.1	-0.7	-3.5	-3.9
Ceredigion	-7.1	-3.3	2.4	-21.7	-3.4	-6.3	-6.1
Sir Benfro	3.4	5.8	20.2	7.7	0.2	-1.2	-1.7
Sir Gaerfyrddin	-4.5	-2.7	5.2	-0.2	-5.0	-8.3	-7.7
Abertawe	0.1	1.5	11.4	3.5	-0.5	-2.8	-5.8
Castell-nedd Port Talbot	0.2	1.6	13.3	4.5	0.0	-3.3	-7.0
Pen-y-bont ar Ogwr	2.5	2.2	12.5	7.2	2.0	0.0	-3.7
Rhondda, Cynon, Taf	3.5	4.0	13.7	10.1	3.1	0.5	-4.4
Merthyr Tudful	2.7	1.9	12.3	8.6	2.3	0.3	-5.1
Caerffili	5.2	3.9	20.8	9.6	2.8	1.0	-1.0
Blaenau Gwent	7.2	5.3	33.0	10.1	1.2	0.9	0.5
Tor-faen	8.7	7.7	40.8	11.4	1.7	0.7	0.4
Sir Fynwy	7.2	6.2	38.7	6.7	1.1	0.9	0.5
Casnewydd	7.7	6.7	37.2	7.8	1.0	0.7	0.3
Bro Morgannwg	4.5	3.6	17.6	7.3	2.2	1.0	0.4
Caerdydd	4.4	4.6	15.2	4.7	3.4	1.3	0.2
Cymru	2.1	2.6	14.9	5.1	1.0	-1.4	-3.1

Ffynhonnell: Tabl L67W Cyfrifiad 1991; Tabl CAS146 Cyfrifiad 2001. Ill dau o NOMIS.

Deddf Ddiwygio Addysg 1988 a ddaeth â'r Cwricwlwm Cenedlaethol i fodolaeth a hwnnw oedd achos ehangu mawr ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith yn y blynyddoedd canlynol, er bod cynnydd graddol wedi bod ers blynyddoedd cyn hynny. Adeg Cyfrifiad 1981, er enghraifft, nid oedd 49.4 y cant o ddisgyblion ysgolion uwchradd Grwpiau Blwyddyn 7 i 11, h.y. disgyblion uwchradd oed addysg statudol, yn dysgu Cymraeg o gwbl ac er i'r ganran honno ostwng ychydig i 47.6 y cant erbyn blwyddyn ysgol 1984/85 roedd wedi codi fymryn eto erbyn blwyddyn ysgol 1986/87 i 47.9 y cant. Yn sgil Deddf 1988 dechreuodd y ganran ostwng yn sylweddol. Erbyn y mis Medi cyn Cyfrifiad 1991, dim ond 38.8 y cant nad oedd yn dysgu Cymraeg o gwbl. Roedd y ganran honno'n cynrychioli 63,592 o ddisgyblion. O'r rheini, roedd 21,915 ohonynt - 34 y cant o'r cyfan - yn ysgolion uwchradd Gwent. Roedd Gwent yn amlycach fyth wrth ystyried ysgolion cynradd. Ym mis Medi 1990, roedd 62,245 o ddisgyblion cynradd drwy Gymru mewn dosbarthiadau lle nad oedd y Gymraeg yn cael ei dysgu. O'r rheini roedd 39,823 - 64 y cant - yn ysgolion Gwent. O'r 244 o ysgolion cynradd trwy Gymru lle nad oedd dysgu Cymraeg, roedd 193 - 79 y cant - yng Ngwent. O'r gweddill roedd 25 yn Nyfed a 23 yn Ne Morgannwg, a 3 yn unig drwy weddill Cymru.

Mae Map 1 yn dangos y newid yn y grŵp oed 5 i 15, fesul ward. Gwelir yn glir mai yn yr hen sir Gwent yr oedd y rhan fwyaf o'r wardiau lle y cofnodwyd y cynnydd mwyaf yn y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg.


**Map 1:** Map o'r newid rhwng 1991 a 2001 yn y ganran yn gallu siarad Cymraeg ymhlith plant 5 i 15 oed.



Ar y map dangosir hefyd leoliad ysgolion a enwyd yn Offerynnau Statudol 1683 (1991) neu 1698 (1992). Roedd yr Offerynnau hynny'n rhestru ysgolion lle roedd gofynion Deddf Ddiwygio Addysg 1988 o ran amseru cyflwyno'r Gymraeg yn cael eu gohirio mewn gwahanol ffyrdd. Dyma ysgolion lle nad oedd y Gymraeg wedi cael ei dysgu'n helaeth, os o gwbl, o'r blaen a lle y dadleuwyd bod angen mwy o amser arnynt i'w galluogi i gwrdd â'r gofynion newydd. Gwelir mai yng Ngwent yr oedd y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn. Yn nhermau awdurdodau unedol, yn ardaloedd awdurdodau Casnewydd a Thor-faen oedd y rhan fwyaf o'r rhain yng Ngwent. Y tu allan i Went, roedd rhai yn ne Sir Benfro, rhai yn agos at y ffin â Lloegr yng ngogledd-ddwyrain Cymru, nifer fwy yng nghanol a de-ddwyrain Powys, ac ychydig yn ardal hen Sir De Morgannwg.

Gan fod y cynnydd yng nghanrannau'r plant sy'n gallu siarad Cymraeg yn deillio o gynhyrchu'r iaith yn yr ysgol, o'i gymharu ag atgynhyrchu'r iaith trwy drosglwyddiad rhwng cenedlaethau ar yr aelwyd, bydd y berthynas rhwng y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg o wahanol oedrannau wedi newid ers 1991. Mae Graff 1 yn dangos y berthynas ar draws Cymru rhwng y canrannau ymhlith plant 5 i 9 oed ac oedolion 25 i 39 oed, h.y. cenedlaeth hŷn.


**Graff 1:** Y berthynas rhwng y % sy'n gallu siarad Cymraeg canran 5 i 9 oed, a 25 i 39 oed, 2001





Mae'n ymddangos y gallai llinell syth ffitio'r pwyntiau'n eithaf da, a byddai hynny'n dderbyniol pe bai'r pwyntiau'n annibynnol, ond nid yw hynny'n wir: mae hunangyberthynas ofodol rhwng y pwyntiau, hynny yw, mae cydberthynas rhwng y canrannau mewn adran etholiad a'r rhai o'i chwmpas. Mae'r patrwm fesul sir (Graff 2) yn amlygu hyn. Ymhellach, yn y siartiau yn nwy res isaf y graff honno, gwelir nad oes perthynas rhwng canrannau'r ddau grŵp oedran yn siroedd y dde-ddwyrain, ac yn y gogledd-ddwyrain. Mae'n edrych fel nad oes fawr o berthynas ychwaith yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae prawf Chow yn sefydlu sadrwydd cyfernodau atchweliad. Fe'i defnyddiwyd i fesur patrymedd gofodol yn ystadegol (Anselin, 1992) ar lefel nifer o grwpiau o siroedd, wedi trawsffurfio'r canrannau 5 i 9 oed, gan ddefnyddio trawsffurfiant logit. Gan ganolbwyntio ar y siroedd hynny lle roedd yn briodol i geisio ffitio llinell syth, cafwyd 5 patrymedd gofodol<sup>1</sup> lle nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol o'u mewn, sef: Gwynedd; Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych; Ceredigion a Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe; a Phowys. Gallwn ddamcaniaethu bod prosesau cymdeithasol gwahanol ar droed o fewn yr ardaloedd hyn. Er enghraifft, hwyrach y ceir mwy o amrywiaeth yn y raddfa o fewn/allfudo a newid economaidd, a'r adwaith o ran polisiau addysg ac ati, rhwng y pum ardal hyn nag a geir o'u mewn.

**Graff 2:** Y berthynas rhwng y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg 5 i 9 oed a 25 i 39 oed, yn ôl sir.



### Dosbarthiad daearyddol


Am weddill Cymru, nid oes perthynas i'w gweld rhwng y ganran o'r plant 3 i 4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg a'r ganran o'r rhai 25 i 39 oed sy'n gallu ei siarad. Nid canlyniad

<sup>1</sup> "spatial regime"

trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd yw canrannau'r plant sy'n gallu siarad Cymraeg. Gallem dybio mai cynhyrchu'r iaith yn yr ysgol sydd wedi eu hachosi, er, os oedd rhywfaint o newid agwedd at yr iaith wedi bod er 1991, hwyrach hefyd bod rhieni 2001 wedi bod yn fwy parod i arddel gallu cyfyngedig eu plant yn y Gymraeg wrth lenwi ffurflenni'r Cyfrifiad. Yn wyneb ystadegau o ffynonellau addysg (Jones, i'w gyhoeddi 2008), rhaid derbyn nad yw'r canrannau a gofnodir fel siaradwyr Cymraeg ymhlith plant yn y Cyfrifiad yn adlewyrchu'r canrannau sydd â gallu gweithredol sylweddol yn yr iaith.

Mae Graff 3 yn dangos ar lefel Cymru gyfan batrwm y newid sydd wedi digwydd er 1981 ar draws yr oedrannau. Mae'r cynnydd a welwyd yn y canrannau sydd yn gallu siarad Cymraeg, ymhlith plant oed ysgol yn arbennig, â goblygiadau o ran dosbarthiad daearyddol: mae'r siaradwyr ifainc wedi eu gwasgaru ar draws Cymru'n fwy cyfartal nag y mae'r siaradwyr hŷn, a'r siaradwyr o bob oed.


**Graff 3:** % yn siarad Cymraeg yn ôl oed, 1981–2001




**Ffynhonnell:** Cyfrifiadau y Boblogaeth

Ers cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2001 mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi llunio mapiau o Gyfrifiad 1991 a 2001 i ddangos dosbarthiad y siaradwyr, yn nhermau'r canrannau oedd yn siarad Cymraeg yn ôl oed y siaradwyr. Mae Map 2 a Map 3 yn enghreifftiau.


**Map 2:** Map plant 5 i 9 oed, canran yn gallu siarad Cymraeg, 2001




**Map 3:** Map pobl 25 i 39 oed, canran yn gallu siarad Cymraeg, 2001



**Map 4:** Map o'r wardiau lle roedd dros 70 y cant yn siarad Cymraeg, 1991



**Map 5:** Map o'r adrannau etholiadol lle roedd dros 70 y cant yn gallu siarad Cymraeg, 2001



Er bod mapiau'n cyfleu'r patrwm yn dda, nid ydynt yn darparu modd hwylus o grynhoi'r dosbarthiadau a amlygir, y newidiadau dros gyfnod, nac ychwaith y gwahaniaethau sydd rhwng y carfannau oed gwahanol. Mae'r hyn sy'n dilyn yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem honno.

Gellir cymharu dosbarthiad wardiau 1991 (Tabl 3) â dosbarthiad yr adrannau etholiadol yn 2001 (Tabl 4).

**Tabl 3:** Dosbarthiad y wardiau yn ôl y ganran yn gallu siarad Cymraeg, 1991<sup>2</sup>

% yn gallu siarad Cymraeg (x,y) = yn fwy na x% ac yn llai neu'n hafal i y%	Nifer yr adrannau etholiadol	% o'r holl adrannau etholiadol	Nifer yn gallu siarad Cymraeg	% o'r cyfanswm yn gallu siarad Cymraeg
(0,10)	380	41.9	83,700	16.5
(10,20)	156	17.2	70,700	13.9
(20,30)	55	6.1	32,200	6.3
(30,40)	37	4.1	28,900	5.7
(40,50)	45	5.0	39,700	7.8
(50,60)	66	7.3	57,600	11.3
(60,70)	82	9.0	87,100	17.1
(70,80)	55	6.1	65,100	12.8
(80,90)	31	3.4	41,300	8.1
(90,100)	1	0.1	2,100	0.4
Cyfanswm	908	100	508,400	100

**Tabl 4:** Dosbarthiad yr adrannau etholiadol yn ôl y ganran yn gallu siarad Cymraeg, 2001<sup>3</sup>

% yn gallu siarad Cymraeg (x,y) = yn fwy na x% ac yn llai neu'n hafal i y%	Nifer o adrannau etholiadol	% o'r holl adrannau etholiadol	Nifer yn gallu siarad Cymraeg	% o'r cyfanswm yn gallu siarad Cymraeg
(0,10)	160	18.2	58,880	10.1
(10,20)	386	43.8	183,590	31.5
(20,30)	59	6.7	39,240	6.7
(30,40)	42	4.8	38,530	6.6
(40,50)	43	4.9	41,060	7.0
(50,60)	78	8.9	78,560	13.5
(60,70)	56	6.4	64,830	11.1
(70,80)	37	4.2	49,070	8.4
(80,90)	20	2.3	28,630	4.9
Cyfanswm	881	100	582,380	100

<sup>2</sup> Wedi'i seilio ar ganrannau talgrynedig i un pwynt degol.

<sup>3</sup> Yn gallu siarad Cymraeg. Ffynhonnell CAS146. Wedi'i seilio ar ganrannau talgrynedig i un pwynt degol.

Gwelir bod yn 1991, 87 ward (allan o 908) lle roedd dros 70 y cant o'r boblogaeth 3 oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg. Erbyn 2001, dim ond 57 adran etholiadol (allan o 881) oedd â chanran debyg. Yn anffodus, gallai'r gymhariaeth hon fod yn gamarweiniol, gan nad yr un unedau sy'n cael eu cymharu yn y ddwy flwyddyn. Mae hon yn enghraifft o un elfen o'r hyn a elwir yn 'broblem uned arwynebaidd addasadwy'.<sup>4</sup> Ni newidiodd ffiniau cymunedau gymaint rhwng 1991 a 2001. Gan hynny, mae cymariaethau rhwng dosbarthiadau cymunedau yn fwy cadarn. Yn 1991, roedd 92 cymuned (allan o 864) lle roedd dros 70 y cant o'r boblogaeth 3 oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg (Tabl 5). Erbyn 2001, nid oedd ond 54 cymuned (allan o 865) â chanran debyg (Tabl 6). Sylwer, er nad oedd fawr o newid yng nghyfanswm y cymunedau, nad yw hynny'n golygu nad oedd rhywfaint o newid yn ffiniau nifer o'r cymunedau.

**Tabl 5:** Dosbarthiad y Cymunedau yn ôl y ganran oedd yn siarad Cymraeg, 1991<sup>5</sup>

% yn gallu siarad Cymraeg (x,y) = yn fwy na x% ac yn llai neu'n hafal i y%	Nifer y Cymunedau	% o'r holl Gymunedau	Nifer yn gallu siarad Cymraeg	% y cyfanswm yn gallu siarad Cymraeg
(0,10)	345	39.9	84,700	16.7
(10,20)	118	13.7	65,300	12.8
(20,30)	52	6.0	34,000	6.7
(30,40)	39	4.5	29,000	5.7
(40,50)	42	4.9	48,000	9.4
(50,60)	80	9.3	53,700	10.6
(60,70)	96	11.1	78,300	15.4
(70,80)	67	7.8	71,700	14.1
(80,90)	25	2.9	43,700	8.6
Cyfanswm	864	100	508,400	100

Mae pwysigrwydd ardaloedd lle mae dros 70 y cant yn siarad Cymraeg wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy gynnwys targed yn *lath Pawb* y bydd erbyn 2011, '... y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70 y cant o'r boblogaeth yn cael ei atal'.

<sup>4</sup> 'modifiable areal unit problem' (MAUP)

<sup>5</sup> Yn siarad Cymraeg. Wedi'i seilio ar ganrannau **heb** eu talgrynnu. Wedi'u talgrynnu i un pwynt degol, dosbarthiad y cymunedau, yn dechrau gyda <=10%, yw: 348, 116, 51, 39, 42, 82, 95, 66, 25.

**Tabl 6:** Dosbarthiad y Cymunedau yn ôl y ganran yn gallu siarad Cymraeg, 2001<sup>6</sup>

% yn gallu siarad Cymraeg (x,y) = yn fwy na x% ac yn llai neu'n hafal i y%	Nifer y Cymunedau	% o'r holl Gymunedau	Nifer yn gallu siarad Cymraeg	% y cyfanswm yn gallu siarad Cymraeg
(0,10)	139	16.1	52,670	9.1
(10,20)	328	37.9	187,150	32.2
(20,30)	59	6.8	39,120	6.7
(30,40)	47	5.4	43,390	7.5
(40,50)	55	6.4	45,090	7.7
(50,60)	96	11.1	65,700	11.3
(60,70)	87	10.1	68,480	11.8
(70,80)	40	4.6	51,370	8.8
(80,90)	14	1.6	28,970	5.0
Cyfanswm	865	100	581,920	100

Eglurwyd yn *laith Pawb* ei bod yn werth rhoi sylw arbennig i'r cymunedau hynny oherwydd '...mae'r ganran uchel o siaradwyr Cymraeg yn golygu mai dyma'r iaith sydd fwyaf tebygol o gael ei siarad mewn gweithgareddau cymdeithasol...' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003). Ystyriwyd eisoes y newidiadau yn y patrymau o allu siarad Cymraeg yn ôl oed ar lefel cenedlaethol a sirol. O edrych ar y patrymau o fewn y cymunedau lle roedd dros 70 y cant o'r boblogaeth gyfan yn gallu siarad Cymraeg, gwelir nad yw'r sefyllfa yr un fath ym mhob grŵp oedran. Os edrychir ar blant 3 i 15 oed, gwelir bod 244 cymuned (allan o 865) lle roedd dros 70 y cant yn gallu siarad Cymraeg yn ôl y Cyfrifiad 2001. Yn y pegwn arall, os edrychir ar bobl 50 i 59 oed, dim ond mewn 16 cymuned y cafwyd dros 70 y cant o'r oedran yn gallu siarad Cymraeg (Tabl 7).

**Tabl 7:** Cymunedau lle roedd dros 70% yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, yn ôl oedr

Oed	Nifer	% o'r holl Gymunedau	Nifer y siaradwyr	% o holl siaradwyr yr oedran
3 - 15	244	28.2	42,949	23.3
16 - 24	179	20.7	16,810	24.0
25 - 39	65	7.5	15,418	17.5
40 - 49	35	4.0	6,630	11.9
50 - 59	16	1.8	3,626	6.1
60 - 64	29	3.4	2,943	11.6
65 - 74	40	4.6	6,570	13.8
75+	75	8.7	10,953	21.5
Pawb 3 oed a throsodd	54	6.2	80,337	13.8

Ffynhonnell: wedi ei gyfrifo o dabl CAS146 Cyfrifiad 2001 ar gyfer ardaloedd cynnyrch y Cyfrifiad.

<sup>6</sup> Yn gallu siarad Cymraeg. Ffynhonnell CAS146. Wedi'i seilio ar ganrannau **heb** eu talgrynnu. Wedi'u talgrynnu i un pwynt degol, dosbarthiad y cymunedau, gan ddechrau gyda <=10%, yw: 144,323,60,47,54,97,86,40,14.

Mae'n debyg bod 70 y cant wedi ei dewis fel canran yn nharged *laith Pawb* oherwydd y gellir cyfrifo'n syml y tebygolrwydd o ddau siaradwr Cymraeg yn cwrdd ar hap fel:  $p = x^2$  - lle  $x$  yw'r gyfran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. (Mae'r model hwn yn gyffredin ym maes llenyddiaeth amrywiaeth biolegol (e.e. Maignan et al., 2003)). Yn ôl y model hwn, pan mae  $x = 0.7$ , y tebygolrwydd y byddai dau sy'n gallu siarad Cymraeg yn cwrdd ar hap yw 0.49. Gellir dadlau felly mewn cymuned lle mae 70 y cant yn gallu siarad Cymraeg y byddai siawns o bron 1 mewn 2, neu'n well, i siaradwr Cymraeg gwrdd â siaradwr Cymraeg arall. Ystyrir hafaliad mwy cymhleth na'r un syml yma ymhellach ymlaen ond, cyn hynny, cyflwynir nifer o fesuryddion gwahanol sy'n darparu ffyrdd gwahanol o grynhoi'n feintiol ddsbarthiad gofodol y siaradwyr Cymraeg yn 2001 a sut y newidiodd y dosbarthiad hwnnw o 1991.

Dau fesur a ddefnyddir yn gyffredin wrth ddadansoddi dosbarthiad poblogaeth yw'r Mynegrif Annhebygrwydd<sup>7</sup> a'r Mynegrif Arwahanrwydd<sup>8</sup> (Simpson, 2007).

$$\text{Y Mynegrif Annhebygrwydd yw } ID = 0.5 \sum_i \left| \left( \frac{N_{gi}}{N_{g.}} \right) - \left( \frac{N_{\bar{g}i}}{N_{\bar{g}.}} \right) \right|$$

lle  $N_{gi}$  yw poblogaeth grŵp  $G$  (y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg) yn ardal  $i$  ac mae symbol y dot yn golygu y cyfrifir swm dros y mynegai.

Gweddill y boblogaeth (h.y. y rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg yn y cyd-destun hwn) yw poblogaeth  $\bar{g}$ . Mae'r Mynegrif Annhebygrwydd yn fesur o wastadrwydd dosbarthiad y grŵp. Gellir ei ddehongli fel y gyfran o'r siaradwyr Cymraeg fyddai'n gorfod symud ardal er mwyn i'r siaradwyr fod wedi eu dosbarthu fel y siaradwyr di-Gymraeg.

$$\text{Y Mynegrif Arwahanrwydd yw } P' = \sum_i \left( \frac{N_{gi}}{N_{g.}} \right) \frac{N_{gi}}{N_i}$$

Gellir dehongli'r Mynegrif Arwahanrwydd fel y tebygolrwydd y bydd siaradwr Cymraeg yn cwrdd â siaradwr arall yn lleol. Mae hwn yr un peth â'r tebygolrwydd na fyddant yn cwrdd â rhywun o blith y siaradwyr Saesneg. Mae'r dehongliad olaf yn egluro tarddiad yr enw, h.y. defnydd y gair 'arwahanrwydd'. Defnyddir y mynegrif yn aml yng nghyd-destun poblogaethau ethnig gwahanol, cyd-destun lle mae'r gair

<sup>7</sup> 'Index of Dissimilarity'

<sup>8</sup> 'Index of Isolation'



'arwahanrwydd' yn gwneud mwy o synnwyr gan na all unigolyn ddewis ei gefndir ethnig.<sup>9</sup> Yn y cyd-destun hwn, lle mae'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd i gyd yn gallu siarad Saesneg mae'n air camarweiniol gan y gall siaradwyr Cymraeg gyfathrebu'n rhwydd â siaradwyr Saesneg.

Edrychwn yn gyntaf ar y Mynegrif Annhebygrwydd. Ar gyfer y boblogaeth gyfan 3 oed neu drosodd, gwerth hwn yn 1991 oedd 0.548 ac yn 2001, 0.419 (y ddau wedi eu cyfrifo ar sail wardiau).<sup>10</sup> Yn 1991, byddai 54.8 y cant o'r siaradwyr Cymraeg wedi gorfod symud ward er mwyn cael canran gyson yn siarad Cymraeg ymhob ward yng Nghymru. Erbyn 2001, dim ond 41.9 y cant a fyddai wedi gorfod symud, a hynny oherwydd nad oedd y siaradwyr Cymraeg wedi eu crynhoi at ei gilydd gymaint. O edrych ar y patrymau yn ôl oed, gwelir yn y ddwy flwyddyn fod y mynegrif yn gostwng pan mae'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yn codi ymhlith y plant, ond yn 2001 mae'r gostyngiad yn llawer mwy sylweddol, yn adlewyrchu'r ffaith bod y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith yr oedran hwnnw'n weddol uchel ar draws Cymru.

<sup>9</sup> Mae'n ddi-ddorol sylwi fod Simpson yn dweud bod defnyddio'r Mynegrif Arwahanrwydd yn briodol pan fo cyfran y grŵp yn y boblogaeth leol yn berthnasol a rhy fel enghraifft "pan fo parhad defnydd ail iaith yn dibynnu ar faint y boblogaeth leol sydd ar gael i'w defnyddio.'

<sup>10</sup> Mesurau eraill a archwiliwyd ar gyfer y gwaith hwn oedd entropi normaleiddedig, entropi cymharol, a'r cyfeirnod amrywiant. Mae'r ddau gyntaf yn ein galluogi i ddisgrifio dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg drwy gymharu mynegrifau. Mae entropi normaleiddedig yn gallu amrywio rhwng 0 ac 1. Mae rhifau yn agos at 1 yn golygu bod y dosbarthiad yn eang. Entropi normaleiddedig dosbarthiad y siaradwyr (nid dosbarthiad y canrannau sylwer, ond niferoedd y siaradwyr) yn 1991 oedd 0.947 (ar sail wardiau) a hynny'n cymharu â 0.967 yn 2001 (ar sail adrannau etholiadol). Gan yr effeithir arno gan broblem yr uned arwynebaidd addasadwy, fe'i cyfrifwyd ar sail ardaloedd cynnyrch yn 2001 hefyd a'i werth wedyn oedd 0.963. Mae'r ffaith fod ffigwr 2001 ychydig yn fwy na ffigwr 1991 yn arwydd fod y dosbarthiad yn 2001 yn fwy gwasgaredig nag yr oedd yn 1991: fel y mae'r Mynegrif Annhebygrwydd yn tystio.

$$\text{Entropi normaleiddedig } H_0 = H/H_{\max} = H/\ln_2 n. H = -\sum p \log_2 q.$$

Mae entropi cymharol yn cymharu dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg â phobl ddi-Gymraeg.  $D(P||Q) = H(P,Q) - H(P)$  lle  $H(P) = \text{entropi } p = -\sum p \log_2 p$  a  $H(P,Q) = -\sum p \log_2 q$ .  $p$  yw'r gyfran o'r holl siaradwyr Cymraeg yn ardal  $l$ ,  $q$  yw'r gyfran o'r bobl ddi-Gymraeg yn ardal  $l$ . Dyma'r dargyfeiredd Kullback-Leibler. Entropi cymharol yr holl siaradwyr 3 oed ac yn hŷn yn 2001 ar sail adrannau etholiadol oedd 0.935.

Y cyfeirnod amrywiant (gwyriad safonol/cymedr) y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001, ar sail adrannau etholiadol, oedd 0.84, eto ar gyfer pawb 3 oed ac yn hŷn.


Mae'r tri mesurydd hyn yn cydberthyn â'r Mynegrif Annhebygrwydd. Gan ddefnyddio grwpiau oedran Tabl 9 roedd cyfeirnod rho Spearman yn arwyddocaol ar eu cyfer i gyd, a'r cyfeirnod yn negyddol yn achos entropi normaleiddedig a'r gweddill, ac yn bositif yn achos entropi cymharol a'r gweddill.

**Tabl 8:** Cyfran yn siarad Cymraeg a mynegrifau annhebygrwydd ac arwahanrwydd, yn ôl oed, 1991 (wedi eu seilio ar wardiau)


Grŵp oedran	Cyfran sy'n gallu siarad Cymraeg	Mynegrif annhebygrwydd	Mynegrif arwahanrwydd
3 – 4	0.162	0.518	0.425
5 – 10	0.248	0.487	0.502
11 – 15	0.273	0.473	0.508
16 – 19	0.198	0.560	0.502
20 – 24	0.150	0.583	0.462
25 – 39	0.144	0.589	0.430
40 – 49	0.156	0.588	0.421
50 – 59	0.171	0.614	0.456
60 – 64	0.190	0.615	0.482
65 – 74	0.208	0.590	0.482
75+	0.251	0.571	0.517
Pawb 3 oed neu'n hŷn	0.187	0.548	0.443

Mae'r Mynegrif Arwahanrwydd yn fwy diddorol oherwydd, fel y soniwyd eisoes, y gellir ei ddehongli fel y tebygolrwydd y bydd siaradwr Cymraeg yn cwrdd â siaradwr arall. Ar gyfer y boblogaeth gyfan 3 oed neu drosodd, gwerth hwn yn 1991 oedd 0.443 ac yn 2001, 0.374. Felly, er bod y ganran oedd yn siarad Cymraeg wedi codi o 18.7 y cant yn 1991 i 20.8 y cant yn 2001, roedd y tebygolrwydd y byddai siaradwr yn cwrdd â siaradwr arall wedi gostwng. Ymhlith yr oedran pwysicaf o bosibl o ran ffurfiant teuluoedd — ac yn y pen draw am drosglwyddiad rhwng cenhedlaeth, sef pobl 25 i 39 oed — er bod y ganran oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi codi o 14.4 y cant yn 1991 i 15.3 y cant yn 2001, roedd y tebygolrwydd y byddai siaradwr Cymraeg yn cwrdd ag un arall ar hap wedi gostwng o 0.430 yn 1991 i 0.384. Y ffaith bod y rhai sydd yn gallu siarad Cymraeg wedi eu gwasgaru'n fwy neu, mewn geiriau eraill, nad ydynt wedi eu crynhoi gymaint — fel y mae'r mynegrif annhebygrwydd yn ei adlewyrchu — sy'n gyfrifol am hynny.

**Graff 4:** Cyfran yn siarad Cymraeg a'r mynegrif annhebygrwydd, yn ôl oed, 1991




**Graff 5:** Cyfran yn siarad Cymraeg a'r mynegrif arwahanrwydd, yn ôl oed, 1991




**Tabl 9:** Cyfran yn siarad Cymraeg a mynegrifau annhebygrwydd ac arwahanrwydd, yn ôl oed, 2001 (wedi eu seilio ar adrannau etholiadol)

Grŵp oedran	Cyfran sy'n gallu siarad Cymraeg	Mynegrif annhebygrwydd	Mynegrif arwahanrwydd
3 - 4	0.188	0.407	0.365
5 - 9	0.374	0.304	0.480
10 - 14	0.437	0.271	0.513
15 - 19	0.307	0.330	0.439
20 - 24	0.174	0.432	0.381
25 - 39	0.153	0.501	0.384
40 - 49	0.147	0.544	0.382
50 - 59	0.155	0.551	0.379
60 - 64	0.167	0.570	0.408
65 - 74	0.181	0.583	0.438
75+	0.211	0.557	0.459
Pawb 3 oed neu'n hŷn	0.208	0.419	0.374

**Graff 6:** Cyfran yn siarad Cymraeg a'r mynegrif annhebygrwydd, yn ôl oed, 2001



**Graff 7:** Cyfran yn siarad Cymraeg a'r mynegrif arwahanrwydd, yn ôl oed, 2001



Mae'r mynegrifau hyn yn ddibynnol ar ffiniau'r ardaloedd a ddefnyddir i'w cyfrifo: problem yr uned arwynebaidd addasadwy eto.

Mae'r mynegrif yn uwch pan y'i cyfrifir ar sail yr unedau mwy niferus gan adlewyrchu bod crynhoad o fewn yr ardaloedd sydd ag arwynebedd mwy. Os defnyddir ardaloedd cynnyrch ehangach haenen isaf<sup>11</sup> Cyfrifiad 2001 yn lle adrannau etholiadol gwelir bod y Mynegrif Arwahanrwydd ar gyfer pawb 3 oed neu'n hŷn fymryn yn uwch: 0.376 yn lle 0.374, ac yn uwch hefyd ar gyfer pob un o'r grwpiau oedran unigol (Tabl 10). 2,925 oedd cymedr poblogaeth yr 881 adran etholiadol yng Nghymru yn 2001 tra 1,531 oedd cymedr poblogaeth yr 1,896 ardal gynnyrch ehangach haenen is. Gan mai 297 oedd cymedr poblogaeth yr 9,769 ardal gynnyrch gellid disgwyl y byddai'r mynegrif yn uwch eto pes cyfrifid ar sail yr ardaloedd hynny. Dyna a gafwyd: 0.384 oedd gwerth y Mynegrif Arwahanrwydd wedi ei gyfrifo ar sail ardaloedd cynnyrch. Ni chyfrifwyd y Mynegrif ar gyfer oeddrannau unigol gan ddefnyddio ardaloedd cynnyrch oherwydd y byddai'r 'dull addasu celloedd bychain'<sup>12</sup> a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i warchod cyfrinachedd data unigolion yng Nghyfrifiad 2001 yn sicr o gael effaith andwyol ar gywirdeb y cyfrifo. Mae'n debyg ei fod wedi cael effaith sylweddol ar ffigurau'r ardaloedd cynnyrch ehangach haenen isaf hefyd (Tabl 10) lle roedd rhychwant oed y grwpiau oedran yn gyfyng, a'r niferoedd o bobl oedd wedi eu cynnwys yn fach, e.e. grŵp oedran 3–4 yn benodol, ond hefyd y grwpiau 20–24 a 60–64.

**Tabl 10:** Mynegrif arwahanrwydd, 2001, wedi ei gyfrifo ar sail adrannau etholiadol ac ardaloedd cynnyr

Grŵp oedran	Mynegrif arwahanrwydd, wedi ei gyfrifo ar sail	
	Adrannau etholiadol	Ardaloedd cynnyrch ehangach haenen isaf
3 – 4	0.365	0.393
5 – 9	0.480	0.487
10 - 14	0.513	0.518
15 – 19	0.439	0.449
20 – 24	0.381	0.394
25 – 39	0.384	0.387
40 – 49	0.382	0.386
50 – 59	0.379	0.383
60 – 64	0.408	0.420
65 – 74	0.438	0.444
75+	0.459	0.465
Pawb 3 oed neu'n hŷn	0.374	0.376

<sup>11</sup> 'Lower Super Output Areas'

<sup>12</sup> 'Small cell adjustment method'. Lle roedd 3 neu lai o bobl mewn cell, newidiwyd y rhif i 0 neu 3.

Mae'n werth edrych ar y Mynegrif Arwahanrwydd ar gyfer yr awdurdodau unedol.

**Tabl 11:** Y gwahaniaeth rhwng y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg a'r Mynegrif Arwahanrwydd, a chyfeirnod I Moran, fesul awdurdod unedol, 2001

Awdurdod unedol	Y gyfran o bawb 3 a throsodd sy'n siarad Cymraeg (1)	Mynegrif arwahanrwydd ar sail AE (2)	Gwahaniaeth (3) = (2)-(1)	Cyfeirnod I Moran
Castell-nedd Port Talbot	0.180	0.294	0.114	0.8367
Sir Benfro	0.218	0.322	0.104	0.8884
Powys	0.211	0.309	0.098	0.8103
Conwy	0.294	0.374	0.080	0.8022
Sir Ddinbych	0.264	0.337	0.073	0.7286
Sir Gaerfyrddin	0.503	0.544	0.041	0.7056
Abertawe	0.134	0.165	0.031	0.5302
Wrecsam	0.146	0.177	0.031	0.3983
Gwynedd	0.690	0.724	0.034	0.6823
Sir Ynys Môn	0.601	0.629	0.028	0.5876
Sir Ceredigion	0.520	0.542	0.022	0.6277
Sir y Fflint	0.144	0.160	0.016	0.6140
Caerdydd	0.110	0.116	0.006	0.4278
Rhondda; Cynon; Taf	0.125	0.130	0.005	0.2656
Sir Fynwy	0.093	0.097	0.004	0.3474
Caerffili	0.112	0.114	0.002	0.2176
Merthyr Tudful	0.102	0.105	0.003	0.0202
Pen-y-bont ar Ogwr	0.108	0.110	0.002	0.1038
Tor-faen	0.111	0.113	0.002	0.3367
Blaenau Gwent	0.095	0.095	0.000	-0.0879
Casnewydd	0.100	0.101	0.001	-0.0830
Bro Morgannwg	0.113	0.114	0.001	0.2069
Cymru	0.208	0.374	0.166	0.9350

Wedi rhestru'r awdurdodau unedol yn nhrefn ostyngol y gwahaniaeth rhwng y Mynegrif Arwahanrwydd a'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg (gan ddefnyddio adrannau etholiadau'n sail) (Tabl 11) gwelir bod cydberthynas gref (cyfeirnod cydberthyniad Pearson = 0.824, cyfernod rho cydberthyniad rhestrol Spearman = .951) rhwng y gwahaniaeth a'r hunangydberthynas ofodol o fewn yr awdurdod fel y'i mesurir gan gyfeirnod I Moran. (Mae cyfeirnod I Moran yn fesur arall a effeithir gan broblem yr uned arwynebaidd addasadwy ac yn gyffredinol dylid bod yn ochelgar wrth ei gymharu ar draws ardaloedd. O fewn ardal mae'n fesur i ba raddau mae ardaloedd lle mae

canrannau uchel neu isel wedi eu clystru'n agos at ei gilydd).<sup>13</sup> Yn yr awdurdodau lle mae'r siaradwyr Cymraeg wedi eu crynhoi fwyaf — yng Nghastell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Phowys—mae'r tebygolrwydd y bydd siaradwr Cymraeg yn cwrdd â siaradwr Cymraeg arall o leiaf 46 y cant yn fwy nag y mae'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn ei awgrymu.

## Trafodaeth

Dechreuwyd trwy ddadansoddi cynhyrchu'r iaith trwy'r gyfundrefn addysg, i'w gymharu ag atgynhyrchu'r iaith yn y cartref. Dangoswyd nad oedd fawr o berthynas rhwng y canrannau oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y canol oed ifanc, 25–39 oed, a'r plant 3–4 oed, yn ardal llawer o awdurdodau unedol Cymru. Er mwyn cael cartref lle gall y Gymraeg fod yn brif iaith yr aelwyd, rhaid cael rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r rheini'n prinhaus (Williams, 1987; Jones, 1998; Bwrdd yr Iaith, 2004).

Allbriodas<sup>14</sup> ieithyddol yw achos hynny. Mae llawer o ffactorau gwahanol a chymhleth yn arwain at allbriodas ond mae ystyriaeth o ddamcaniaeth tebygolrwydd yn gallu goleuo ein dealltwriaeth ohonynt. Cyflwynwyd y fformiwla syml  $p = x^2$  wrth ddadansoddi dosbarthiad gofodol y siaradwyr Cymraeg a tharddiad un o dargedau *Iaith Pawb*. Ystyriwn y fformiwla ganlynol fwy cymhleth (Alvarez Enparantza, 2001) sy'n egluro sut mae cyfansoddiad grwpiau lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio yn amrywio:

$$p'_{nB} = m_{nB} \frac{e_X^n}{(g e_A e_X)^{n-1}} \text{ lle mae:}$$

$p'_{nB}$  = cyfran y grwpiau gydag  $n$  o bobl sy'n siarad Cymraeg (iaith B)

$m_{nB}$  = lefel teyrngarwch y siaradwyr dwyieithog i'r Gymraeg pan fyddant yn siarad mewn grŵp o  $n$  o bobl

$e_X$  = y gyfran sy'n siarad Cymraeg

$e_A$  = y gyfran sy'n ddi-Gymraeg

$g$  = y radd o isotropi sy'n cyfateb i'r gyfran o siaradwyr di-Gymraeg sydd wedi'i ymdodi yn ieithyddol, ac mewn cysylltiad â'r gymdeithas ddwyieithog.

<sup>13</sup> Mae hefyd yn dibynnu ar sut y pwysolir yr ardaloedd. Defnyddiwyd pwysolion cyfagosrwydd Brenhines pellter 1 yma.


<sup>14</sup> 'Exogamy'

Gwelir, os yw teyrngarwch y rhai sy'n gallu siarad yr iaith yn llwyr at yr iaith, fel eu bod i gyd yn dewis ei siarad, h.y. os bydd  $m_{nb} = 1$ , a dim rhaniad cymdeithasol, h.y. os bydd  $g = 1$ , y gyfran o grwpiau o faint 2 yn defnyddio'r Gymraeg fydd

$1 \times e_X^2 / (e_A + e_X)^1 = e_X^2$ , gan fod  $(e_A + e_X) = 1$ . A dyma ni yn ôl at y model syml blaenorol.

Mae'r ffactor  $g$  am isotropi a gynhwysir yn y model uchod yn gallu cael ei dehongli mewn dwy ffordd. Mae'n gallu cael ei dehongli yn nhermau gofodol pur. Yn hynny o beth, mae'r Mynegrif Arwahanrwydd yn debyg gan ei fod yn pwysoli'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl eu crynhoad daearyddol. Ond fe ellid dehongli'r ffactor mewn ffordd ehangach a gadael iddi gynrychioli i ba raddau y mae rhwydweithiau cymdeithasol y rhai di-Gymraeg yn dod i gysylltiad â rhai siaradwyr Cymraeg. Mae Graff 8 yn dangos sut mae'r tebygolrwydd y byddai dau siardwr Cymraeg yn cwrdd, ill dau'n gallu siarad Cymraeg, yn dibynnu ar y ganran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a'r ffactor  $g$ .

**Graff 8:** Tebygolrwydd y bydd dau berson yn gallu siarad Cymraeg



Ffordd arall o ddehongli'r tebygolrwydd hwn yw ei gymryd fel y gyfran o'r grwpiau o ddau o bobl lle mae'r ddau'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r llinell ddu isaf yn dangos y gyfran pan nad oes crynhoad o'r siaradwyr Cymraeg o gwbl. Ystyriwn, er enghraifft, beth yw'r gyfran pan mae 50 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r llinell ddu yn dangos y byddai chwarter (0.25) o'r grwpiau â'r ddau yn gallu siarad Cymraeg pe na bai crynhoad o'r siaradwyr. Mae'r llinellau eraill yn dangos sut mae'r gyfran hon yn cynyddu wrth i'r siaradwyr grynhoi at ei gilydd. Beth wnawn ni o hwn, gan nad oes ffordd o fesur

y ffactor  $g$  yn uniongyrchol? A dychwelyd at y fformiwla syml, y tebygolrwydd y bydd dau'n gallu siarad Cymraeg yw  $p=x^2$ . Gallwn ei newid i  $p=x_1*x_2$ , lle  $x_1$  yw'r tebygolrwydd bod y person cyntaf yn gallu siarad Cymraeg a  $x_2$  yw'r tebygolrwydd y bydd yr ail yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr ardal gyfan yn dal i roi'r tebygolrwydd y bydd un a ddewisir ar hap yn gallu siarad Cymraeg, sef  $x_1$ . Ond gallwn ddefnyddio'r Mynegrif Arwahanrwydd fel mesur o'r ail debygolrwydd. Cymerwn Sir Gaerfyrddin fel enghraifft. Mae 50.3 y cant o'r boblogaeth yno'n gallu siarad Cymraeg (Tabl 11). Pe baent wedi eu gwasgaru'n gyfartal ar draws y sir, byddem yn gallu cyfrifo mai  $0.503 \times 0.503 = 0.253$  o'r grwpiau o ddau fyddai â'r ddau'n gallu siarad Cymraeg. Oherwydd nad yw'r siaradwyr wedi eu gwasgaru'n gyfartal mewn gwirionedd, gallwn gyfrifo y byddai  $0.503 \times 0.544 = 0.274$  yn amcangyfrif gwell. Mae hynny'n gynydd o 8.3 y cant yn y tebygolrwydd y bydd dau sy'n gallu siarad Cymraeg yn cwrdd.

Dylid cofio wrth ystyried trosglwyddo'r iaith, mai'r grŵp pwysicaf o ddau yw'r ddau riant sy'n ffurfio teulu. Pobl gymharol ifanc yw'r rheini gan amlaf. Y dosbarthiadau gofodol, neu'r rhwydweithiau, pwysicaf o'r safbwynt hwnnw yw rhai'r bobl ifanc. Nid dosbarthiad y siaradwyr o bob oed sy'n cyfrif ond dosbarthiad y bobl ifanc.

Mae fformiwla Alvarez Enparantza'n cynnwys ffactor arall,  $m$ , i gynrychioli'r hyn mae'n ei alw'n deyrngarwch i'r iaith gan y rhai sy'n gallu ei siarad. Dyma'r gydnabyddiaeth na fydd pawb sy'n gallu siarad yr iaith yn dewis ei defnyddio – neu'r ffaith na fydd pawb sy'n cwrdd yn ymwybodol o allu iaith ei gilydd – ac na fydd yr iaith yn cael ei defnyddio o'r herwydd. Er bod gweddill y papur wedi canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ddsbarthiad gofodol y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg a'i oblygiadau, ni ddylid o reidrwydd ddehongli hynny i olygu mai eu dosbarthiad yw'r prif ffactor sy'n pennu faint o ddefnydd llafar a wneir o'r Gymraeg. Crybwyllwyd pwysigrwydd lefelau gallu a rhwydweithiau o'r blaen. Bydd y ffactorau hynny a normau ymddygiad i gyd yn dylanwadu ar ddewis iaith yr unigolyn (e.e. Canolfan Ymchwil Ewrop, Cymru, 2006).

## Casgliadau

Nod y papur oedd ymestyn dadansodiadau blaenorol awduron eraill trwy ddadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2001 ar lefel sail ddaearyddol fanwl a thrwy gymhwyso technegau ystadegol i'r pwnc. Dechreuwyd wrth archwilio'r berthynas rhwng canlyniadau'r Cyfrifiad a effeithiau Deddf Ddiwygio Addysg 1988. Dangoswyd sut arweiniodd y ddeddf hon at ehangu mawr ar ddyngu'r Gymraeg yn ysgolion Gwent ac ar sut yr adlewyrchiwyd hynny yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad. Aed ymlaen i archwilio'r berthynas rhwng y canrannau a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymhlith y plant 5 i 9 oed ac oedolion ifanc 25 i 39 oed. Dangoswyd pwysigrwydd cymharol y gyfundrefn addysg yn y rhan fwyaf o Gymru'n 'cynhrchu' yr iaith o'i gymharu ag atgynhrchu'r iaith drwy ei throsglwyddo rhwng y cenedlaethau. Arweiniodd hwnnw at ddadansoddiad ystadegol o ddsbarthiad daearyddol siaradwyr yr iaith. Wrth gofnodi bod tuedd at wasgariad mwy cyfartal o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru, dangoswyd sut y gall hynny arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg.

Yn y drafodaeth a ddilynodd y dadansoddiadau cyflwynwyd rhai symiau enghreifftiol. Nid oes pwysigrwydd arbennig i'r symiau hynny ond mae pwysigrwydd i'r cysyniadau



oddi tanynt. Mae clymau cymdeithasol rhwng y rhai sy'n gallu siarad yr iaith yn bwysig i ddefnydd yr iaith – boed y rheini'n glymau o ran lleoliad neu rwydweithiau – gan eu bod yn darparu cyfleoedd i siarad yr iaith. Os bydd cyfle gall yr unigolyn ddewis pa iaith y mae am ei defnyddio. Mae llawer o ffactorau yn dylanwadau ar y ddewis, gan gynnwys gallu unigolyn i siarad yr iaith a'r pwysau y mae'r unigolyn yn eu teimlo i gydymffurfio â'r 'norm'.

Gellid dadlau bod ymdrechion cynllunwyr iaith i newid y norm a normaleiddio sefyllfa'r Gymraeg yr un mor bwysig i'r dyfodol â rhai o'r tueddiadau a amlygwyd yn y papur.

## Llyfryddiaeth

Aitchison, J. a Carter, H., (1985), *The Welsh Language: An Interpretive Atlas: 1961-1981* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)

Aitchison, J. a Carter, H., (1994), *A Geography of the Welsh Language 1961-1991* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol)

Aitchison, J. a Carter, H., (2000), *Language, economy and society: the changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century* (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)

Aitchison, J. a Carter, H., (2004), *Spreading the Word: The Welsh language 2001* (Talybont, Y Lolfa)

Alvarez Enparantza, José Luis ("Txillardegí"), (2001), *Hacia una Socio-Lingüística Matemática* (Sortzen, Euskal Soziolinguistika Institutua Sortzen)

Anselin, L., (1992), Technical Paper 92-10, 'Spatial Data Analysis with GIS: An Introduction to Application in the Social Sciences' (National Center for Geographic Information and Analysis. University of California Santa Barbara)

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004), *Cyfrifiad 2001: Cyfansoddiad ieithyddol cartrefi Cymru*, [www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/download.php/pID=34919.7](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/download.php/pID=34919.7) . Dyddiad yr aed at y wefan: 15 Mai 2007

Farrel, S., Bellin, W., Higgs, G. a White, S., (1997), 'The Distribution of Younger Welsh Speakers in Anglicised Areas of Wales', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, Vol 18, 6. 489-95

Higgs, G., Williams, C. a Dorling, D., (2004), 'Use of the Census of Population to discern trends in the Welsh language: An aggregate analysis', *Area* , 36, 187-201

Jones, H., (1998), 'Mother tongue Welsh speakers and Welsh speaking couples. Proceedings of the Colloquium on Minority-language Population Censuses and Social Surveys', Department of Social Sciences, University of Hertfordshire.

Jones, H., (i'w gyhoeddi 2008), 'The changing social context of Welsh: a review of

statistical trends', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*

Jones, H and Williams, C. H., (2000), 'The Statistical Basis for Welsh Language Planning: Data Trends, Patterns, Processes', yn C.H. Williams (gol.), *Language Revitalisation; Policy and Planning in Wales*, 48–82 (Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, (Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Maignan, C., Ottaviano, G., Pinelli, D. a Rullani, F., (January 2003), 'Bio-ecological diversity vs. Socio-economic diversity: a comparison of existing measures', (Fondazione Eni Enrico Mattei, <http://www.feem.it/NR/rdonlyres/CD0D91F5-12B9-4E20-B905-00E25D73187A/691/1303.pdf>)

Pryce, W.T.R. a Williams, C. H., (1988), 'Sources and Methods in the Study of Language Areas; A Case Study of Wales', yn *Language in Geographic Context*, C. H. Williams (gol.), 167–237, (Clevedon, Multilingual Matters)

Simpson, L., (2007), *Indices of Segregation and Diversity*, J.R.Statist.Soc., A, 170, 405–24

Taylor, C., Gorard, S. a Fitz, J., (2000), 'A re-examination of segregation indices in terms of compositional invariance', Social Research Update 30, University of Surrey.

Williams, G., (1987), 'Bilingualism, class dialect, and social reproduction', *International Journal of the Sociology of Language*, (Amsterdam, Mouton de Gruyter)

*S Eleri Pryse, Helen R Middleton  
ac Alan G Wood*

**Llif yr atmosffer drydanol  
dros begwn y gogledd:  
Arsylwadau tomograffi  
radio a SuperDARN**

---

**GWERDDON**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 2, Hydref 2007 • ISSN 1741-4261

# Llif yr atmosffer drydanol dros begwn y gogledd: Arsylwadau tomograffi radio a SuperDARN

*S Eleri Pryse, Helen R Middleton ac Alan G Wood*

## Rhagarweiniad

Uwchlaw ~60 km o arwyneb y Ddaear mae'r atmosffer wedi ei ìoneiddio ac yn cynnwys ìonau positif ac electronau. Dyma'r rhan drydanol o'r atmosffer, a elwir yr ìonosffer. Mae'r rhanbarth o ddiddordeb i ddefnyddwyr systemau cyfathrebu a mordwyo gan fod yr ìoneiddiad yn amharu ar ledaeniad tonnau radio, gan ar brydiau achosi i dderbynyddion golli signalau. Yn yr ìonosffer y lleolir yr awrora, neu oleuadau'r gogledd fel y'u gelwir yn hemisffer y gogledd. Ffocws y gwaith a gyflwynir yn yr erthygl hon yw'r ìonosffer yn ardal pegwn y gogledd.


Wrth astudio nodweddion yr ìonosffer mae'n rhaid edrych ar y prosesau sy'n creu, dinistrio a symud y plasma. Caiff yr electronau a'r ìonau positif eu creu gan ddwy broses, sef ìoneiddiad gan belydriad uwch fioled o'r Haul ac ìoneiddiad gan ronynnau egniòl o barthau pellaf ein hamgylchfyd (y magnetosffer) sy'n cael eu cyflymu i lawr i'r atmosffer. Caiff yr ìoneiddiad ei ddinistrio wrth gyfuno mewn prosesau cemegol, a chaiff ei drawsgludo yng nghylchrediad y plasma. Gwyddys cryn dipyn am y prosesau gwahanol yma yn yr ìonosffer a gellir eu modelu gan raglenni cyfrifiadur, fodd bynnag, erys maint eu cyfraniadau ar unrhyw adeg neilltuol yn gwestiwn agored. Bwriad y papur yma yw edrych ar rôl y cylchrediad sy'n symud ìoneiddiad ar draws pegwn y gogledd. Cyflwynir arsylwadau a wnaed yng ngogledd Llychlyn.



**Ffigwr 1:** Rhyngweithio rhwng y maes magnetig rhyngblanedol a maes magnetig y Ddaear pan fo'r maes rhyngblanedol wedi ei gyfeirio tua'r de. Mae'r Haul i'r chwith o'r ffigwr, a gwynt yr Haul yn teithio i gyfeiriad y saeth las. Caiff maes magnetig y Ddaear ei agor ger plân y cyhydedd ac yna ei dynnu gan wynt yr Haul o ochr y dydd i ochr y nos.

Yn allweddol i drawsgludiad plasma yn ardal y pegynau yw'r rhyngweithio rhwng maes magnetig y gofod rhyngblanedol a maes magnetig y Ddaear. Yr Haul yw tarddiad y maes rhyngblanedol, a chaiff ei dynnu o'r seren gan y gwynt heulog sy'n llifo o'r Haul ac yn ysgubo dros y planedau gan gynnwys y Ddaear. Pan fo'r maes yn taro ar faes magnetig y Ddaear mae'r ddau yn atgysylltu, gyda lleoliad yr atgysylltu yn dibynnu ar gyfeiriad y maes rhyngblanedol. Mae lleoliad yr atgysylltu yma yn allweddol i batrwm y llif yn yr atmosffer drydanol ar ledredau uchel. Gwelir enghraifft yn Ffigwr 1. Yma mae'r Haul i'r chwith o'r ffigwr a'r maes magnetig rhyngblanedol wedi'i gyfeirio tua'r de, yn ddirgroes i faes magnetig y Ddaear. Mae'r atgysylltu ger plân y cyhydedd, a chaiff maes magnetig y Ddaear ei agor yn y fan yma. Wrth i wynt yr Haul a'r maes magnetig rhyngblanedol ysgubo dros y Ddaear tynnir maes magnetig y Ddaear o ochr y dydd i ochr y nos, a chaiff yr ïoneiddiad ar ledredau uchel yn yr atmosffer ei ddwyn gyda'r maes ar draws y parthau pegynol.

Dangosir cyfeiriad y llif plasma yn yr ïonosffer gan y lliniau yn Ffigwr 2. Edrychir yma ar y Ddaear oddi uchod i begwn y gogledd. Mae'r pegwn magnetig yng nghanol y cylch, gyda hanner dydd amser lleol magnetig (MLT) ar y top a chanol nos ar y gwaelod. Gwelir bod y llif wedi ei gyfeirio ar draws ardal y pegwn o'r dydd i'r nos, gyda'r saeth goch yn pwysleisio y man lle mae'r plasma yn cael ei dynnu oherwydd yr atgysylltu rhwng y meysydd magnetig a ddangosir yn Ffigwr 1. Dychwela'r plasma i ochr y dydd ar ledredau is ar ochr min nos ac ochr y wawr, a cheir patrwm dwy gell i'r llif. Os yw'r ïoneiddiad sy'n cael ei gludo yn y llif ar uchder o ~350km-400km, mae'n debygol fod ei oes yn ddigon hir iddo deithio yr holl ffordd ar draws y lledredau pegynol o ochr y dydd ac i mewn i sector y nos. Ar uchderau is mae oes y plasma yn fyrrach gan fod amllder gwrthdrawiadau rhwng gronynnau'r atmosffer yn fwy. Patrwm delfrydol o'r llif a ddangosir yn Ffigwr 2 ac mewn gwirionedd mae amrywiadau cyson yng nghyfeiriad a maint y maes magnetig rhyngblanedol yn achosi amrywiadau sylweddol yn ffurf y patrwm llif (Cowley et al., 1991) a'r strwythur plasma sy'n cael ei gludo ar draws y pegwn.



**Ffigwr 2:** Lliniau yn dangos patrwm llif plasma ar ledredau uchel pan fo'r maes magnetig rhyngblanedol wedi'i gyfeirio tua'r de. Edrychir i lawr ar y Ddaear gyda phegwn y gogledd magnetig yng nghanol y cylch, canol dydd (amser lleol magnetig, MLT) ar y top, canol nos ar y gwaelod, min nos ar y chwith a'r wawr ar y dde. Mae'r llif ar draws ardal y pegwn

*o'r dydd i'r nos, ac yna'n dychwelyd ar ledredau is mewn patrwm dwy gell. Dangosa'r saeth goch yr ardal ble caiff maes magnetig y Ddaear a'r ìoneiddiad ei dynnu o ochr y dydd tua'r nos oherwydd yr atgysylltu rhwng maes magnetig y Ddaear a'r maes magnetig rhyngblanedol.*

Defnyddiwyd sawl dull arsylwi i fesur crynodiad yr electronau (nifer o electronau yr uned cyfaint) yn ardal pegwn y gogledd. Adolygir y dulliau arsylwi a'r strwythurau yn yr ìoneiddiad gan Crowley (1996). Gwelwyd strwythurau mawr o ìoneiddiad yn ardal y pegwn pan fo gan y maes magnetig rhyngblanedol gydran tua'r de, sef  $B_z < 0$  (McEwen a Harris, 1996). Roedd y strwythurau yn teithio ar fuanedd o rhwng 300 a 1000 m s<sup>-1</sup>. Nid oes dealltwriaeth lawn gennym o'r prosesau sy'n creu'r crynodiad uchel, gyda gronynnau egniöl (Weber et al., 1984) a phelydriad yr Haul ar ledredau is (Buchau et al., 1985) wedi eu cynnig. Erbyn hyn mae'r dystiolaeth arbrofol yn tueddu i gefnogi pelydriad yr Haul fel y prif ddull gyda'r ìoneiddiad o ledredau is ar ochr y dydd yn cael ei dynnu yn y patrwm llif tua'r pegwn. Cofnododd Buchau et al. (1985) lefel crynodiad ger y pegwn tebyg i'r hyn a welir ar ledredau is, tra bo arsylwadau Pryse et al. (2004) yn awgrymu fod y crynodiad uchel yn deillio ar ochr ddeheuol y patrwm llif yn sector y prynhawn. Cynigiodd Valladares et al. (1994) fod y plasma yn llifo mewn tafod-ìoneiddiad o ledredau is ar ochr y dydd tuag at y pegwn, a chyflwynodd Sims et al. (2005) arsylwadau o'r tafod. Awgrymwyd sawl dull o dorri'r tafod i strwythurau llai, gan gynnwys: amrywiadau ym mhatrwm y llif plasma (Sojka et al., 1993), ehangiad a chyfangiad ym maint y rhanbarth pegynol (Anderson et al., 1988), a chynnydd yng nghyfradd cyfuno'r electronau a'r ìonau mewn llif sydyn (Rodger et al., 1994).


Hyd yn hyn ychydig o arsylwadau a wnaed i edrych ar rôl plasma'r dydd ar ochr y nos. Mewn gwaith modelu cynnar gan Robinson et al. (1985) awgrymwyd fod cynnydd crynodiad ger y pegwn yn cael ei dynnu i mewn i sector y nos, ble y caiff yn y man ei ad-strwythuro gan y llif i greu strwythur plasma wedi ei ymestyn mewn hydred ond yn gyfyngedig mewn lledred. Nod y papur hwn yw cyflwyno arsylwadau sy'n cefnogi'r syniad o drawsgludiad plasma o'r dydd i'r nos, gyda'r arsylwadau'n cael eu gwneud pan fo Ewrop yn sector y nos. Cyflwynir dwy enghraifft sy'n gydnaws â strwythur plasma wedi ei drawsgludo ar draws ardal y pegwn. Mae'r enghraifft gyntaf yn edrych ar gynnydd crynodiad a fesurwyd cyn hanner nos amser lleol magnetig, a'r ail yn canolbwyntio ar arsylwadau wedi hanner nos. Ffocws y gwaith yw arsylwadau gan arbrawf tomograffi radio Prifysgol Cymru Aberystwyth a rhwydwaith radar rhyngwladol SuperDARN (Super Dual Auroral Radar Network).

## **2. Arbrofion**

### **2.1 Tomograffi radio**

Mae gan arbrawf tomograffi radio Prifysgol Cymru Aberystwyth gadwyn o dderbynyddion signalau lloeren yng ngogledd Llychlyn. Lleolir y derbynyddion yn Ny-Ålesund (78.9°Gog,12.0°Dn) a Longyearbyen (78.2°Gog,15.7°Dn) ar Svalbard, Bjørnøya (74.5°Gog,19.0°Dn) a Tromsø (69.6°Gog,19.2°Dn) ar brif dir Norwy (Ffigwr 3). Mae'r


derbynyddion yn monitro signalau radio 150 MHz a 400 MHz o loerennau y system NIMS (Navy Ionospheric Monitoring System) sydd mewn orbitau pegynol ar uchderau o tua 1,100 km. Maent yn mesur cynnwys electronau yr ïonosffer ar hyd nifer fawr o lwybrau rhwng lloeren a dderbynydd sy'n rhyngdorri'i gilydd. Defnyddir dulliau tomograffig i wrthdroi'r data a darganfod crynodiad yr electronau mewn plân uchder-lledred yn yr ïonosffer (Pryse et al., 2003).



**Ffigwr 3:** Arbrawf tomograffi radio Prifysgol Cymru Aberystwyth yn yr Arctig uchel gyda derbynyddion signalau lloeren yn Ny-Ålesund, Longyearbyen, Bjørnøya a Tromsø.

## 2.2 Rhwydwaith radar SuperDARN

Mae gan rwydwaith SuperDARN nifer o systemau radar yn hemisffer y gogledd (Ffigwr 4) ac yn hemisffer y de (Greenwald et al., 1995). Prifysgol Caerlŷr sy'n gyfrifol am ddau ohonynt yn hemisffer y gogledd, yn y Ffindir a Gwlad yr Iâ. Mae'r systemau yn mesur cyflymder a chyfeiriad llorweddol y llif plasma. Yn y gwaith a gyflwynir yma defnyddiwyd y mesuriadau o'r llif i fowldio mapiau o'r potensial trydan yn ardal pegwn y gogledd, er mwyn canfod y potensial ac felly y patrwm llif plasma yn yr ardal (Ruohoniemi a Baker, 1998).



**Ffigwr 4:** System radar SuperDARN. Dangosir meysydd gweld y system yn hemisffer y gogledd. Mae Prifysgol Caerlŷr yn gyfrifol am y radar yng Ngwlad yr Iâ a'r un yn y Ffindir. (o <http://superdarn.jhuapl.edu>)

### 3. Arsylwadau


#### 3.1 Min nos: 14 Tachwedd 2002

##### 3.1.1 Delwedd tomograffi 1720UT

Mae'r ddelwedd tomograffi yn Ffigwr 5 ar gyfer pàs lloeren a groesodd ledred geograffig 75°Gog am 1720UT wrth deithio tua'r de ar 14 Tachwedd 2002. Dengys fod yr ionosffer yn llawn strwythur, gyda chynnydd crynodiad sylweddol yn y rhan ogleddol. Ni fyddai pelydriad yr Haul wedi creu'r strwythur yn uniongyrchol yn y man yma yn ystod oriau'r nos. Ymestyn y crynodiad uchel o ledred geomagnetig 74°MLAT y tu hwnt i ochr dde maes y plân. Mae'r crynodiad mocsimwm o fwy na  $6 \times 10^{11} \text{m}^{-3}$ , ger 77.5°MLAT. Dangosir amrediad lledred y strwythur gan y llinell binc ar uchder o 350km, sy'n ymestyn tua'r gogledd o amlin  $4 \times 10^{11} \text{m}^{-3}$ . Awgryma uchder y strwythur fod ganddo oes o sawl awr, a'i fod yn debygol o fod wedi ei greu cyn adeg yr arsylwad. Cadarnheir hyn gan arsylwadau gan radar rhyngwladol EISCAT (European Incoherent Scatter Radar) (Pryse et al., 2006). Mae cynnydd crynodiad electron arall yn y ffigwr wedi ei ganoli ar 70°MLAT, ond mae'r crynodiad yn llai yma gyda mocsimwm o  $3.5 \times 10^{11} \text{m}^{-3}$ . Gwahenir y ddau gynnydd gan wrthdroad yng nghyfeiriad y llif plasma ar ledred a ddynodir gan y llinell lwyd ac a gyflwynir yn fwy manwl yn y rhan nesaf (3.1.2). Lleolir y cynnydd crynodiad mwyaf yn y llif o gyfeiriad yr Haul, a'r cynnydd llai yn y llif dychwelyd i gyfeiriad yr Haul.



## Delwedd Tomograffi: 14 Tachwedd 2002 17:20 UT



**Ffigwr 5:** Delwedd tomograffi ar gyfer pàs lloeren a groesodd ledred 75°Gog am 1720UT ar 14 Tachwedd 2002 wrth deithio tua'r de. Dangosa'r llinell binc amrediad lledred y cynnydd crynodiad electron mawr sydd wedi ei leoli yn y llif o gyfeiriad yr Haul. Mae'r cynnydd llai ar ledredau is yn y llif dychwelyd. Gwahaner y ddau strwythur gan y llinell llwy sy'n dynodi lledred y gwrthdroad yn y llif. (MLAT: lledred magnetig, MLON: hydred magnetig, MLT: amser lleol magnetig)


### 3.1.2 Patrwm y llif plasma 1716-1804UT

Dangosir amliniau potensial trydan a gaed gan system radar SuperDARN yn Ffigwr 6. Ym mhob panel edrychir i lawr ar begwn y gogledd magnetig, sydd yng nghanol y cylch. Mae amser lleol magnetig (MLT) ar y cylchedd gyda hanner dydd ar y top. Dengys y cylchoedd ledredau magnetig yn ymestyn o 60°MLAT ar y cylch allanol i 90°MLAT yn y canol. Dangosir hefyd fectorau cyflymder llorweddol y plasma a fesurwyd gan y rhwydwaith radar ac a ddefnyddiwyd i fowldio'r amliniau potensial trydan. Gan fod y plasma'n llifo ar hyd amliniau potensial trydan yn yr ardal yma o'r ionosffer, mae ffurf yr amliniau'n cyfateb i batrwm y llif plasma yn hemisffer y gogledd. Mae'r patrwm llif dwy gell yn amlwg ond heb fod yn gwbl gymesur, gyda'r llif yn ardal y pegwn wedi ei ddadleoli tuag at ochr min nos.

Mae amser y panel cyntaf (1716UT-1718UT) yn Ffigwr 6 yn cyfateb i arsylwad y cynnydd crynodiad electron mawr ar ochr dde Ffigwr 5, ychydig funudau cyn i'r lloeren groesi 75°Gog am 1720UT. Dangosir llwybr y pàs lloeren wedi ei fapio i uchder o 350km ar y panel. Mae'r llwybr yn sector yr hwyr, yn ymestyn o tua 60°MLAT i 80°MLAT. O ddiddordeb

penodol yw'r rhan binc sy'n cyfateb i amrediad lledred y crynodiad electron mawr. Gwelir fod y strwythur yma wedi ei leoli yn union yn y llif ar draws ardal y pegwn o'r dydd i'r nos.

Defnyddiwyd patrymau llif tebyg i'r rhai ym mhaneli Ffigur 6, a fesurwyd bob dau funud gan y system radar rhwng 1716UT a 1802UT, i dafluio safle'r cynnydd plasma ymlaen mewn amser.



**Ffigur 6:** Patrymau potensial trydan a fectorau llif plasma a fesurwyd gan system radar SuperDARN am a) 1716UT, b) 1740UT a c) 1802UT ar 14 Tachwedd 2002. Mae pegwn


magnetig y gogledd yng nghanol pob cylch, amser lleol magnetig ar y cylchedd gyda hanner dydd ar y top, a lledred magnetig rhwng 60°MLAT a 90°MLAT ar hyd y radiws. Dangosir llwybr pàs lloeren 1720UT wedi ei fapio i uchder o 350km ar y panel cyntaf, a llwybr pàs lloeren 1802UT ar y trydydd panel. Mae'r llinell binc yn y panel cyntaf yn dangos amrediad lledred y crynodiad electron uchel yn Ffigwr 5, a gwelir ei dafluniad drwy amser yn y paneli sy'n dilyn. Nodir mewn glas ar lwybr y pàs yn y trydydd panel leoliad y strwythur plasma ar ledredau is yn Ffigwr 7 sydd yn y llif dychwelyd.

Amcangyfrifwyd cryfder a chyfeiriad y maes trydan ar bwyntiau ar hyd y llinell binc yn y panel cyntaf, a thafluniwyd lleoliad y strwythur ymlaen drwy ddau funud gan dybio ei fod yn symud ar gyflymder  $(E \times B) / |B|^2$  (Hargreaves, 1992). Ail-adroddwyd y broses dros gyfnodau o ddau funud gan ddefnyddio'r patrwm llif cyfatebol tan 1802UT. Dengys y gromlin binc yn y panel canol leoliad y strwythur hanner ffordd drwy'r cyfnod amser, a'r gromlin yn y trydydd panel ei leoliad terfynol am 1802UT. Gwelir yn y panel olaf fod ochr ddeheuol y strwythur gwreiddiol yn y llif sy'n dychwelyd tuag at gyfeiriad yr Haul yng nghell y prynhawn, tra bod ei ben gogleddol yn ymestyn tua chell y wawr. Awgryma'r tafluniad y byddai'r strwythur yn cael ei ymestyn mewn hydred yn ystod y 46 munud rhwng 1716UT a 1802UT, gan orwedd ar ddiwedd y cyfnod yn y llif dychwelyd ar ledredau is.

### 3.1.3 Delwedd tomograffi 1802UT

Dangosir delwedd tomograffi ar gyfer pàs lloeren a groesodd ledred 75°Gog am 1802UT wrth deithio tua'r de yn Ffigwr 7. O ddiddordeb arbennig yw'r cynnydd crynodiad rhwng 68°MLAT a 70°MLAT a ddiffinnir gan amlin  $3 \times 10^{11} \text{m}^{-3}$ . Dangosir ei groestoriad lledred gan y llinell las dywyll. Mae llwybr y pàs lloeren wedi ei fapio i uchder o 350 km ar y patrwm potensial trydan yn nhrydydd panel Ffigwr 6. Mae'r rhan las tywyll bychan ar y llinell lwyd yn cyfateb i'r croestoriad drwy'r cynnydd crynodiad. Gwelir fod y cynnydd crynodiad yn y llif sy'n dychwelyd tua'r dydd a'i fod wedi ei gydleoli'n agos â'r tafluniad pinc.

### Delwedd Tomograffi: 14 Tachwedd 2002 18:02 UT




**Ffigwr 7:** Delwedd tomograffi ar gyfer pàs lloeren a groesodd ledred 75°Gog am 1802UT wrth deithio tua'r de ar 14 Tachwedd 2002. Dengys y llinell las lorweddol (68°-70°MLAT) amrediad lledred y cynnydd crynodiad electron yn y llif dychwelyd. (MLAT: lledred magnetig, MLON: hydred magnetig, MLT: amser lleol magnetig)

Mae'r ddelwedd tomograffi yn Ffigwr 7, felly, yn cefnogi'r dehongliad fod y crynodiad uchel a welwyd yn y llif dros y pegwn wedi ei ad-strwythuro fel bod ei ochr ddeheuol yn cael ei thynnu yn y llif dychwelyd ym min nos. Mae'n debygol fod pen gogleddol y cynnydd pegynol wedi cael ei dynnu yn llif dychwelyd cell y wawr, ond yn anffodus nid oedd pàs lloeren a delwedd tomograffi ar gael i gadarnhau hyn.

### 3.2 Wedi canol nos: 12-13 Rhagfyr 2001

#### 3.2.1 Patrwm y llif plasma 0006-0008UT

Mae'r ail enghraifft hefyd o gyfnod pan oedd y llif plasma yn gyson ar draws pegwn y gogledd o ochr y dydd i'r nos. Dangosir yn Ffigwr 8 y potensial trydan a fectorau cyflymder llif a fesurwyd gan SuperDARN am 0006-0008UT ar 13 Rhagfyr 2001. Mae'r patrwm dwy gell a welir yma yn gynrychioliadol o'r mesuriadau drwy gydol y cyfnod o ddiddordeb rhwng 2305UT ar 12 Rhagfyr a 0243UT ar 13 Rhagfyr.




**Ffigwr 8:** Patrwm potensial trydan a fectorau llif plasma a fesurwyd gan system radar SuperDARN am 0006UT ar 13 Rhagfyr 2001. Mae pegwn magnetig y gogledd yng nghanol y cylch, amser lleol magnetig ar y cylchedd gyda hanner dydd ar y top, a lledred magnetig rhwng 60°MLAT a 90°MLAT ar hyd y radiws.

#### 3.2.2 Delwedd tomograffi 0007UT

Dangosir y ddelwedd tomograffi ar gyfer pàs lloeren a groesodd ledred 75°Gog am 0007UT yn Ffigwr 9. Gwelir yma, unwaith eto, fod ionosffer y nos yn llawn strwythur. O brif


ddiddordeb yw'r cynnydd crynodiad yn rhan ddeheuol y ffigwr gyda chrynodiad electron o fwy na  $7 \times 10^{11} \text{m}^{-3}$  rhwng  $62^\circ \text{MLAT}$  a  $70.5^\circ \text{MLAT}$ . Gan fod y strwythur yma yn y nos, nid yw wedi cael ei greu'n uniongyrchol gan belydriad yr Haul yn safle'r arsylwad. I'r gogledd o'r cynnydd a hefyd oddi isod iddo ceir casgliad o strwythurau sy'n llai o faint, yn is mewn uchder ac yn llai o ran crynodiad. Mae'r rhain yn fwy cydnaws ag ìoneiddiad sydd wedi ei greu gan ronynnau egnïol yn cael eu cyflymu i mewn i'r atmosffer.



**Ffigwr 9:** Delwedd tomograffi ar gyfer pàs lloeren a groesodd lledred  $75^\circ$  Gog am 0007UT ar 13 Rhagfyr 2001. (MLAT: lledred magnetig, MLT: amser lleol magnetig)

### 3.2.3 Cymharu delweddau tomograffi â'r llif plasma

Gwelwyd y cynnydd crynodiad electron mawr a ddangoswyd yn Ffigwr 9 mewn pum delwedd tomograffi dilynol rhwng 2305UT ar 12 Rhagfyr a 0243UT ar 13 Rhagfyr, tri ohonynt wedi eu monitro gan y gadwyn tomograffi yn Llychlyn a'r ddau arall wedi'u monitro gan gadwyn tomograffi ym Mhrydain. Dangosir llwybrau'r lloerennau wedi'u mapio ar y patrwm llif yn Ffigwr 10, a nodir ar bob un leoliad crynodiad mocsimwm y cynnydd. Awgrymir fod y cynnydd wedi ei leoli yn y llif a ddaeth dros y pegwn ac sy'n dychwelyd tuag at y dydd, ar ochr y wawr yn bennaf yn yr achos yma. Mae maint y crynodiad mocsimwm yn gostwng tua'r wawr wrth i'r ìonau positif a'r electronau gyfuno gyda threigl amser. Roedd y cynnydd crynodiad ar uchder o  $\sim 350\text{km}$ - $400\text{km}$  hefyd yn glir yn y mesuriadau a wnaed gan radar UHF EISCAT yn Tromsø, Gogledd Norwy (Middleton et al., 2005).




**Ffigwr 10:** Delweddau tomograffi rhwng 2305UT ar 12 Rhagfyr 2001 a 0243UT ar 13 Rhagfyr 2001. Dangosir lleoliad y crynodiad macsimwm ym mhob achos ar batrwm y potensial trydan (llef plasma) a fesurwyd gan system radar SuperDARN. Dangosir hefyd lleoliad y crynodiad macsimwm ar ddwy ddelwedd tomograffi arall a fesurwyd yn ystod y cyfnod. (MLAT: lledred magnetig, MLT: amser lleol magnetig)

#### 4. Trafodaeth

Mae dwy enghraifft o gynnydd sylweddol yn y crynodiad electron ar ochr y nos wedi'u cyflwyno. Yn yr achosion hyn nid oedd pelydriad yr Haul wedi creu'r strwythurau'n uniongyrchol yn safleoedd yr arsylwadau. Roedd uchder y plasma (~350km-400km) yn awgrymu fod gan yr ïoneiddiad oes hir o sawl awr. Byddai hyn yn caniatáu i'r strwythur gael ei greu ar ochr y dydd cyn amser yr arsylwadau, ac yna i lifo i ochr y nos. Ar uchderau is, lle mae amlder gwrthdrawiadau rhwng gronynnau yr atmosffer yn fwy, byddai'r ïoneiddiad wedi'i ddinistrio. Nid oedd gronynnau egniol yn cyfrannu'n sylweddol at y strwythurau mawr o ddiddordeb, a chefnogwyd hyn gan fesuriadau system radar EISCAT (Pryse et al., 2006; Middleton et al., 2005). Awgryma'r mesuriadau

llif a chrynodiad fod yr ïoneiddiad wedi llifo drwy ranbarth y pegwn a chael ei dynnu i sector y nos lle y cafodd ei adffurfio a'i ymestyn yn y llif dychwelyd ar ledredau is, naill ai yn y gell ar ochr y prynhawn neu yn y gell ar ochr y wawr.

Elfen bwysig i'w hystyried yw'r hyn sy'n digwydd i'r cynnydd ïoneiddiad wedi iddo lifo i sector y nos. Mae hyn o ddiddordeb i ddefnyddwyr systemau cyfathrebu, gan y gall ymylon serth y strwythurau a ffurfir fod yn andwyol i ledaeniad tonnau radio. Modelwyd trawsgludiad yr ïoneiddiad gan fodel CTIP (Coupled Thermosphere Ionosphere Plasmasphere) Prifysgol Sheffield. Gwelir allbwn ar gyfer 12-13 Rhagfyr 2001 yn Ffigwr 11 ar ysbeidiau o dair awr amser cyffredinol (Universal Time, UT). Mae'r cyfnod hyn yn cyd-fynd ag amser y delweddau tomograffi yn Ffigwr 10. Ym mhob panel edrychir i lawr ar begwn y gogledd magnetig, sydd yng nghanol y cylch. Dengys y cylchoedd ledredau magnetig yn ymestyn o 50°MLAT ar y tu allan i 90°MLAT yn y canol. Mae amser lleol magnetig ar bob cylchedd gyda chanol dydd ar y top, canol nos ar y gwaelod, min nos ar y chwith a'r wawr ar y dde. Mae Cymru ar ledred ger 50°MLAT, ac ar ochr y dydd tua 12UT a'r nos tua 00UT. Dengys y cylch bychan gwyn leoliad y pegwn geograffig. Mae'r llinell wen sy'n ymestyn i'r de o'r cylch yn dangos lleoliad hydred 18°Dw, yn agos i'r gadwyn tomograffi yn Llychlyn. O ddiddordeb arbennig yw'r amliniau sy'n dangos crynodiad yr electronau. Ym mhob panel gwelir y crynodiad mwyaf ar ochr y dydd lle mae pelydriad yr Haul yn creu electronau ac ïonau positif. Gwelir yn amlwg yn y paneli rhwng 12UT a 03UT y tafod-ïoneiddiad sy'n cael ei dynnu gan gylchrediad y llif o ochr y dydd tua'r nos ar draws y lledredau pegynol. Mae'r tafod ar ei fwyaf tua 18-21UT pan yw Ewrop ar ochr y nos ac ar ei leiaf tua 06UT-09UT. Rhwng 00UT a 03UT mae'n ymestyn drwy ranbarth y pegwn ac yn cael ei dynnu i ochr y wawr, yn unol â'r arsylwadau.



**Ffigwr 11:** Yr ïonosffer a fodelwyd gan CTIP fel ffwythiant o ledred magnetig (MLAT) ar y radiws ac amser lleol magnetig (MLT) ar y cylchedd. Mae canol dydd ar dop pob cylch a chanol nos ar y gwaelod, gyda min nos ar yr ochr chwith a'r wawr ar y dde. Mae'r raddfa lledred yn ymestyn o 50°MLAT i'r pegwn magnetig yn y canol, ac mae'r paneli ar ysbeidiau dair awr o amser cyffredinol (UT).

Dangosa'r modelu fod y llif plasma ar draws y pegwn yn dibynnu ar amser UT. Y rheswm am hyn yw'r gwahaniaeth lleoliad rhwng y pegwn geograffig a'r pegwn magnetig. Er mwyn egluro, mae'n rhaid cadw mewn cof fod y plasma sy'n cael ei greu gan belydriad yr Haul yn ddibynnol ar y system geograffig, ond llif y plasma yn cael ei reoli yn y system geomagnetig. Felly, pan fo'r pegwn magnetig yn nes at yr Haul na'r pegwn geograffig mae mwy o'r patrwm llif plasma dwy gell yng ngoleuni'r Haul. Digwydd hyn pan fo'r Unol Daleithiau yn sector y dydd, ac mae'r effaith ar ei fwyaf tua 18UT. O ganlyniad bydd mwy o ïoneiddiad a grëwyd gan belydriad yr Haul yn cael ei dynnu tuag at y pegwn nag ar amserau UT eraill. Yn ei dro caiff yr ïoneiddiad ei dynnu dros ledredau pegynol ac i mewn i Ewrop yn sector y nos. Yn gyferbyniol, pan yw Ewrop yn sector y dydd mae'r pegwn geograffig yn nes at yr Haul na'r pegwn magnetig, ac nid oes gymaint o'r patrwm llif yng ngoleuni'r Haul. Yma caiff llai o ïoneiddiad ei ysgubo tua'r pegwn a sector y nos.

Mae tystiolaeth eisoes fod y crynodiad a fesurir ar ochr y dydd, ble mae'r ïoneiddiad yn cael ei dynnu tua'r pegwn, yn llai yn Ewrop nag yn sector yr Unol Daleithiau (Pryse et al., 2004). Dangosodd modelu (Bowline et al., 1996) effaith UT ar safle yr arsylwad gan nodi y disgwyliad i'r ïoneiddiad a dynnwyd dros y pegwn fod yn gymharol uchel yn Ny-Ålesund pan yw yn sector y nos. Mae'r arsylwadau a gyflwynir yn y papur hwn yn cadarnhau fod lefelau crynodiad uchel i'w cael yn Ewrop yn ystod oriau'r nos. Byddai archwiliadau tebyg mewn sectorau hydred eraill yn fuddiol er cymhariaeth. Gwnaed archwiliad cynnar i gymharu effaith hydred drwy ddefnyddio mesuriadau cyfyngedig gan systemau radar gan de la Beaujardière et al. (1985), ond mae cyfle yn awr i ehangu ar hyn drwy ddefnyddio cadwyni tomograffi yr IITC (International Ionospheric Tomography Community). Mae gan y gymuned tomograffi ryngwladol dderbynyddion yn Alaska, yr Ynys Werdd, Norwy, Ffindir a Rwsia, sy'n gwneud mesuriadau o'r ionosffer yn rheolaidd. Egyr hyn y posibilid o gymharu strwythurau crynodiad mewn sectorau hydred gwahanol.

Ystyriwyd dwy enghraifft, lle roedd llif y plasma drwy ranbarth y pegwn o'r dydd i'r nos. Mae angen ymestyn yr archwiliadau i ystyried patrymau llif eraill, a dibyniaeth strwythur y plasma ar y rhyngweithio rhwng y maes magnetig rhyngblanedol a maes magnetig y Ddaear. Yn y modd hwn gellir defnyddio arsylwadau o ad-strwythuro ïoneiddiad yn sector y nos i ddeall effaith y prosesau sy'n cyplysu'n hamgylchfyd â'r gofod.

## 5. Casgliad

Cyflwynwyd arsylwadau tomograffi radio a SuperDARN sy'n dangos fod strwythurau mawr o ïoneiddiad yn cael eu cludo o ardal pegwn y gogledd i sector y nos. Mae'n debygol fod y plasma wedi ei greu yng ngoleuni'r dydd gan belydriad yr Haul. Yn yr enghraifft gyntaf gwelwyd plasma yn y llif ar draws y pegwn yn cael ei ad-ffurfio yn sector y nos, ac yn cael ei dynnu'n ôl tua'r dydd yn llif dychwelyd cell min nos. Yn yr ail enghraifft roedd y plasma'n dychwelyd tua'r dydd yn bennaf yn llif cell y wawr. Cefnogwyd y dehongliad gan allbwn model CTIP a ddangosodd yr ïoneiddiad yn cael ei dynnu mewn tafod ar draws y pegwn pan yw Ewrop ar ochr y nos. Awgryma'r model na fyddai arsylwadau yn ystod y nos yn yr Unol Daleithiau yn debygol o weld crynodiad mor uchel ag a welir yn Ewrop. Mae'r maes o ddi-ddordeb i ddeall natur y prosesau sy'n cyplysu'r Ddaear â'r gofod, a hefyd i ddefnyddwyr systemau radio ymarferol.



## Cydnabyddiaeth

Derbyniwyd nawdd gan yr UK Particle Physics and Astronomy Research Council (PPARC) drwy'r grant PPA/G/O/2003/00017. Gwerthfawrogir cymorth Prifysgol Tromsø, Norwy, a'r Norwegian Polar Research Institute gyda'r mesuriadau tomograffi. Ariennir system radar SuperDARN gan raglenni ymchwil cenedlaethol Awstralia, Canada, Ffindir, Ffrainc, DU, Japan, De'r Affrig, Sweden ac UDA. Cydnabyddir cymorth yr Athro Mark Lester, Prifysgol Caerlŷr, gyda data SuperDARN a gyflwynir yma. Mae AGW yn fyfyrwr ymchwil sy'n cael ei gynnal gan grant PPARC.

## Llyfryddiaeth

Anderson, D.N., Buchau, J., a Heelis, R.A., (1988), 'Origin of density enhancements in the winter polar cap ionosphere', *Radio Science*, 23, 515–19.

Bowline, M.D., Sojka, J.J., a Schunk, R.W., (1996), 'Relationship of theoretical patch climatology to polar cap patch observations', *Radio Science*, 31, 635–44.

Buchau, J., Weber, E.J., Anderson, D.N., Carlson, Jr., H.C., Moore, J.G., Reinisch, B.W., a Livingston, R.C., (1985), 'Ionospheric structures in the polar cap: their origin in relation to 250-MHz scintillation', *Radio Science*, 20, 325–38.

Cowley, S.W.H., Morelli, J.P. a Lockwood, M., (1991), 'Dependence of convective flows and particle precipitation in the high-latitude dayside ionosphere on the X and Y components of the interplanetary magnetic field', *Journal of Geophysical Research*, 96, 5557–64.

Crowley, G., (1996), 'Critical review of ionospheric patches and blobs', Stone, W. R. (gol.), *URSI Review of Radio Science 1993–96*, 619–48.

de la Beaujardière, O., Wickwar, V.B., Caudal, G., Holt, J.M., Craven, J.D., Frank, L.A., Brace, L.H., Evans, D.S., Winningham, J.D., a Heelis, R.A., (1985), 'Universal time dependence of night-time F region densities at high latitudes', *Journal of Geophysical Research*, 90, 4319–32.

Greenwald, R.A., Baker, K.B., Dudeney, J.R., Pinnock, M., Jones, T.B., Thomas, E.C., Villain, J-P., Cerisier, J-C., Senior, C., Hanuise, C., Hunsucker, R.D., Sofko, G., Koehler, J., Nielsen, E., Pellinen, R., Walker, A.D.M., Sato, N., ac Yamagishi, H., (1995), 'Darn/Superdarn: A global view of the dynamics of high-latitude convection', *Space Science Review*, 71, 761–96.

Hargreaves, J.K., (1992), 'The solar-terrestrial environment', Cambridge atmospheric and Space Science Series (Cambridge, Cambridge University Press).

McEwen, D.J., a Harris, D.P., (1996), 'Occurrence patterns of F layer patches over the north magnetic pole', *Radio Science*, 31, 619–28.

Middleton, H.R., Pryse, S.E., Dewis, K.L., Wood, A.G., a Balthazor, R., (2005), 'Signatures of space weather processes in the northern polar ionosphere: Radio Tomography and the

CTIP model', 2nd European Space Weather Week, ESWW-II, ESA-ESTEC, Noordwijk, The Netherlands, Tachwedd 2005 (poster).

Pryse, S.E., Wood, A.W., Middleton, H.R., McCrea, I.W., a Lester, M., (2006), 'Reconfiguration of polar-cap plasma in the magnetic midnight sector', *Annales Geophysicae*, 24, 2201–08.

Pryse, S.E., Sims, R.W., Moen, J., Kersley, L., Lorentzen, D., a Denig, W.F., (2004), 'Evidence for solar-production as a source of polar-cap plasma', *Annales. Geophysicae*, 22, 1093–102.

Pryse, S.E., (2003), 'Radio tomography: A new experimental technique', *Surveys in Geophysics*, 24, 1–38.

Robinson, R.M., Tsunoda, R.T., a Vickrey, J.F., (1985), 'Sources of F-region ionisation enhancements in the nighttime auroral zone', *Journal of Geophysical Research*, 90, 7533–46.

Rodger, A.S., Pinnock, M., Dudeney, J.R., Baker, K.B., a Greenwald, R.A., (1994), 'A new mechanism for polar patch formation', *Journal of Geophysical Research*, 99, 6425–36.

Ruohoniemi, J.M., a Baker, K.B., (1998), 'Large-scale imaging of high-latitude convection with Super Dual Auroral radar Network HF radar observations', *Journal of Geophysical Research*, 103, 20797–806.

Sims, R.W., Pryse, S.E., a Denig, W.F., (2005), 'Spatial structure of summertime ionospheric plasma near magnetic noon', *Annales Geophysicae*, 23, 25–37.

Sojka, J.J., Bowline, M.D., Schunk, R.W., Decker, D.T., Valladares, C.E., Sheehan, R., Anderson, D.N., a Heelis, R.A., (1993), 'Modelling polar-cap F-region patches using time-varying convection', *Geophysical Research Letters*, 20, 1783–6.

Valladares, C.E., Basu, S., Buchau, J., a Friis-Christensen, E., (1994), 'Experimental evidence for the formation and entry of patches into the polar cap', *Radio Science*, 29, 167–94.

Weber, E.J., Buchau, J., Moore, J.G., Sharber, J.R., Livingston, R.C., Winningham, J.D., a Reinisch, B.W., (1984), 'F-layer ionization patches in the polar cap', *Journal of Geophysical Research*, 89, 1683–94.

*Wyn Thomas*

**Annie Ellis 'Cwrt Mawr',  
Canorion Aberystwyth  
a chanu traddodiadol Cymru**

---

**GWERDDON**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 2, Hydref 2007 • ISSN 1741-4261

# Annie Ellis 'Cwrt Mawr', Canorion Aberystwyth a chanu traddodiadol Cymru

*Wyn Thomas*

Mynegodd Cymru ddiddordeb neilltuol ym mhriodas Tom Ellis,<sup>1</sup> Aelod Seneddol Meirionnydd ac Annie Davies,<sup>2</sup> Cwrt Mawr, Llangeitho, ar ddiwrnod cyntaf Mehefin 1898. Yng nghapel y Tabernacl, Aberystwyth, y cynhaliwyd y gwasanaeth a thra chwifiai baneri i ddathlu pwysigrwydd yr achlysur o dŵr y castell a'r coleg gerllaw, canai côr o gantorion dethol dan arweiniad y cerddor David Jenkins gadwyn o alawon Cymreig, gan gynnwys 'Y Deryn Pur' a 'Clychau Aberdyfi'<sup>3</sup> i ddiddanu'r gynulleidfa ddisgwyllgar. Yn ystod y gwasanaeth, clywyd yr emyn-dôn 'Penlan'<sup>4</sup> am y tro cyntaf ac, yn ôl traddodiad, wrth i'r briodferch gamu'n nerfus drwy ddrws yr addoldy y bore hwnnw, safodd Tom Ellis ar ei draed wrth glywed y geiriau:

Pan y'i gwelais, syth mi sefais,  
Yn fy nghalon mi feddyliais,  
Wele'r ddynes, lana'r deyrnas  
A'i gwên yn harddu'r oll o'i chwmpas.<sup>5</sup>

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, canodd 'Eos Dâr'<sup>6</sup> eitemau o ganu penillion fel rhan o ddathliadau'r neithior yn y Pier Pavilion a'i berfformiad yn fynegiant o'i barch a'i edmygedd o'r gwleidydd a'i briod newydd. Ym mhriodas John Herbert Lewis, Aelod Seneddol Rhyddfrydol Sir Fflint, a Ruth Caine<sup>7</sup> ddeng mis ynghynt y cafodd Tom Ellis y syniad o ddwyn agweddau ar ganu brodorol ei gydgenedl i mewn i ddiwyddiadau'r dydd. Fel un o feibion y werin, bu ei yrfa gyhoeddus hyd at y cyfnod hwnnw yn ymdrech i bwysleisio a hyrwyddo buddiannau Cymru – ei haddysg, ei llenyddiaeth, ei hiaith a'i cherddoriaeth. Drwy gyfrwng ei unplygrwydd a'i weithgarwch a'i gyfathrach â'i gyd-

<sup>1</sup> Tom Edward Ellis, 1859–99.

<sup>2</sup> Annie Jane Davies, 1873-1942 – seithfed plentyn teulu Cwrt Mawr, Llangeitho.

<sup>3</sup> Mewn llythyr at David Jenkins dyddiedig 25 Ebrill, 1898, rhydd Tom Ellis resymau dros ei ddewis o alawon – 'I should on many grounds like to have 'Clychau Aberdyfi' for

1. it is a love-lyric
2. it tinkles like marriage-bells
3. it has a flavour and reminiscences of Meirioneth'.

Gw. T. I. Ellis: *Thomas Edward Ellis – Cofiant*, Cyf. II (Lerpwl, 1948), 43.

<sup>4</sup> Emyn-dôn o waith David Jenkins (1848–1915) a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y briodas. Gw, John Hughes (gol.), *Y Llawlyfr Moliant Newydd* (Abertawe, 1956), 135.

<sup>5</sup> Gw. Mari Ellis (gol.), *Y Golau Gwan – Llythrau Tom Ellis at Annie Davies* (Caernarfon, 1999), 186.

<sup>6</sup> Canodd Daniel Evans ('Eos Dâr') gyfres o benillion a oedd yn gorffen gyda'r cwpled: 'Mae Cymru gyfan yn bloeddio'n awr/ Byw byth fyddo Cynlas a Chwrt Mawr.'

<sup>7</sup> Y Fonesig Ruth Herbert Lewis, yn ddiweddarach, un o gasglyddion mwyaf gweithgar ac aelod blaenllaw o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

aelodau yn Nhŷ'r Cyffredin, yn Albanwyr, yn Saeson ac yn Wyddelod, llwyddodd i achub pob cyfle i ddwyn sylw i arwahanrwydd y genedl Gymreig ac nid eithriad ychwaith oedd dydd ei briodas, a hynny ym mhresenoldeb y fath dyrfa o foneddigion dylanwadol a ddaeth ynghyd o bob cwr o'r wlad i dalu gwrogaeth i'r pâr ifanc. Breuddwyd fawr Tom Ellis oedd gweld ymreolaeth lwyr yng Nghymru – senedd, a sicrwydd hunanlywodraeth a fyddai'n fodd o ddyrchafu statws y genedl.

Yn ogystal, yr oedd yn dyheu am weld Cymru newydd. Ers cyfnod sefydlu Mudiad Cymru Fydd yn 1886, yr oedd wedi dadlau'n frwd fod gwahanol agweddau ar weithgarwch Rhyddfrydiaeth yng Nghymru, megis cadwraeth yr iaith Gymraeg a chydabyddiaeth swyddogol iddi, cyfoeth y traddodiad llenyddol a'r angen i'w feithrin a holl ddylanwad y bywyd cerddorol Gymreig, yn deilwng o gael eu diogelu a'u defnyddio er budd Cymru benbaladr, yn fonedd a gwreng yn ddiwahân.<sup>8</sup> Fel yr ategodd yn un o'i areithiau:

There is finer ore for the making of Welsh national wealth in its peasant and cottage homes even than in its rocks and hills. And if it is a fitting social aim to repay the services of the past by devotion to the services of the present and future, then shall we be wise and dutiful in patiently planning and strenuously endeavouring to brighten and enrich the life of Wales whence from age to age have arisen the leaders of the causes we love and the discoverers of the light by which we live.<sup>9</sup>

Roedd Annie Davies, fferm Cwrt Mawr, Llangeitho, yn gymeriad o'r un anian. Hanci o linach Fethodistaidd David Charles (Caerfyrddin) ar ochr ei thad ac o linach y Parch. Peter Williams, y diwinydd a'r esboniwr, ar ochr ei mam.<sup>10</sup> Yn dilyn cyfnod yn ysgol Llangeitho, addysgwyd hi mewn ysgolion preifat yn Aberystwyth, Llundain a Chaer cyn dychwelyd yn 1892 yn fyfyrwraig i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yno bu'n astudio Hanes, Saesneg, Gymraeg, Ffrangeg a Mathemateg ond nid hyd at safon gradd. Roedd yn un o saith o blant ac, o bryd i'w gilydd, danfonid hi a'i chwaer Sarah<sup>11</sup> i gadw tŷ i'w brodyr, John a Walter, yn 59 Chancery Lane, Llundain – y naill yn fyfyrwr y gyfraith a'r llall yn fyfyrwr meddygol. Yn ystod yr ymweliadau achlysurol hyn â'r brifddinas y cafodd Annie 'Cwrt Mawr' flas ar fywyd cymdeithasol lliwgar Cymry-Llundain. Ymgartrefodd yng nghapel Charing Cross a chroesawyd hi'n wresog i gartref y bargyfreithiwr W. Llywelyn Williams a'i wraig, a oedd yn gyrchfan boblogaidd i Gymry'r brifddinas yr adeg honno.

<sup>8</sup> Ymunodd T. E. Ellis hefyd â Chymdeithas y Brythonwys yn 1886, sef cymdeithas o Gymry-Llundain a deimlai'r awydd i drafod pynciau llenyddol, cerddorol a chymdeithasol. Trefnai'r gymdeithas gyngerdd blynyddol ar adeg Gŵyl Ddewi ac roedd y gantores Mary Davies ('Mair Mynorydd') yn un a ymddangosai'n gyson ar yr achlysuron hynny.

<sup>9</sup> T. E. Ellis, 'Social Life in Rural Wales', *Speeches and Addresses*, (Wrexham, 1912), 139.

<sup>10</sup> Mari Ellis, 'T. E. Ellis a Cheredigion', *Ceredigion*, Cyf. XIV, Rhifyn 2 (2002), 24–37.

<sup>11</sup> Sarah Maria Davies (g. 1864), merch hynaf teulu Cwrt Mawr, Llangeitho. Er iddi ddyuno bod yn genhades, yn 1887 priododd y Parch. John Maurice Saunders a fu'n weinidog yn yr Unol Daleithiau ac yn Seland Newydd am gyfnod. Yn ystod ei mordeithiau, ysgrifennodd storïau byrion ar gyfer *Y Drysorfa*, *Yr Ymwelydd Misol* a *Young Wales*. Sicrhaodd gryn enwogrwydd fel awdures ac areithydd cyhoeddus. Gweler Mari Ellis, 'Sarah Maria Saunders y Ddynes Newydd', *Y Casglwr*, 74 (2002), 3–8.

Yno cynhelid ffug-eisteddfodau, cyngherddau, ymrysonau a thrafodaethau achlysurol ac o ganlyniad fe'i llysenwyd 'Y Wladfa' gan y sawl a âi yno. Dyma'r adeg yr oedd Mary Davies ('Mair Mynorydd') yn ei hanterth fel cantores, ond ni fu ei hymrwymadau proffesiynol ar lwyfannau'r 'music halls' hyd yn oed yn rhwystr iddi ddwyn myfyrwyr ac ymwelwyr ifanc o Gymru, gan gynnwys rhai fel Annie Davies, dan ei hadain a darparu cyfleoedd iddynt ymddangos ym mywyd cyhoeddus y brifddinas. Pryd hynny y tyfodd cyfeillgarwch mynwesol Annie a hi ac er bod merch y 'Cwrt Mawr' yn rhyw lun ar delynores, ac yn ôl trefn a ffasiwn yr oes, yn canu'r piano, ni ddisgwyliid iddi ddilyn gyrfa mewn unrhyw faes er gwaethaf ei chymhwyster a'i phriodoldeb i wneud hynny. Yn hytrach, cyfrifoldeb Annie Ellis yn y man oedd cefnogi ei gŵr ac ymddiddori yn yr un gweithgarwch cymdeithasol a diwylliannol y bu ef mor bleidiol trostynt, gan ddilyn yr un egwyddorion Rhyddfrydol ag a goleddai yntau.



**Llun 1:** Annie Davies, Cwrt Mawr, Llangeitho (c.1896)

Cyn canol mis Ebrill 1899, fodd bynnag, roedd Tom Ellis yn ei fedd a gorfodwyd i'w weddw ddygymod â bywyd ar ei phen ei hun unwaith yn rhagor.<sup>12</sup> Dychwelodd o 9 Cowley Street, Llundain, i fyw yn Aberystwyth<sup>13</sup> a chan ddilyn esiampyl Mary Davies, fe ymdrechodd i groesawu myfyrwyr Cymraeg y coleg i'w chartref yn 6 Maes Lowri a'u cefnogi yn eu gweithgaredd amrywiol. Yn dilyn perswâd ei chyfeilles, 'Mair Mynorydd', fe ymaelododd Annie Ellis â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym mis Medi 1908.<sup>14</sup> Erbyn hynny, roedd y Pwyllgor Gwaith wedi'i sefydlu ac ymdrechion arloesol aelodau Cymdeithas 'Y Canorion' yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ynghyd â momentwm y casglu cynnar yn graddol gynyddu. Yn ogystal, mae'n rhaid bod dylanwad uniongyrchol ei brawd, John Humphrey Davies,<sup>15</sup> a'i ddi-ddordeb ysol ef ym myd casglu hen lawysgrifau, hanes llenyddiaeth Gymraeg a thraddodiad y baledi wedi ei chyfeirio i'r maes. Ers blynyddoedd, pwysleisiai John bwysigrwydd astudio hanes Cymru a gwerth diogelu'r trysorau Cymreig ar wasgar ymhlith ei gyd-genedl. Cyfeiriwyd ato gan J. Glyn Davies fel prif hynafiaethydd Sir Geredigion a 'chwilotwr mileinig am hen lyfrau',<sup>16</sup> a'i gasgliad helaeth ef a Syr John Williams o gyfrolau a llawysgrifau a ddaeth yn y man yn sail i sefydlu Llyfrgell Genedlaethol i Gymru. Ymddiddorai J. H. Davies mewn hen rigymau llafar gwlad, carolau, halsingod, arferion gwŷr hysbys, dyddiaduron a barddoniaeth y Trioedd, ac yn rhinwedd ei swydd fel Cofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, rhwng 1905 a 1919 ymdrechodd i uno'r Coleg â bywyd y werin o'i gwmpas. Er nad oedd ganddo ddoniau cerddorol amlwg,<sup>17</sup> yn ôl tystiolaeth ei lawysgrifau ymddengys iddo gofnodi geiriau rhai caneuon traddodiadol o Sir Aberteifi, gan gynnwys y faled Saesneg ganlynol:

<sup>12</sup> Ganwyd mab Annie Ellis, Thomas Iorwerth Ellis, yn 1899, yn ystod ei chyfnod yn Llundain yn dilyn marwolaeth ei gŵr y flwyddyn honno.

<sup>13</sup> Bu'n byw am gyfnod yn 'Llwyn', Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, ond oherwydd yr angladdau niferus a âi heibio i'w chartref i gyfeiriad mynwent y dref, symudodd i rif 6 Maes Lowri (Laura Place), nepell o'r coleg a bu'n byw yno hyd at 1913.

<sup>14</sup> Llsg. LIGC. Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Gohebiaeth B1 (1905–1939). Llythyr dyddiedig 24.09.1908 oddi wrth Mary Davies at L. D. Jones ('Llew Tegid'), Bangor.

<sup>15</sup> John Humphrey Davies, 1871–1926, trydydd mab Robert J. a Frances Davies, Cwrt Mawr, Llangeitho, ac un o ysgolheigion amlycaf ei gyfnod. Yn ystod ei yrfa, bu'n gyfrifol am ddwyn llenyddiaeth Gymraeg o safon i olau dydd, gan gynnwys Llythyrau Morisiaid Môn a rhai o weithiau Morgan Llwyd. Penodwyd ef yn Gofrestrydd Coleg y Brifysgol, Aberystwyth ym 1905 ac yn 1919 yn Brifathro. Cyhoeddwyd ei gyfrol *A Bibliography of Welsh Ballads* yn 1911 a bu'n ohebydd cyson ar dudalennau *Cymru Coch*, O. M. Edwards. Fel hyn y canodd Bedwyr iddo –

'Wele wyneb annwyl inni – a gŵr  
Garodd wlad ei eni,  
Carodd wres ei hanes hi,  
A chwaddodd gyda'i cherddi.'

<sup>16</sup> Llsg. LIGC. Casgliad John Humphrey Davies. Llythyr oddi wrth J. Glyn Davies dyddiedig 3.2.1896.

<sup>17</sup> Daeth John Humphrey Davies yn aelod o Gyngor Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1909 a chynorthwyai'r gwaith drwy roi sylwadau ar farddoniaeth a mydr y caneuon gwerin a gyhoeddi yn *Cylchgrawn* y Gymdeithas. Cyfeiriai'r darllenwyr at ffynonellau'r geiriau ac ychwanegai benillion o gasgliadau llawysgrifol a oedd yn ei feddiant. Dyma a ddywed J. Lloyd Williams amdano yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*: 'Principal Davies knew little about music but he was the highest authority in Wales on its ballad literature and his exhaustive knowledge was always at the command of the Society.'

*I was go to Llandysul*

I live in Llandysul in Shir Aberteifi  
A letter inform me my uncle was dead,  
To ask me in minute to go up to Llundain  
For big lot of money was left me, 'twas said  
So I was determined to go on my siwrne  
And booking my ticket, first class was I fain  
If I was go third class I was never engounter  
Y weddw fach lân, I was see in the train.

The widw and me side by side set together  
In the carridge was no one but us and no more  
Distawrwydd was broke by my preety companion  
Who ask me the time by the watch I was wore.  
Wrth gwrs, I tell her and then conversation  
Was speaking between us indeed till my brain  
Was go on the bendro, rown i bron mynd yn wallgo  
Gyda'r widw fach lân, I was see in the train.

She was so taliedd I venture to ask her  
How old was the child she was have to her breast  
Ah! Sir she did say and she did llefain shocking  
And the plentyn she carried to her bosom she pressed  
When you speak of my child, I'm quite broken hearted  
His father my husband, oh my heart breaks with pain  
And what she was do lean her head on my wasgot  
Did widw fach lân, I was see in the train.

By the time the train it was cum to the stashiun  
A cwpwl of miles from the big one in town  
When the widw was say as she look thro' the window  
"Good gracious alive", why there goes Mr Brown,  
He's my late husband's brother, dear sir, would you kindly  
Take hold of my baby, I'll be back again  
Wrth gwrs, I was say ac allan i'r platform  
Aeth y widw fach lân, I was see in the train.

Three minutes go by, the gard whisl blowing  
The train was a moving, no widw appears  
So I holler out, "Stop, stop" but they pay no 'tenshien  
With a puff and a puff, it was off I was fear  
I was in this condishun indeed for an hour  
My watch, ha! Where was it and where was my chain  
My purse and my ticed, loose change was all gone  
O ddrato'r hen weddw, I was see in the train.



When I find out my colled indeed I was crying  
Then they stopped the train and "tickets" I heard  
So I tell the collector while shigging the baby  
The loss I was lost, but he doubted my word  
So I call the policeman and a lot come about me  
Then they take the babi, How shall I explain!  
For indeed 'twas no babi, 'twas a doll bren a dummy  
The villain old widow, I see in the train.<sup>18</sup>

Yn ogystal â hyn, fe gofnodwyd ganddo fersiwn Gymraeg o'r gân 'Auld Lang S'yne'.

Yr hen amser gynt

Bu'n hoff i mi wrth deithio 'mhell  
Gael croesaw ar fy hynt  
Mil hoffach yw cael henffych well  
Gan un fu'n gyfaill gynt.

Cytgan:

Er mwyn yr amser gynt, fy ffrins  
Yr hen amser gynt,  
Cawn wydraid bach cyn canu'n iach  
Er mwyn yr amser gynt.

Yn chwareu buom lawer tro  
A'n penau yn y gwynt  
A phleser mawr yn cadw co'  
O'r hyfryd amser gynt.

Er digwyddiadau mwy na rhi  
Er gwario lawer punt  
Try pob rhyw goll, ni chollais i  
Y cof o'r amser gynt.<sup>19</sup>

Fel un o gyfeillion a chymwynaswyr Coleg Aberystwyth,<sup>20</sup> anfonid gwahoddiadau cyson at Annie Ellis a'i brawd i fynychu achlysuron Cymreig y myfyrwyr, yn enwedig dathliadau Gŵyl Ddewi ac eisteddfod flynyddol y Gymdeithas Geltaidd. Yn ystod y digwyddiadau

<sup>18</sup> Llsg. LIGC. Llawysgrif Cwrwmawr, 958A – 'Caniadau' (geiriau caneuon gwerin o Sir Geredigion). Ymhlith y casgliad hwn yn llaw John Humphrey Davies ceir geiriau 'I blas Gogerddan', 'Yn lach i ti Gymru', 'Ar hyd y nos', 'Gwenith Gwyn', Codiad yr Hedydd', 'Merch Megan', Llwyn Onn', 'Alawon fy ngwlad', 'Clychau Aberdyfi', 'Cainc y delyn', 'Morwynion glân Meirionydd', 'Yr hen amser gynt' a 'Bugail Aberdyfi'.

<sup>19</sup> Ibid.

<sup>20</sup> Penodwyd Annie Ellis yn aelod o Gyngor Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, yn 1902 a pharhaodd i wasanaethu'r sefydliad yn ffyddlon am gyfnod o ddeugain mlynedd hyd at Hydref 1942.

hyn y clywid alawon a cheinciau traddodiadol yn ogystal â rhai o gyfansoddiadau cyfoes Cymru'r cyfnod (gweithiau gan Joseph Parry, David de Lloyd, David Jenkins a'u tebyg) yn cael eu perfformio gan unawdwyr a phartion o blith rhengoedd y myfyrwyr. Yn y man, daeth enwau Gwen Taylor, Tudor Williams, Lewis Mendus a J. Ifor Rees<sup>21</sup> yn gyfarwydd yn y gymdogaeth, yn bennaf oherwydd eu doniau fel cantorion a dehonglwyr medrus y traddodiad brodorol Cymreig.<sup>22</sup> Ar yr adegau cyhoeddus hyn hefyd gwahoddid rhai fel Jenny Parry ('Telynores Lleifiad'), Reuben Roberts a Lloyd Wyn Roberts (meibion John Roberts, 'Telynor Cymru'), a Robert Williams, 'Eos y Berth' o Lanllechid, i ddarparu eitemau ar y delyn a datganiadau cerdd dant er diddanwch i'r cynulleidfaoedd a ddeuai ynghyd. Ond Annie Ellis yn anad neb arall fu'n ysbrydoliaeth i aelodau'r Gymdeithas Geltaidd yng Ngholeg Aberystwyth i wahodd Mrs Mary Davies i'w hannerch, fel y nodwyd yng nghofnodion y Gymdeithas ar 8 Tachwedd 1909:

Gan fod Mrs Mary Davies, Llundain, yn ymweld â'r dref yma yn mis Ionawr, penderfynwyd yn ôl awgrym Mrs T. E. Ellis ein bod yn gofyn iddi roi darlith i ni ar 'Welsh Folk Songs' ar nos Fercher, Ionawr 12ed, 1910.<sup>23</sup>

Roedd hwn yn benderfyniad arwyddocaol a roes fod i ddatblygiadau allweddol yn hanes Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y canolbarth ac a fu'n sbardun i weithgarwch ymarferol yn y maes ymysg trigolion Aberystwyth a'r cylch. Gwen Taylor, myfyrwraig yn yr Adran Gymraeg, oedd yn gyfrifol am drefnu'r adloniant cerddorol ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus pwysig hwnnw ddechrau Ionawr 1910 a chanwyd enghreifftiau o alawon gwerin Cymru gan Dora Rowlands (Llangollen) a Jennie Williams (Aberystwyth)<sup>24</sup> cyn i Mary Davies ei hun ddwyn y ddarlith i ben drwy ganu dwy alaw draddodiadol syml.<sup>25</sup> Fel hyn yr adroddwyd am yr achlysur yng nghofnodion y Gymdeithas Geltaidd:

Darlithiodd y gantores enwog yn Seisnig (sic) gan nad oedd yn ddigon hyderus ynnddi ei hun i geisio areithio yn iaith y Gymdeithas. Yr oedd y cyfarfod yn hir-ddisgwylledig, ac erbyn wyth o'r gloch, yr oedd Neuadd yr Arholiadau yn orlawn o fyfyrwyr, aelodau, y 'staff' ac ymwelwyr sydd yn enwog yn hanes Cymru, fel Mrs T. E. Ellis.<sup>26</sup>

<sup>21</sup> Myfyrwyr yn yr Adran Gymraeg oedd Gwen Taylor (o Wrecsam) a T. Ifor Rees (graddiodd y ddau yn 1910), tra mai yn yr Adran Ffrangeg yr astudiai Tudor Williams o Aberhonddu (graddiodd yn 1911). Myfyriwr diwinyddol a astudiai yn yr Adran Roeg oedd Lewis Mendus (graddiodd yntau yn 1910).

<sup>22</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2.

<sup>23</sup> Ibid. Y Gymdeithas Geltaidd – cofnodion y cyfarfod ar 8 Tachwedd, 1909.

<sup>24</sup> Gw. Gwenan Gibbard, *Brenhines Powys - Dora Herbert Jones a cherddoriaeth werin Cymru*, (Llanrwst, 2003), a Wyn Thomas, 'Ffarwel i Aberystwyth ...' – Jennie Williams a byd yr alaw werin yng Nghymru', *Cynheiliaid y Gân – Cyfrol deyrnged i Phyllis Kinney a Meredydd Evans* (Caerdydd, 2007), 251–79.

<sup>25</sup> Anhysbys, 'Welsh Folk Songs', *The Dragon*, Cyf. XXXII, Rhif 3 (1910), 146.

<sup>26</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cofnodion 12.01.1910.

Ar gais arbennig golygydd cylchgrawn y myfyrwyr, lluniwyd crynodeb o'r ddarlith hanesyddol hon gan Gwenan Jones, Trysoryddes y Gymdeithas Geltaidd a myfyrwraig yn yr Adran Addysg, a ymddangosodd yn rhifyn Chwefror 1910 o *The Dragon*:

Mrs Davies said that folk-songs were the direct expression of the mind of the people. Music is the most expressive of the arts, and true folk-music is an outcome of the whole man. It is national rather than individual, and is distinct from art music. There are three kinds of folk-music. The first consists of Harp melodies, which are instrumental airs and 'penillion' airs ... The second class, Ballad music, is less Welsh in character and far inferior to the third class, Folk songs. These are often found with the original words, and the old modal scales have been kept. This has caused seeming irregular rhythms and unnatural modulations, which were taken as ignorant errors by 18th century folk critics. But the loss of these would rob the folk-songs of their characteristic qualities which give them their charm.<sup>27</sup>

Ac ar ôl dwyn sylw'r gwrandawyr i gyd-destun cerddoriaeth frodorol y genedl ac at 4rai o brif gasgliadau cerdd y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys cyhoeddiadau John Parry 'Ddall' (Rhiwabon), Edward Jones ('Bardd y Brenin') a Maria Jane Williams (Aberpergwm), cyfeiriodd Mary Davies yn ei hanerchiad at y gwaith arloesol o gywain caneuon gwerin a gyflawnwyd gan gefnogwyr y maes ym Mangor:

Many (folk songs) are still uncollected, and the Folk-Song Society, together with the 'Canorion' of Bangor are doing their best to unearth them.<sup>28</sup>

Roedd cyfraniad y Dr John Lloyd Williams i fyd cerddoriaeth draddodiadol y genedl, ynghyd â gwerth arbennig *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* a ymddangosodd am y tro cyntaf yn 1909, yn hysbys i lawer yn y cylchoedd Cymreig bryd hynny ond Coleg y Gogledd fu'n brif ganolfan i weithgarwch o'r fath ers cyfnod sefydlu'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1906, a nod y mwyafrif o garedigion y maes yr adeg honno oedd ennyn mwy o gefnogaeth mewn ardaloedd eraill ac ymhlith carfanau eraill o Gymry'r dydd.

---

<sup>27</sup> Gwenan Jones, 'Y Gymdeithas Geltaidd: January 12<sup>th</sup>', *The Dragon*, Cyf. XXXII, Rhif 3 (1910), 146.

<sup>28</sup> Ibid.



**Llun 2:** Dr John Williams, Darlithydd ym Motaneg, Prifysgol Cymru Bangor (c.1914)

Llwyddiant ysgubol fu ymweliad Mary Davies ag Aberystwyth y mis Ionawr hwnnw. O ganlyniad i'w darlith ac ymhen dim o dro, penderfynwyd sefydlu cangen o Gymdeithas y Canorion yn y Coleg gyda'r gobaiith y byddai'r bwrlwm a welwyd ym Mangor yn gynharach yn y ganrif yn cydio yn y canolbarth hefyd. Fel y cofnododd Ysgrifennydd y Gymdeithas Geltaidd ar drothwy 1910:

Creodd araeth (sic) ddyddorol ac addysgiadol Mrs Mary Davies FRAM, Llundain, gymaint o ddyddordeb ymhlith y myfyrwyr mewn alawon gwerin nes y teimlwyd fod yr amser wedi dod i sefydlu Cymdeithas o Ganorion yn y Coleg tebyg i'r Gymdeithas sydd eisoes mewn bodolaeth ym Mangor.<sup>29</sup>

<sup>29</sup> Llog. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cofnodion cyfarfod 17 Ionawr 1910.

Rhaid bod yr awydd i sefydlu cangen o Gymdeithas y Canorion yn Aberystwyth yn galonddid aruthrol i arloeswyr y maes bryd hynny ac yn gyfrwng i wireddu breuddwydion J. Lloyd Williams, fel Golygydd y *Cylchgrawn* ac Alfred Perceval Graves, a fu mor hael ei gefnogaeth i'r gwaith yn y Gogledd. Ond er cymaint y brwdfrydedd i sefydlu cymdeithas 'Y Canorion' yn Aberystwyth cafwyd cryn anghytundeb ynghylch statws a swyddogaeth cangen o'r fath ymhlith aelodau'r Gymdeithas Geltaidd yn y Coleg. Penodwyd unigolion i wasanaethu fel aelodau cynorthwyol ar bwyllgor y Gymdeithas Geltaidd, ac yn eu plith Yr Athro Edward Edwards (Llywydd), Yr Athro David Jenkins (Llywydd Mygedol yr Adran Gerddoriaeth), Yr Athro Edward Annwyl (Llywydd Mygedol yr Adran Lenyddol), D. Brynmor Anthony (Is-Lywydd), Gwen Taylor (Trysoryddes), R. R. Jones, Dolgellau (Ysgrifennydd), a Dora Rowlands (aelod o'r pwyllgor).<sup>30</sup> Ond ystyrid Cymdeithas y Canorion yng Ngholeg Aberystwyth fel adain o'r Gymdeithas Geltaidd yn hytrach na chymdeithas annibynnol, a chyfrifoldebau pennaf yr is-bwyllgor hwn oedd cynnal gweithgaredd a pherfformiadau cerddorol fel cyfrwng diddanwch o fewn i'r Coleg ac yn y gymuned y tu hwnt. Er 1899 roedd yr arfer o drefnu Cyfarfod Adloniadol (ynghyd ag eitemau cerddorol), eisteddfod ac Ymgomwest (*soirée*) flynyddol, pryd y deuai telynorion a datgeiniaid canu penillion adnabyddus i'r Coleg i ddiddanu'r myfyrwyr a'u gwesteion, wedi'u hen sefydlu. Sicrhau parhad yr adloniant cerddorol hwnnw oedd dyletswydd pennaf 'Y Canorion' yn Aberystwyth yn y misoedd cynnar hynny ac er i natur a chynnwys y cyngherddau hyn droi yn fwy Cymreig a gwerinol eu naws yn dilyn ymweliad Mary Davies yn 1910, nid oedd casglu na chofnodi alawon gwerin yn y gymdogaeth y tu hwnt i'r Coleg yn flaenoriaeth i'r aelodau ar y dechrau, o'i gymharu â'r hyn a gyflawnwyd gan Gymdeithas 'Y Canorion' ym Mangor rai blynyddoedd ynghynt.<sup>31</sup> O dipyn i beth, fodd bynnag, gwelwyd ôl eu dylanwad a thyfodd eitemau o ganu traddodiadol Cymru yn fwy amlwg a phoblogaidd yng nghyngherddau wythnosol Coleg Aberystwyth. Sefydlwyd triawdau a phedwarawdau ymhlith y myfyrwyr yn bennaf i berfformio trefniannau lleisiol o ganeuon gwerin y genedl, ac er efallai fod rhai casglyddion digon dibrofiad ymhlith aelodau 'Y Canorion' hynny, ni chafwyd yr un cyswllt agos rhwng cywain alawon brodorol a'u perfformio yn seremonïau a chyfarfodydd cyhoeddus Aberystwyth fel ag y cafwyd gan John Morris, R. E. Vaughan Jones, Owen Bryngwyn a'u tebyg yng Ngholeg y Gogledd ym Mangor yn gynharach yn y ganrif. Fodd bynnag, Dora Rowlands (Dora Herbert Jones yn ddiweddarach) oedd cantores amlycaf 'Canorion' Aberystwyth yn y cyfnod rhwng 1910 ac 1913. Hi yn anad neb arall fu'n ymgorffori'r adfywiad canu gwerin a oedd ar droed yng Nghymru'r adeg honno, a'i dehongliadau meistrrolgar hi o alawon fel 'Doli', 'Yr Hen Erddygan' a 'Gwcw Fach' fu'n gyfrwng i ennyn diddordeb ymhlith y myfyrwyr eraill yn y maes.<sup>32</sup> Ei gallu anghyffredin hi fel unawdydd a chantores draddodiadol fu'n fodd hefyd i ddenu sylw

---

<sup>30</sup> Ibid.

<sup>31</sup> John Morris: 'Y Canorion a'r casglu cynnar', *Canu Gwerin*, Rhif 13 (1990), 5–28.

<sup>32</sup> Graddiodd Deborah Jarrett – neu 'Dora' – Rowlands o Langollen yn y Gymraeg yn 1913.

a chefnogaeth gerddorol rhai fel Lewis Knight,<sup>33</sup> Tudor Williams<sup>34</sup> a Gwen Taylor ac, yn y man, y myfyrwyr hyn a ystyrir yn bedwarawd lleisiol swyddogol 'Cymdeithas y Canorion' yn y coleg.<sup>35</sup>

Yn eisteddfod flynyddol y Gymdeithas Geltaidd ym mis Chwefror 1910,<sup>36</sup> gwahoddwyd y cyfansoddwr David Jenkins (Pennaeth yr Adran Gerdd) a Madam Lucie Barbier, athrawes ganu swyddogol y Coleg, i feirniadu'r cystadlaethau cerdd a chyhoeddwyd yn ystod y digwyddiad hwnnw y byddai Mrs Tom Ellis yn cynnig gwobr o £1-1-0 am gasgliad gwreiddiol o alawon Cymreig anghyhoeddedig yn Eisteddfod y Gymdeithas y flwyddyn ddilynol.<sup>37</sup> Roedd hyn yn arwydd pellach o haelioni a chefnogaeth ymarferol Annie Ellis ynghyd â'i dymuniad i weld sefydlu'r arfer o gasglu caneuon brodorol fel rhan naturiol o weithgaredd yr achos yn Aberystwyth, yn unol â nod ac amcanion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn genedlaethol. Roedd cynnal cystadleuaeth o'r fath yn adlewyrchu'r hyn a ddigwyddai yn Eisteddfodau Cenedlaethol y cyfnod hefyd ac yn cynrychioli awydd swyddogion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru i weld casglyddion caneuon traddodiadol ar waith ym mhob cwr o Gymru.<sup>38</sup> O ganlyniad i'w darlith, roedd Mary Davies wedi llwyddo i ddarbwylo nifer o efrydwyr Cymraeg Aberystwyth o werth arbennig y caneuon traddodiadol hyn a'r angen i ddwyn deunydd ynghyd ar fyrder er mwyn sicrhau perfformiadau ohonynt a'u poblogeiddio ymhlith Cymry'r dydd. Cydnabu hefyd mai trwy gyfrwng y traddodiad llafar yn unig y byddai alawon o'r fath yn goroesi, a than arweiniad disyfl Annie Ellis mentrwyd ffurfioli gwaith 'Y Canorion' cynnar yn Aberystwyth, er mwyn cydymffurfio â dyheadau arloeswyr y Gymdeithas Alawon Gwerin yn y Gogledd.

Erbyn canol mis Mawrth 1910, deufis wedi ymweliad Mary Davies â'r dref, roedd yr ysfâ i ddeall mwy am fydd y caneuon gwerin ar gynnydd ymhlith y myfyrwyr a mabwysiadwyd yr arfer o gael nodiadau yn olrhain hanes, cefndir a thras yr alawon brodorol a berfformid yng nghyngherddau cyhoeddus y Gymdeithas Geltaidd – arwydd pellach o ddiddordeb y datgeiniad yn y traddodiad a'u hawydd i ddyrchafu hynodrwydd y grefft ymysg cynulleidfaoedd digon anwybodus y cyfnod. Fel y dengys rhaglen y cyngerdd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 1910:

*Alaw: Cân y Broga: Mr Tom Williams*

Cawsom yr alaw hon oddi wrth Mr Jack Edwards, Great Darkgate Street,  
Aberystwyth yr hwn a glywodd ei chanu gan frodor o Lanon 48 mlynedd

<sup>33</sup> Myfyriwr o Abertawe oedd Lewis Stanley Knight, a raddiodd mewn Hanes yn 1912.

<sup>34</sup> Tenor o ardal Defynnog ger Aberhonddu oedd Tudor Williams.

<sup>35</sup> Gwenan Mair Gibbard, *op.cit.*

<sup>36</sup> Ar 26 Chwefror 1910 y cynhaliwyd yr eisteddfod.

<sup>37</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cofnodion 26 Chwefror 1910. Er na nodwyd gofynion y gystadleuaeth ar yr achlysur hwnnw, erbyn cyfarfod y Gymdeithas Geltaidd ar 5 Mai 1910 cyfyngwyd y nifer i dair cân werin anghyhoeddedig.

<sup>38</sup> Ym Mhrifwyl Caerfyrddin 1911, er enghraifft, gwobrwywyd Soley Thomas (ffermwr o'r Van ger Llanidloes) a Jennie Williams o dref Aberystwyth am eu casgliadau o alawon traddodiadol siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin.

yn ôl. Dyddorol yw sylwi fod ystori y broga i'w chael hefyd yn llên gwerin Lloegr – gweler Chappells – 'Book of English folksongs'. Digwydda y flattened 7th fwy nag unwaith yn yr alaw, ac y mae hyn yn nodweddiadol o wir alawon gwerin. Y mae hon heb ei chyhoeddi hyd yn hyn a chanwyd hi y noson hon am y tro cyntaf yn gyhoeddus.<sup>39</sup>

Yn yr un cyngerdd, canodd yr Athro David Jenkins, Pennaeth yr Adran Gerdd, y gân 'Rhywun' ar yr alaw 'Clywais lawer sôn a siarad' a gasglwyd ganddo yn ardal Aberaeron, ac yn dilyn cymeradwyaeth y gynulleidfa ymrwymodd i gynnal noson arbennig ar faes alawon gwerin dan adain y Gymdeithas Geltaidd ym 1911.<sup>40</sup> Ond roedd cyngerdd mis Mawrth 1910 yn achlysur o bwys hefyd am mai dyma pryd yr ymddangosodd y Ffrances, Madame Lucie Barbier, am y tro cyntaf yn canu caneuon gwerin yn y Gymraeg. Fel yr adroddodd gohebydd *The Dragon*:

Mae Madam Barbier, serchog wraig ein hathraw Ffrancaeg (*sic*) newydd eisoes wedi ymdafu yn hollol i fywyd Cymreig yn ogystal ag i fywyd cyffredinol y Coleg. Canodd yn Gymraeg am y tro cyntaf yng nghyngerdd mis Mawrth eleni pryd y clywsom hi yn canu 'Doli', alaw a gasglwyd gan J. Lloyd Williams, 'Ffarwel Mari' a 'Gwcu fach ...' Nid yn aml y clywir y fath ganu swynol a chlasurol hyd yn oed yn ein Coleg ni.<sup>41</sup>

Bu'r cyngerdd dan nawdd 'Y Canorion' y mis Mawrth hwnnw yn llwyddiant ac yn gyfrwng i ddwyn sylw penodol i faes canu gwerin y genedl ymhlith myfyrwyr Aberystwyth, fel y tystia'r Ysgrifennydd wrth gofnodi ei atgofion o'r digwyddiad:

Mae y Gymdeithas (Y Canorion) wedi dechrau yn odidog dan nawdd Y Gymdeithas Geltaidd a hyderwn y bydd iddi dyfu yn gyflawn faintioli, yn anrhydedd i'r fam-Gymdeithas. Rhwydd hynt iddi.<sup>42</sup>

Cyfrol J. Lloyd Williams, *Ceinion y Canorion*,<sup>43</sup> oedd prif ffynhonnell brintiedig cantorion Coleg Aberystwyth yr adeg honno, ac yn wyneb y fath fwrllwm cerddorol cynyddodd y diddordeb ym myd yr alawon gwerin a'r arferion brodorol i'r fath raddau fel y gwahoddwyd John Humphrey Davies. Cofrestrydd y Coleg, i draddodi darlith ar fyd y 'Baledi Cymreig' ddiwedd mis Tachwedd 1910.<sup>44</sup> Roedd Mary Davies yn bresennol bryd

<sup>39</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Rhaglen cyngerdd 16 Mawrth 1910.

<sup>40</sup> Ibid.

<sup>41</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Adroddiad cyngerdd 16 Mawrth 1910.

<sup>42</sup> Ibid.

<sup>43</sup> J. Lloyd Williams: *Ceinion y Canorion* (Bangor, c. 1909).

<sup>44</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Cyfarfod 30 Tachwedd 1910.

hynny hefyd, yn bennaf er mwyn canu rhai o'r enghreifftiau cerddorol ac i gyflwyno eitemau perthnasol a recordiwyd ganddi mewn gwahanol ardaloedd o Gymru drwy gyfrwng y ffonograff.<sup>45</sup> Ers dechrau'r flwyddyn golegol ym mis Hydref 1910, etholwyd swyddogion newydd i weithredu ar bwyllgor Cymdeithas y Canorion i barhau'r gwaith da a gyflawnwyd eisoes. Yn eu plith yr oedd:

Yr Athro Stanley Roberts (Llywydd),  
Mr John Hughes (Is-lywydd),  
Mr Eddie J. Thomas (Ysgrifennydd),  
Miss Dora Rowlands a Miss Dilys Jones (aelodau o'r pwyllgor)<sup>46</sup>

Er cymaint oedd y cyfrifoldeb o drefnu eisteddfod, cyngherddau achlysurol ac Ymgomwest flynyddol, ni chaniatawyd i'r 'Canorion' yn Aber fod yn gorff annibynnol ac fe barhaodd yr aelodau i weithredu dan oruchwyliaeth swyddogion y Gymdeithas Geltaidd, a hynny er gwaethaf eu llwyddiant a'u dylanwad yn y Coleg.<sup>47</sup> O bryd i'w gilydd deuai rhai o'r Canorion ynghyd i ddiddanu mewn cyngherddau eraill yn y Coleg – digwyddiadau fel 'The Capping Soirée'<sup>48</sup> adeg y seremonïau graddio a'r 'Annual Sports Concert',<sup>49</sup> a rhoddai hyn gyfle i ddwyn sylw pellach i'r diddordeb cynyddol ym myd caneuon gwerin Cymru, yn enwedig ar gyfer y myfyrwyr di-Gymraeg a'r ymwelwyr o wledydd tramor. Dora Rowlands, Gwen Taylor, Lewis Mendus a Tom Williams oedd y diddanwyr mwyaf gweithgar a llwyddiannus yn hyn o beth. Fel y cofnoda un o ohebwyr *The Dragon*: 'We have been led confidently to expect artistic and sympathetic performances from them'<sup>50</sup> – sy'n ategu apêl a phoblogrwydd y cantorion hyn ar adeg pan oedd y gefnogaeth i faterion Cymreig, yn enwedig materion a ddaliai gyswllt agos â chefn gwlad Cymru, yn prysur ddirywio.

Deuai Annie Ellis i gefnogi digwyddiadau o'r fath a gelwid arni'n aml i gyflwyno'r alawon neu i draddodi anerchiad byr i ddwyn sylw i weithgaredd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru mewn ardaloedd eraill yr adeg honno. Fel un o Is-lywyddion CAGC,<sup>51</sup> ynghyd â David Lloyd George, yr Arglwydd Mostyn a Syr John Rhys, roedd yn ymwybodol o bwysigrwydd lledaenu enw da'r Gymdeithas, denu aelodau newydd

<sup>45</sup> DJW: 'Y Gymdeithas Geltaidd', *The Dragon*, Cyf., XXXIII, Tachwedd (1910), 95. Nid oes cofnod o'r eitemau a chwaraewyd ganddi yn ystod y ddarlith. Gweler hefyd Wyn Thomas, 'Y Ffonograff Cymreig a byd yr alaw werin', *Canu Gwerin* (2006), 40–64.

<sup>46</sup> Llsg. LIGC. Casgliad University College of Wales, Aberystwyth, SRC and Societies. Y Gymdeithas Geltaidd, cyfrol G2. Sesiwn 1910–11.

<sup>47</sup> Yn rhifynnau 1910 o *The Dragon* rhestrir enwau swyddogion Cymdeithas y Canorion ar wahân i swyddogion y Gymdeithas Geltaidd. Erbyn 1911, fodd bynnag, dim ond aelodau pwyllgor y Gymdeithas Geltaidd sy'n ymddangos yng nghylchgrawn y myfyrwyr.

<sup>48</sup> Anhysbys, *The Dragon*, Cyf., XXXIII, Tachwedd (1910), 113.

<sup>49</sup> J.E.D., *The Dragon*, Cyf. XXXIII, Tachwedd (1910), 225–6.

<sup>50</sup> R.O.W., 'The Capping Soirée – An Impression', *The Dragon*, Cyf. XXXIII, Tachwedd (1910), 59.

<sup>51</sup> Dyrchafwyd hi yn Is-Lywydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1909–10. Gw. *Second Annual Report and Financial Statement* (Bangor, 1910).



a sicrhau mwy o gasglyddion ifanc brwdfrydig fyddai'n barod i genhadu a chywain alawon traddodiadol mewn ardaloedd gwahanol o Gymru a'u dwyn i sylw J. Lloyd Williams ym Mangor. Gobaith Annie Ellis oedd y deuai cynnyrch y casglyddion newydd hyn yn y man yn ddeunydd i'w gyhoeddi ar dudalennau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ac y byddai'n gyfrwng i ymestyn repertoire ac ehangu gorwelion myfyrwyr ac aelodau staff y Coleg yn Aberystwyth.

Yn eisteddfod y Gymdeithas Geltaidd ym mis Mawrth 1911, er enghraifft, dyfarnwyd gwobr o hanner gini i John Hughes (o Bencader), myfyriwr yn yr Adran Gymraeg, am gasglu tair cân werin Gymreig anghyhoeddedig, ac er mai ef yn unig fu'n barod i fentro y flwyddyn honno<sup>52</sup> fe barhaodd Annie Ellis i noddi'r gystadleuaeth am flynyddoedd. Ei gobaith oedd y deuai alawon newydd i olau dydd a fyddai'n cynnal y diddordeb yn y maes ac yn diwallu anghenion cynheiliaid y traddodiad yn dilyn eu cyhoeddi ar dudalennau cylchgrawn y gymdeithas.<sup>53</sup>

Ym mis Mawrth 1911 cynhaliwyd dau ddigwyddiad arall o bwys yn hanes 'Canorion' Aberystwyth.<sup>54</sup> Fel rhan o ddatiliadau Gŵyl Ddewi ar Fawrth 3ydd perfformiwyd detholiad o'r chwareugan *Aelwyd Angharad*, a fu mor boblogaidd yn siroedd y gogledd adeg sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.<sup>55</sup>

---

<sup>52</sup> Yr Athro Stanley Roberts (Prifysgol Cymru, Aberystwyth) oedd beirniad y gystadleuaeth i lunio casgliad o ganeuon gwerin y flwyddyn honno. Roedd yn aelod amlwg o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym mlynnyddoedd cynnar ei sefydlu. Graddiodd John Hughes (Pencader) yn y Gymraeg yn 1912. Roedd yn frawd i Mary Hughes (gw. isod) a fu'n weithgar yn cynorthwyo Ruth Herbert Lewis yn y gwaith o gasglu alawon gwerin yn ardal Llandysul ym mis Mehefin 1913.

<sup>53</sup> Gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. II, Rhif 2 (1919), 107, 111–3. Yn un o gasgliadau eisteddfod myfyrwyr Aberystwyth yr ymddangosodd yr alaw 'Y Byddar a'r Mud', sef fersiwn anghyfarwydd o 'Cob Malltraeth', dan y ffugenw 'Devinos'. Mewn cystadleuaeth debyg y gwelwyd yr alaw 'Y Ferch o'r Bedlam' am y tro cyntaf hefyd. Gwaith 'Mynwy' oedd y casgliad eisteddfodol hwnnw, er na wyddai Golygydd y *Cylchgrawn* yn 1919 pwy ydoedd.

<sup>54</sup> Erbyn 1911 nid oedd y Canorion yn cael ei rhestru fel cangen o'r Gymdeithas Geltaidd nac ychwaith fel cymdeithas annibynnol yn *The Dragon*.

<sup>55</sup> *Aelwyd Angharad, neu Hwyrnos Lawen Llwyngwern, Chwareugan, yn dangos dull ac arferion bywyd gwledig Cymru Fu*, gan J. Lloyd Williams a Llew Tegid (Bangor, d.d.). J. Lloyd Williams a gyfansoddodd y gerddoriaeth ac L. D. Jones ('Llew Tegid') a luniodd y geiriau ar gyfer yr *operetta* hon. Perfformiwyd y gwaith am y tro cyntaf gan blant Capel Seion, Cricieth, ym mis Mehefin 1899. Gw. Hywel Teifi Edwards, 'Aelwyd Angharad', *Cynheiliaid y Gân – Cyfrol deyrnged i Phyllis Kinney a Meredydd Evans* (Caerdydd, 2007), 58–74.



**Llun 3:** 'Aelwyd Angharad', Neuadd y Buarth, Aberystwyth (1912)

Yn ogystal â darparu diddanwch o safon, llwyddodd y perfformiad o'r operetta yn Aberystwyth, fodd bynnag, i uno'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg, fel yr eglurodd gohebydd *The Dragon*:

In a College where many cannot speak Welsh there is an obvious difficulty, which it is unwise to ignore, but a very solution was found this year in the performance of selections from the operetta 'Aelwyd Angharad'. Ignorance of Welsh was not a barrier to the enjoyment of the music and the company made a charming picture in their quaint costumes.<sup>56</sup>

<sup>56</sup> A.E.C., 'The St. David's Day Soirée', *The Dragon*, Cyf. XXXIII, May (1911), 164–5.

Oherwydd y prysurdeb eisteddfodol a'r prinder amser i ymarfer yr adeg honno o'r flwyddyn, sylwodd gohebydd *The Dragon* nad oedd pob agwedd ar y perfformiad cyntaf hwnnw o'r *Aelwyd* yn deilwng o ganmoliaeth:

The performance itself was a little ragged, especially in the concerted pieces, and the enunciation of some of the speakers was not clear. But despite these indications of insufficient rehearsal, the presentation of the Operetta as a whole was very effective.<sup>57</sup>

Dora Rowlands oedd seren y perfformiad o *Aelwyd Angharad* yn 1911 (roedd hi erbyn hynny wedi ennill ei lle fel cantores fwyaf adnabyddus y Coleg), ac yn ôl ei harfer fe lwyddodd i swyno'r gynulleidfa trwy gyfrwng ei chymeriadu dihafal a'i dehongliad cyfareddol o'r alawon Cymreig:

The leading parts were well sustained and, in particular, the singing of Miss Dora Rowlands, as Gwen, gave unmixed pleasure. Lleo Llawchwith (Mr Roger Thomas), however would do well to check his tendency to exaggerate humour into buffoonery. Restraint would add greatly to the force of his acting.<sup>58</sup>

Roedd carfan o fyfyrwyr Bangor a Chaerdydd, ynghyd â rhai cyn-fyfyrwyr o goleg Aberystwyth, yn bresennol yn y perfformiad cyntaf hwn yn y canolbarth o *Aelwyd Angharad*, ac fe arweiniodd hynny yn y man at ledaenu poblogrwydd y gwaith.<sup>59</sup> Llwyddiant yr achlysur ac apêl cyffredinol y gerddoriaeth a barodd i ohebydd *The Dragon* annog aelodau'r Gymdeithas Geltaidd i fentro eto i'r maes a dwyn adloniant tebyg i sylw myfyrwyr y dyfodol.<sup>60</sup>

---

<sup>57</sup> Ibid., 164.

<sup>58</sup> Ibid., 164.

<sup>59</sup> Rhoddwyd perfformiad pellach o'r *Aelwyd* gan 'Gymdeithas Angharad' yn Neuadd y Plwyf (Aberystwyth) ar 30 Tachwedd 1920. Erbyn hynny, roedd J. Lloyd Williams yn byw yn y dref ac yn bennaeth yr Adran Fotaneg yn y Coleg. Noda T. I. Ellis mai yn ystod ymweliad J. Lloyd Williams â'r Cwrt Mawr yn 1919 y cafwyd y syniad o berfformio *Aelwyd Angharad* yn Aberystwyth yn 1920. Ymhlith y perfformwyr yr adeg honno yr oedd Cassie Davies, Mair Howells, D. Lloyd Jenkins a D. H. Jenkins.

<sup>60</sup> Yn dilyn llwyddiant *Angharad* yn 1911, mae'n amlwg bod aelodau'r Gymdeithas Geltaidd yn Aberystwyth wedi talu mwy o sylw i gerddoriaeth y genedl. Bwriadwyd gwahodd Mary Davies yn ôl i draddodi'r ddarlith flynyddol, er nad oes tystiolaeth bellach i hyn ddiwydd. Er hynny, cadwodd David Jenkins ei addewid a rhoddodd gyflwyniad ar 'Alawon Cymru' ym mis Chwefror 1912 a Dora Rowlands yn canu'r enghreifftiau cerddorol.



**Llun 4:** Dora Rowlands, cantores frwdfrydig dros ganu gwerin Cymraeg

Uchafbwynt gweithgaredd cerddorol y 'Canorion' yn 1911, fodd bynnag, oedd ymweliad pedwar o fyfyrwyr Aberystwyth â Pharis i berfformio alawon gwerin Cymreig dan gyfarwyddyd Madame Lucie Barbier, athrawes leisiol y Coleg. Fel prif gynrychiolydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y canolbarth a chaperone i'r diddanwyr ifanc, teithiodd Annie Ellis yn eu cwmni'n ogystal. Fel yr adroddodd J. Lloyd Williams flynyddoedd lawer yn ddiweddarach:

The visit of four Welsh students from Aberystwyth – Miss Dora Rowlands, Miss Gwen Taylor, Mr Tudor Williams and Mr L. S. Knight – to Paris, under the able guidance of Madame Barbier is worth mentioning. They sang six Welsh folk-tunes arranged in parts, and nine as solos, at the Salle des Sociétés Savantes, and also at the Sorbonne, and gave great delight to the audiences assembled.

Mewn llythyr dyddiedig Mawrth 31ain (1911), dywed Mrs T. E. Ellis, a deithiodd ynghyd â Mrs Herbert Lewis gyda'r cwmni:

I must write to tell you of the splendid reception the 'Caneuon' have had. The students who came over from Aberystwyth have done their part well, and have charmed the various audiences who have listened to them. 'Yr Hen Erddygan' has been the favourite quartette. Last night at a very 'smart' gathering, the audience began to applaud before the end of the second line. It really HAS been delightful hearing these simple and charming Welsh songs sung in this gay city – where simplicity is so lacking ...

Tonight the students sing at the Sorbonne and Mr Timothy Lewis is giving a lecture on 'Welsh Folk Songs and Music'.<sup>61</sup>



**Llun 5:** Y Pedwarawd Cymraeg: Tudor Williams a Stanley Knight, Dora Rowlands, Lucie Barlow a Gwen Davies

Er mai trafod llên gwerin a thraddodiadau llenyddol y gwledydd Celtaidd<sup>62</sup> ac nid

<sup>61</sup> J. Lloyd Williams, 'The History of the Welsh Folk Song Society', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf., III, Rhan 2 (1934), 99.

<sup>62</sup> John Humphreys Davies, *Cofrestrydd Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth a wahoddwyd i ddarlithio yn y Sorbonne y noson honno ond oherwydd salwch gorfodwyd iddo ofyn i'w gydweithiwr Timothy Lewis i lenwi'r bwlch ar ei ran.*

ymdriniaeth o gerddoriaeth werin Cymru oedd testun darlith Timothy Lewis y noson honno,<sup>63</sup> fe gafwyd ymateb hynod gadarnhaol i holl berfformiadau'r pedwarawd ac i safon a chynnwys y trefniannau a ganwyd ganddynt. Nid ar chwarae bach yr oedd ymgymryd â menter fel hon. Y bwriad yn ystod yr ymweliad â Pharis yn 1911 oedd cynnal cyfres o gyngherddau hwnt ac yma yn y ddinas er mwyn arddangos doniau'r pedwarawd a dathlu cyfoeth yr alawon Cymreig ymysg y trigolion. Drwy gysylltiadau Madame Lucie Barbier llwyddwyd i ddenu nawdd a chefnogaeth ar gyfer y digwyddiadau unigol gan gymdeithasau, sefydliadau ac unigolion gwahanol, fel a ganlyn:

Mawrth 28 1911	Cyngerdd prynhawn dan adain Musique d'Ensemble a chyda nawdd Mme. Desmarais
Mawrth 29 1911	Cyngerdd yr hwyr dan adain Le Lied en Tous Pays yn La Salle des Sociétés Savantes
Mawrth 30 1911	Cyngerdd prynhawn dan adain Audition d'Élèves
Mawrth 30 1911	Cyngerdd yr hwyr yn La Sociétés d'Entre Nous
Mawrth 31 1911	Cyngerdd prynhawn dan adain Musique d'Ensemble a chyda nawdd Mme. Benard
Mawrth 31 1911	Cyngerdd yr hwyr dan adain L'Association des Professeurs de Langues Vivantes de l'Enseignement Public yn Amphitheatre Richelieu, Prifysgol Paris y Sorbonne <sup>64</sup>

Er bod rhai o aelodau'r pedwarawd wedi mynegi pryder fod gormod o ddeunydd traddodiadol yn rhaglen y cyngherddau a gynhaliwyd ganddynt ym Mharis, mae'n amlwg yn ôl tystiolaeth papurau dyddiol y cyfnod y bodlonwyd y cynulleidfaoedd a ddaeth ynghyd gan gyfoeth y lleisiau ifanc, ansawdd sain ac amrywiaeth y caneuon brodorol Cymreig a berfformiwyd iddynt.<sup>65</sup> Fel hyn yr ymatebodd golygydd *Le Pays Breton* yn dilyn y cyngherddau:

Daeth carfan o fyfyrwyr o Brifysgol Cymru yn Aberystwyth i Baris yr wythnos ddiwethaf i ddangos i'r Ffrancwyr nid yn unig mai'r Cymry yw'r pêl-droedwyr gorau yn y byd ond mai hwy hefyd yw'r cantorion gorau.<sup>66</sup>

Bu'r digwyddiad hefyd yn gyfrwng i ddwyn sylw i'r berthynas agos rhwng Cymru a

<sup>63</sup> Roedd Timothy Lewis yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth yr adeg honno.

<sup>64</sup> Dyddiadur 1911, Annie Ellis ym meddiant Dr. Mari Ellis, Aberystwyth.

<sup>65</sup> Gobeithir gweld ymdriniaeth lawnach ar ymweliad y pedwarawd â Pharis yn 1911 yn Wyn Thomas, 'Cerddorion a cherddoriaeth Cymru yn Ffrainc, 1911-13', *Canu Gwerin* (2008) (yn bresennol ar y gweill). Trefnwyd ymweliad â Pharis gan bedwarawd arall yn 1913 ond ni theithiodd Annie Ellis na Ruth Herbert Lewis gyda hwy bryd hynny.

<sup>66</sup> Anhysbys, *Le Pays Breton*, 1 Ebrill 1911.

Llydaw, i'r cysylltiadau ieithyddol a'r tebygrwydd diwylliannol rhyngddynt. Yn ogystal, bu perfformiadau'r pedwarawd o Gymru yn gymorth i danio chwa o genedlaetholdeb ymysg Llydawyr y brifddinas a chafwyd apêl ar dudalennau'r wasg i ddefnyddio'r iaith a sicrhau ei pharhad drwy gynnal cyngherddau tebyg yn y dyfodol. Roedd ymateb brwdfrydig René Lenormand, sylfaenydd Cymdeithas 'Le Lied en Tous Pays', a sefydlwyd gan gerddorion a llenorion y ddinas i hyrwyddo caneuon Ffrengig mewn gwledydd tramor a chaneuon rhyngwladol yn Ffrainc, yn adlewyrchu barn y mwyafrif a ddaeth ynghyd i'r cyngherddau Cymreig:

Bravo! Roedd pob dim yn hyfryd ac fe'm swynwyd gan natur y lleisiau ffres a gyddfod hyn. Mae ganddyn nhw gryfderau nas gwelir yma, ac mae ansawdd y sain yn gwbl gyfareddol.<sup>67</sup>

Ar dudalennau papur dyddiol *Le Matin* ar Ebrill 2ail, fodd bynnag, y cafwyd y ganmoliaeth amlycaf i gamp a gorchest y cantorion ifanc:

Nid cerddorion proffesiynol ond myfyrwyr yw'r rhain. Mae eu lleisiau'n berffaith a'u harddull yn ddilychwin. Canwyd caneuon gwerin Cymreig ganddynt mewn harmoni perffaith – rhai ohonynt yn ddifrifol neu'n arwrol, rhai eraill yn llon a thyner. Mae gan y caneuon nodweddion unigryw o safbwynt lliw ac acen, a thrafodwyd y nodweddion hyn yn huawdl ddigon gan yr Athro Lewis. Cafodd y bobl ifanc hyn – Meistri Williams a Knight, Miss Rowlands a Miss Taylor – dderbyniad gwresog gan y cyhoedd, ac fe gyfeiliwyd iddynt gan Madame Barbier, Frances yr ŷm ni'n ddyledus iddi am ddwyn ein cerddoriaeth ni i Loegr. Mewn anerchiad byr, mynegodd ei dymuniad y dylai ein cyfansoddwyr ni fynd i Gymru er mwyn cael eu hysbrydoli gan y traddodiad iach a gyflwynwyd i ni ac fe gyfeiriodd y byddai hyn yn un o'r dulliau mwyaf dymunol i wireddu ysbryd yr 'entente cordiale'.<sup>68</sup>

Parhaodd cyswllt agos Annie Ellis â Choleg Aberystwyth trwy gydol 1912 a 1913. Sicrhaodd ailberfformiad o *Aelwyd Angharad* gan aelodau'r 'Canorion' ym mis Chwefror 1912<sup>69</sup> a phan benodwyd hi'n llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr adeg y Pasg y flwyddyn honno (arwydd pellach o'r parch eithriadol oedd iddi ymhlith Cymry Aberystwyth y cyfnod hwnnw), trefnodd adloniant yn seiliedig ar alawon a cheinciau traddodiadol Cymreig yng nghwmni Dora Rowlands a'r pedwarawd lleisiol a fu ym Mharis y flwyddyn flaenorol.<sup>70</sup> Trwy gyd-ddigwyddiad, roedd Tom Ellis wedi trefnu achlysur tebyg a oedd yn cyfuno cerddoriaeth a barddoniaeth Gymraeg i ddwyn cyfarfod cyntaf o gyn-fyfyrwyr y Coleg ynghyd un mlynedd ar hugain ynghynt.

<sup>67</sup> Llsg. LIGC. 22694D f. 82. Llythyr oddi wrth René Lenormand at Mme. Lucie Barbier, dyddiedig 3 Ebrill 1911.

<sup>68</sup> Anhysbys, *Le Matin*, 2 Ebrill 1911.

<sup>69</sup> Perfformiwyd *Aelwyd Angharad* unwaith eto ar 30 Tachwedd 1920 gan the UCW Angharad Society. Gw. *The Dragon*, Cyf. XLIII, Chwefror (1921), 108–10 lle disgrifir y gwaith fel a ganlyn: 'Aelwyd Angharad is a natural growth of the soil, rooted deeply in all that we conceive to be characteristically Welsh'.

<sup>70</sup> Anhysbys, 'The Old Students' Association', *The Dragon*, Cyf. XXXIV, Mai (1912), 260.

Fel gweithwraig ddyfal, cyflawnodd Annie Ellis waith gorchestol fel prif gynrychiolydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y canolbarth cyn dyfodiad y Dr J. Lloyd Williams i'r Coleg yn 1914.<sup>71</sup> Erbyn y cyfnod hwnnw roedd y gamp o gynnu'r diddordeb yn y maes, o godi'r ymwybyddiaeth o alawon y traddodiad a chenhadu ymhlith cynheilid y gân wedi eu cyflawni a hynny'n unig oherwydd ei hymdrechion hi. Yn yr un modd, roedd y gwaith o gasglu alawon brodorol yn ardaloedd diarffordd Sir Geredigion (Tregaron, Llandysul, Penuwch a'r cyffiniau) hefyd yn prysur fynd rhagddo – ac Annie Ellis yn ddolen gswllt bwysig rhwng casglyddion profiadol y maes (rhai tebyg i'r Fonesig Ruth Herbert Lewis) a'r gymdogaeth y gwyddai hi gymaint amdani.

Wrth gyfeirio at lwyddiant yr ymgyrchoedd casglu alawon gwerin hyn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, nododd J. Lloyd Williams y newid graddol a fu yng ngweithgaredd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y cyfnod:

The Officials of the Society continue to collect interesting folk songs and to accumulate more information about those already collected. The centre of interest has this year shifted from Caernarfon and Meirioneth to Cardiganshire and Montgomery where Mrs Mary Davies assisted by Mrs T. E. Ellis, the Misses Davies, Plas Dinam and others have secured some interesting 'finds' and several new workers. Many phonographic records have also been obtained in this district.<sup>72</sup>

Ymweld â Sir Aberteifi i feirniadu yn Eisteddfod Llangeitho a wnaeth Mary Davies ym mis Gorffennaf 1910, ac yn ôl ei harfer gwnaeth yn fawr o'r cyfle drwy gasglu rhai caneuon gwerin nodweddiadol o'r gymdogaeth yn ystod ei harhosiad yn y canolbarth. Fel un o gasglyddion mwyaf profiadol y Gymdeithas yr adeg honno, roedd cael cefnogaeth Annie Ellis a oedd yn enedigol o'r fro ac yn gyfarwydd â'r ardal a'i thrigolion, ac a siaradai Gymraeg, yn fanteisiol iawn iddi. Yn ystod ymweliad Mary Davies â Llangeitho yn 1911 y recordiwyd cân 'Y Ddau Farch' gan wraig fferm Penrheol (Llangeitho) a hynny drwy gyfrwng ffonograff ym mharlwr y Cwrt Mawr.<sup>73</sup> Yn yr eisteddfod hon cynigiai Annie Ellis wobwr o ddwy gini am y perfformiad gorau o gân werin Gymreig sy'n tystio ymhellach i'w hawydd i gefnogi a diogelu hen arferion y traddodiad llafar yn ei chymdogaeth enedigol.<sup>74</sup>

<sup>71</sup> Penodwyd Dr J. Lloyd Williams fel olynydd i'r Athro R. H. Yapp i Gadair yr Adran Fotaneg yn Aberystwyth ym mis Hydref 1914. Yn dilyn ei ymadawiad â Bangor, cychwynnodd gyfnod ffrwythlon arall yn ei hanes fel cerddor, ysgolhaig a golygydd *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*.

<sup>72</sup> J. Lloyd Williams, 'Report of the Musical Editor', *Second Annual Report and Financial Statement for the year ending 30<sup>th</sup> June, 1910* (Bangor, 1910), 7.

<sup>73</sup> Mrs Jones, Penrheol, Llangeitho oedd yn canu. Gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*. Cyf. I, Rhif 3 (1911), 146-7. Canwyd y gân 'Cariad Cyntaf' yn Eisteddfod Llangeitho (1890) hefyd. Gweler *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*. Cyf. I, Rhif 4 (1912), 166-7.

<sup>74</sup> J. Lloyd Williams, 'Editor's Note', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 2 (1910), 66. Cefnogai aelodau teulu Cwrt Mawr eisteddfod flynyddol Llangeitho drwy noddi cystadlaethau a chyflawni eu dyletswydd fel Llywyddion y Dydd o bryd i'w gilydd. Rhoddwyd lle amlwg iddynt yng ngweithgareddau'r gymdogaeth ac ystyrir hwynt fel uchelwyr neu 'sgweiar' y fro (Dr Mari Ellis, mewn sgwrs â'r awdur, Medi 2004).



24. Y DDAU FARCH. (*The Two Steeds.*)

*Doh G.*  
{ :s<sub>1</sub> | d .d :d .d | d .m :r r .m }

Pan oe - ddnw ar fo - reu - ddydd, Tal and the

{ | r ,d .t<sub>1</sub> ,d :r ,d .r ,m | r :- .r | m .r :m .f }

doodle and the doodle and the day, Yn rhod - io maes o'm

{ | s :- | m :- .m | f .m :f .m }

cy - - - - fydd cy - far - fod wnae - thum

{ | f .s :d .t<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> .s<sub>1</sub> :l<sub>1</sub> .s<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> :- .t<sub>1</sub> }

a dau farch Yn ym - gom ar y my - - - -

{ | d : .d | r .r ,m :r ,d .t<sub>1</sub> ,d | r ,d .r ,m :r .r }

- nydd Rei tal and the doodle and the doodle and the day, Yn

{ | m .r :d .t<sub>1</sub> | l<sub>1</sub> :- .t<sub>1</sub> | ḋ || }

ym - gom ar y my . . . . nydd.

2 "Dywedai y cel [ceffyl] gwannaf  
'Nawr wrth y ceffyl cryfaf—  
'Fe fum i undydd yn fy mharch  
Yn gystal march a thithau.

3 Pan ês yn hen glyhercyn  
Ces gario yd i'r felin,  
A beth ddigwyddodd i fy rhan  
Ond gogred gwan o eisin.

4 Tynasant fy mhedolau,  
Gyrrasant fi i'r mynyddau,  
A thra bo anadl yn fy firoen  
Ni ddeuaf byth tuag adre."

Rhaid bod y cyfle i gydweithio unwaith eto gyda Mary Davies ar yr achlysur hwn wedi bod yn brofiad amheuthun i Annie Ellis ac yn baratoad da ar gyfer ei hymwelriad ag ardal Llandysul yng nghwmni'r Fonesig Ruth Herbert Lewis ym mis Mehefin 1913. Cyfeiria rhifyn cyntaf *Cylchgrawn Alawon Gwerin Cymru* at gyfoeth y caneuon gwerin a oedd ar gael yn yr ardal ddeheuol hon o'r sir. Yno ar lannau afon Teifi, yn ôl J. Lloyd Williams, y

cofnodwyd 'Ym Mhontypridd mae 'nghariad', 'Y Fwyalchen Ddu Bigfelen' a'r gân 'A ei di'r Perot Pêr?' a ymddangosodd yn llawysgrif 'Orpheus' o ganu gwerin cynnar a gyflwynwyd yn Eisteddfod Llangollen ym 1858.<sup>75</sup> Gwyddai John Humphrey Davies yn dda am yr ardal hefyd, am gyfoeth geiriol caneuon a baledi'r fro,<sup>76</sup> ac mae'n siŵr iddo gynghori ei chwaer ar y mater a'i chyfeirio i'r manau lle yr oedd bywyd diwylliannol y gymdogaeth ar ei gryfaf. Yn ogystal, tystia un o lythyrau Ruth Herbert Lewis at Amy Preece, Ysgrifnyddes Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru bryd hynny, eu bod ar un o'r teithiau casglu wedi cael cymorth a chyfarwyddyd un o gyn-fyfirwyr Aberystwyth a darlithydd yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe, yn ystod eu harhosiad yn y dref.<sup>77</sup>



**Llun 6:** Casglu caneuon gwerin yn Llandysul a Chastell Newydd Emlyn, Mehefin 1913

<sup>75</sup> *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I (1909), 24-8. Gweler hefyd Meredydd Evans, 'Pwy oedd *Orpheus* Eisteddfod Llangollen 1858?', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, Cyf. 5 (Caerdydd, 2002), 59-64.

<sup>76</sup> Gwyddai John Humphrey Davies am waith David Jones ('Mole catcher') a chasglwr baledi o ardal Llandysul o ganol y 18fed ganrif. Gw. *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. I, Rhif 4 (1912), 203.

<sup>77</sup> Llsg. LIGC. Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Gohebiaeth B1 (1905-39). Llythyr dyddiedig 21.07.1912 at Amy Preece.

Am wythnosau cyn dyfodiad Annie Ellis a Ruth Herbert Lewis i ardal Llandysul bu Miss Mary Hughes<sup>78</sup> (chwaer John Hughes, myfyriwr yn Adran y Gymraeg, Coleg Aberystwyth, a gafodd y wobr am y casgliad gorau o alawon gwerin anghyhoeddedig yn eisteddfod y Gymdeithas Geltaidd yn 1911) yn ddiwyd yn chwilio am gantorion a chefnogwyr canu gwerin y gymdogaeth er mwyn i'r ddau ymwelydd eu recordio. Cofnododd Ruth Lewis ei hatgofion o'r daith gasglu yn yr ardal rhwng 24 a 26 Mehefin (1913) ar ffurf dyddiadur, a chyfeirir ynddo at lwyddiant diamheuol Annie Ellis yn dwyn perswâd ar rai o drigolion y fro i rannu eu caneuon a'u recordio drwy gyfrwng y ffonograff.<sup>79</sup> Enwogrwydd Annie Ellis, fel gwraig un o gyn-wleidyddion Rhyddfrydol amlycaf ei gyfnod, a'i chyfeillgarwch â rhai o weinidogion Anghydfurfiol blaenllaw'r genedl fu'r dylanwad pennaf ar gymeriadau ardal Llandysul. Fel y cyfeiria J. Lloyd Williams:

Lady Lewis, Mrs Tom Ellis and Mrs Mary Hughes (*sic*) had an interesting song-collecting experience in the Llandyssul-Llangeler district. A great deal of tact and diplomacy had to be used in dealing with the old singers, and the arguments employed varied according to the temperament of the persons. In spite of every effort, they failed to induce one old lady of 96 to sing any of her songs.<sup>80</sup>

Yn un o'i llawysgrifau cofnododd Annie Ellis eiriau rhai o'r caneuon a glywyd yn ystod y daith yng nghyffiniau Llandysul yn 1913 a hynny am nad oedd Ruth Herbert Lewis yn deall digon o Gymraeg i allu dilyn rhediad nac ystyr y penillion.<sup>81</sup> Gan Mrs Jenkin Jones, Manordeifi, Charles Street, Llandysul, a casglwyd y caneuon canlynol:

*Hapus Ddydd*

O hapus ddydd pan oeddwn  
Yn llon o gylch fy mam,  
Heb hidio fawr am undyn,  
Gan neb ni fynnwyn gam.  
Dedwyddwch lond fy mynwes,

<sup>78</sup> Wedi graddio mewn Saesneg ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, yn 1911, penodwyd Mary Hughes, Pentop, Llanllwni yn athrawes Saesneg a Hanes yn Ysgol Ramadeg Llandysul cyn iddi dderbyn swydd fel darlithydd yng Ngholeg Hyfforddi Abertawe. Yn ystod ei chyfnod fel athrawes yn Llandysul sefydlodd barti drama a daeth ei chyflwyniadau blynyddol yn ddigwyddiadau o bwys yn y dref. Perfformiwyd gweithiau fel *When we are married* (J.B.Priestley) a *Joan of Arc* (yn y Gymraeg a Saesneg) ganddynt. Priododd David Lewis, mab hynaf J.D. Lewis, sylfaenydd Gwasg Gomer, Llandysul, a chofnodwr rhai o faledi Sir Geredigion. Gwobrwywyd ef yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin (1911) am y casgliad gorau o faledi'r sir. Cofnododd Mary Hughes rai o'i hatgofion mewn erthygl fer yng nghylchgrawn yr ysgol. Gweler Mary Lewis, 'I Remember', *The Adastra*, Rhif 7, Christmas Term (1939), 19–21.

<sup>79</sup> Kitty Idwal Jones, 'Adventures in Folk-song Collecting', *Welsh Music*, Cyf. V, Rhif 5, Gwanwyn (1977), 33–52.

<sup>80</sup> J. Lloyd Williams, 'The History of the Welsh Folk Song Society', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. III, Rhan 2, Rhif 10 (1934), 101.

<sup>81</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A384. Llyfr nodiadau o wneuthuriad Jack Edwards, Stationer, Aberystwyth.

A gwridog ruddiau iach,  
Fy oriau'n llawn pleserau,  
Pan oeddwn yn blentyn bach.<sup>82</sup>

*Cân Serch i fy Hen Gariad*

Mi welais ryw ddydd fy hen gariad,  
Mi welai fy llygaid o draw,  
Mi ddaethai yn llon ac yn serchog  
Tuag ataf i siglo fy llaw.  
Ond nawr ni ddaw e'n agos  
Dim mwy na 'ta fe wedi ei gloi.  
Rhowch i mi resymol resymau,  
Beth ga's eich meddyliau chwi droi.<sup>83</sup>

*Shic Shac*

Tra byddo calch ar dalcen plas  
Ac ar y glomen blufyn glas  
A thra bo'r ych yn rhodio'r ddôl,  
F'anwylyd fach, ni ddwâi nôl.<sup>84</sup>

*Deryn Bach*

Deryn bach yn y llwyn ganai('n) fwyn,  
Nes yn synnu gyda'i swyn,  
Swyna'i lais, eiria' lu  
Ar y gangen fry.  
O mae'r deryn wrth ei fodd,  
Pan mae'n diolch am bob rhodd,  
Moliant Duw, nodau gwiw  
Cana'r deryn bach.<sup>85</sup>

*Y Wennol*

Gwennol fwyn, ti ddaethost eto  
I'n dwyn ar gof fod haf ar wawrio,  
Wedi bod yn hir ymdeithio,  
Croesaw, croesaw iti.

Nid oes un rhyw berchen aden  
Mor gariadus (ô'r) wen ddolen,  
Pawb a'th weled sydd yn llawen  
Meddai'r wennol, 'twi, twi, twi'.<sup>86</sup>

<sup>82</sup> Ibid., tt. 7-8. Nodwyd y geiriau a'r alaw mewn sol-ffa. Dyddir y cofnod, 24.06.1913.

<sup>83</sup> Ibid., t. 5. Nodwyd y sol-ffa ar gyfer llinellau 2,5, 7 ac 8 yn unig.

<sup>84</sup> Ibid., t. 7. Dim ond geiriau pennill cyntaf y gân hon a gofnodwyd gan Annie Ellis.

<sup>85</sup> Ibid., t. 9. Nodir y geiriau a'r sol-ffa yn llinellau 1,5,6,7 ac 8 yn y llsg.

<sup>86</sup> Ibid., t. 11. Nodir y geiriau'n unig ar gyfer y gân hon.

Llwyddwyd hefyd i holi Jenkin Jones, ei gŵr (crydd a hanai o Dregaron) wedi iddo ddychwelyd o'i waith. Ond fel y noda Ruth Herbert Lewis yn ei dyddiadur:

He was rather early Victorian in his choice of songs. He sang us 'Lliw Gwyn Rhosyn yr haf', and 'Yr asyn a fu farw'. He knew 'Hen ŵr mwyn' but could not remember 'Dei Cantwr'. Most of what he knew had been published.<sup>87</sup>

Yn ogystal â'r caneuon hyn, fodd bynnag, cofnododd Annie Ellis ddau bennill o eiriau'r gân serch 'Shôn Dafydd' yn ystod perfformiad Jenkin Jones:

*Shôn Dafydd*

Shôn Dafydd a fydd addfwyn  
Pan gyntaf gwelais chi  
A'ch gwallt oedd fel y frân, Shôn,  
A'ch talcen gwyn yn hy.  
Ond nawr mae'ch pen yn foel, Shôn,  
A'ch barf fel sidan gwyn  
A gwywo wnaeth (eich) gruddiau glân  
Ond hardd i chwi er hyn.

Am drigain mlynedd hir, Shôn  
'Rym wedi byw yn hir,  
A charu pan yn ieuanc, Shôn  
A charu ry'm o hyd.  
Ffarwel yn awr fy annwyl Shôn,  
Mi welaf angau draw,  
Cawn gwrdd yfory'n ieuanc,  
Ffarwel, rhowch im eich llaw.<sup>88</sup>

Nid nepell o Bencader cyfarfu Annie Ellis a Ruth Herbert Lewis â James Thomas, gŵr dall o'r Gelli Newydd, Gwyddgrug, a ganodd dair cân iddynt. Yn ei dyddiadur, disgrifia Ruth Herbert Lewis un o'r alawon, 'Cŵn hela', fel a ganlyn:

A delightful tune to an early 17th century ballad (vide J. H. Davies) with a prolonged note at the start of each line and the third line repeated very fast.<sup>89</sup>

Er na chofnododd Annie Ellis yr alaw yn y cyswllt hwn, fe sicraodd fod geiriau tri o'r penillion yn nhafodiaith de Sir Geredigion wedi eu diogelu:

<sup>87</sup> Kitty Idwal Jones, *op.cit.*, 45.

<sup>88</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A384, tt. 15–17.

<sup>89</sup> Kitty Idwal Jones, *op.cit.*, 47.

*Cŵn hela*

Pan oeddwn yn trafelli,  
Mewn lle cyfyng ar lan Cothi,  
'Mysg y coed ac eltti' gwylltion,  
Lle mae'n gorwedd bryfed gewrion.

Druan bach, ni allent beidio,  
Maent, mae'n fynych wedi treio,  
Dim yn hidio am fath enaid,  
Dim mwy na'r corgwn dôf a'r defaid.

Beth 'ta hap i Dafis enwog,  
O'r Trawsmawr a'i gŵn calonog (*sic*)  
Yn nghyd â helwyr tre Caerfyrddin  
A tharo maes i ddechrau'ch dilyn.<sup>90</sup>

Dehongliad James Thomas o 'Gân yr Asyn', fodd bynnag, oedd yr un a ddenodd sylw Annie Ellis ar y daith gasglu gofiadwy honno, yn bennaf am fod y cyffyrddiad chwareus yng nghwpled olaf y gân wedi apelio'n fawr ati:

*Cân yr Asyn*

Trigolion bro a bryniau  
A phawb yn ddiwahan,  
Cydneswch yma'n gryno  
I wrando hyn o gân.  
Rhyw hanes am ddamweiniau  
Sy'i glywed nos a dydd,  
Oherwydd hyn mae llawer,  
Yn teimlo'i bronnau'n brudd.

*Cytgan*

Rhowch hanes yn ddi-gêl,  
I gadw'r oes a ddêl  
Am un o'r prif ddamweiniau,  
Fuodd yn y Swansea Vale.

Ar fore dydd yr angladd  
Daeth tyrfa fawr ynghyd  
I roi'r gymwynas ola'  
Tra'i gorph e' yn y byd.  
Roedd pob un yno'n wyllo

---

<sup>90</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A384, tt. 23–5.

Heb neb yn gwneuthur gwên,  
Wrth weld y corph yn gorwedd  
Is-law i gwt yr ên.

Ym mynwent plwyf Llangellwain,  
Fe'i claddwyd dan y gwys  
A phob un o'i berthnasau,  
A deimlent alar dwys,  
Ac yno bydd yn gorffwys  
Nes codi'r seren ddydd,  
A chael pedolau newydd  
A'i draed yn rhodio'n rhydd.<sup>91</sup>

Cyn ffarwelio â chyffiniau Llandysul, llwyddodd Annie Ellis i gofnodi fersiwn o'r gân 'O bra boys' o ganu Sian Jones, gwraig ffraeth a byrlymus 94 oed o Lanfihangel ar Arth:

*O bra boys*

Ow ni'n rhodio pentre Buar  
O bra boys;  
Fe glywn i fab a merch yn siarad,  
O bra boys;  
Ar lan afon mewn lle dirgel  
Ar fore ddydd, tywyll tawel,  
Pan oedd y mab ar bwynt ymadael,  
O bra boys.

Clywn ni'r mab yn dweud o ddifrad  
O bra boys;  
Ryw eiriau breision wrth ei gariad,  
O bra boys;  
Er 'y mod yn bur newynog  
Rwy't ti'n mhoillid ar fy stumog,  
'Rhen soga segur sych yn serchog,  
O bra boys.

Gronda Samuel dawel dirion  
O bra boys;  
Y ti yw'r mwynaf ar fy nghalon,  
O bra boys.  
Ond dy gael yn gymwys gydmar,  
Cyn yr êl hi'n rhy ddiweddar;  
Waeth gwn ar fyrder âf i'r ddaear,  
O bra boys.

---

<sup>91</sup> Ibid., 31–35. Cofnod anghyflawn o'r faled yw hwn, ysywaeth.

Wyt ti'n cofio'r porc a'r wyau,  
O bra boys;  
Welais i'n slurio yn dy weflau,  
O bra boys;  
Llawer boled llawn o gwrw,  
Gest ti gen i nes bo ti'n feddw;  
Does gen ti ddim cof am hwnnw,  
O bra boys.<sup>92</sup>

Wrth ddirwyn eu gwaith i ben yn ardal Llandysul, gobaith Ruth Herbert Lewis ac Annie Ellis oedd y byddai Mary Hughes a rhai o gefnogwyr eraill Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y parthau hynny yn parhau'r gwaith o gasglu caneuon traddodiadol y fro ac yn mentro i ardaloedd cyfagos fel Rhydlewis a Chastell-newydd Emlyn. Cyfeiriwyd droeon yn ystod yr ymweliad at gyfoeth y deunydd brodorol yn yr ardaloedd hynny o dde Ceredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin, ac er i Annie Ellis fynegi ei dymuniad i ddychwelyd yno yn ystod misoedd yr haf 1913, ni cheir unrhyw dystiolaeth i brofi iddi gyflawni ei bwriad.<sup>93</sup> Eto i gyd, roedd cenhadaeth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ac ysbryd y casglu wedi cydio yn ddwfn ynddi ac ymdrechodd lawer tro i annog rhai o fyfyrwyr Aberystwyth, ar sail eu diddordeb ym myd y canu traddodiadol, i'w dilyn i'r maes. Un o'r myfyrwyr hynny a ddeuai i ymweld â hi'n gyson yn ei chartref ym Maes Lowri, Aberystwyth, oedd y darpar weinidog, Lewis Mendus – gŵr a fu'n flaenllaw ym mywyd cerddorol a diwylliannol y Coleg ac a fentrodd o bryd i'w gilydd i faes casglu alawon brodorol.<sup>94</sup> Mewn llythyr at Annie Ellis yn 1913, fel hyn y disgrifiodd Mendus ei brofiad cyntaf o gofnodi alaw Gymreig:

I drove my grandfather to meet the St. David's motor bus this morning and in driving home alone, my thoughts Went back to Laura Place and Cwrt Mawr and I remembered that I once told you I would try to get some folk songs. Well, I pulled up at a cottage and before long the old woman was singing away finely! She sang two songs. I took them down. But I fear they won't be a new contribution:<sup>95</sup>

Er na theimlai'r casglwr ifanc fod ei gyfraniad yn un gwerthfawr, cofnododd benillion dwy gân gyfarwydd ynghyd â nodiant sol-ffa un ohonynt:

Mae gennyf ddafad gernig  
Ag arni bwys o lân (sic);  
Yn pori ar y mynydd  
Ym mysg y meillion mân

<sup>92</sup> Ibid., 39–43.

<sup>93</sup> Rhai wythnosau'n ddiweddarach, urddwyd hi i Orsedd Beirdd Ynys Prydain yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Y Fenni (Awst 1913).

<sup>94</sup> Roedd Mendus yn ganwr ac ymddangosodd droeon ar lwyfannau Aberystwyth yn perfformio yng nghwmni Dora Rowlands. Gw. *The Dragon*, Cyf., XXXIV, Mai (1912), 269.

<sup>95</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T.I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Lewis Mendus at Annie Ellis, dyddiedig 9.09.1913.



*Chorus (yn gyflym)*

Cered y byd i'r sawl a'i caro  
A finnau'n llon ac iach,  
Cael llymed nawr ac yn y man  
O'r cwrw melyn bach

Roedd gennyf hefyd fochyn,  
A marlad bychan twt,  
A deg o ddefaid tewion  
A mochyn heb un cwt.<sup>96</sup>

Fersiwn o'r gân 'Twill bach y clo' oedd cynnwys yr ail gyfres o benillion a gofnodwyd ganddo:

Y gŵr a aeth i fyny i'r llofft uwch ben  
Y wraig aeth ag allwedd y drws o dan ei phen,  
A Gweno'n gweu sanau wrth olau tân glo  
A 'huwcyn'<sup>97</sup> oedd yn spïo trwy dwll bach y clo.

*Chorus*

Clywch floedd fechgyn  
Clywch, clywch, clywch etc., etc.<sup>98</sup>

Er na chofnododd gerddoriaeth 'Twill bach y clo', hyderai Lewis Mendus y byddai ei gyfeilles, Morfydd Llwyn Owen,<sup>99</sup> yn ddigon cyfarwydd â'r alaw i allu ei gyfeirio at fersiwn gyhoeddedig ohoni.<sup>100</sup> Tystia natur gyfeillgar yr ohebiaeth a fu rhwng Mendus ac Annie Ellis dros y blynyddoedd fod y gweinidog o Drefforest yn ymddiried cryn dipyn iddi ac yn barod i rannu ei gyfrinachau â hi – gan gynnwys hynt a helynt ei garwriaethau. Cyfeiria Mendus ati'n aml fel 'Mother Confessor', 'upon whom I can inflict a mood now and then knowing that she uses my confessions with discretion'.<sup>101</sup>

Naws debyg sydd hefyd i gynnwys llythyrau Dora Rowlands at Annie Ellis yn ystod ei chyfnod fel myfyrwraig ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Bu diddordeb Dora yn y

---

<sup>96</sup> Ibid.

<sup>97</sup> Mae Mendus yn cynnig 'hewkin' fel fersiwn wahanol o'r gair 'Huw cyn' ynghyd â'r eglurhad canlynol: 'Huw cin (*sic*), she explained was a man from the North and generally a rascal. Anyway, a term of reproach'.

<sup>98</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Lewis Mendus at Annie Ellis, dyddiedig 9.09.1913.

<sup>99</sup> Morfydd Llwyn Owen (1891–1918), cyfansoddwrwaig, cantores a phianyddes. Cydweithiodd gyda Ruth Herbert Lewis i gynhyrchu cyfeiliannau i'r alawon a gyhoeddwyd yn *Folk-Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd* (Hughes a'i Fab, Wrecsam, 1914).

<sup>100</sup> Cyn canol mis Medi 1913, roedd Lewis Mendus wedi'i sefydlu'n weinidog yn Nhrefforest (Pontypridd), man geni a chartref Morfydd Owen.

<sup>101</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Lewis Mendus at Annie Ellis, dyddiedig 9.09.1913.

Gymdeithas Geltaidd, yng ngweithgaredd y Canorion a bywyd diwylliannol Cymreig y Coleg, ynghyd â'i gallu cynhenid fel perfformwraig yn ddolen gyswllt agos rhyngddynt. Rhaid hefyd eu bod wedi dod i adnabod ei gilydd yn dda yn ystod yr ymweliad â Pharis yn 1911 a rhannent ddiddordeb byw ym myd yr alaw werin a gobeithion y Gymdeithas. Yn ôl ei harfer, ymddiddorai Annie Ellis yn fawr yn y merched o Gymru a ddeuai i Aberystwyth i astudio – gofalai amdanynt a chroesawai nifer ohonynt i'w chartref a'u cefnogi yn eu bywyd colegol. Bu'n ysbrydoliaeth i nifer ohonynt ac yn gefn i'r rhai anghenus, fel y nododd Dora Rowlands:

Y dylanwad mwyaf grasusol arnom ni, ferched y coleg, yn f'amser i oedd caredigrwydd a hynawsedd Mrs. Tom Ellis. Roedd croeso bob amser i ni yn ei chartref artistig a chwaethus yn Laura Place. Bob p'nawn Sul, yr oedd y bwrdd te yn grwn o ferched y Coleg, a bu yn ail gartre i nifer ohonom. Dyna'n wir 'addysg bellach' o bwys i bob un ohonom. Y wraig osgeiddig hon, heb fymryn o rodres – yn llywio'i chartref mewn 'steil' a hyn i gyd yn Gymraeg, gan brofi i ni nad Saeson yn unig oedd yn fyddigions.<sup>102</sup>

Flynyddoedd yn ddiweddarach, wedi iddi briodi ac ymgartrefu yn Llundain, sefydlodd Annie Ellis gronfa 'The Students' Loan Fund' i gasglu arian ar gyfer myfyrwyr tlawd y Coleg yn Aberystwyth, a'r ffynhonnell swyddogol hon a ddarparai ysgoloriaethau i'r rhai a wynebai drafferthion ariannol yn ystod eu cyfnod yn astudio. Ond roedd perthynas Annie Ellis a Dora Rowlands yn wahanol i unrhyw berthynas arall rhyngddi a myfyrwyr y Coleg. Datblygodd cyfeillgarwch mynwesol rhyngddynt rhwng 1910 ac 1913 a barodd am oes gyfan.<sup>103</sup> Cyfeiriai Dora ati fel 'Fy mam yn Aber, mam annwyl iawn iawn i mi ...'<sup>104</sup> ac wedi profiadau bythgofiadwy Ffrainc a Paris, cyfarchai hi'n aml fel 'Fy Anwylaf Notre Dame' fel arwydd o'r agosatrwydd arbennig a nodweddi ei perthynas. Wrth wynebu salwch ac anawsterau marwolaeth ei mam yn ystod ei blwyddyn gradd yn Aberystwyth byddai Dora yn troi at Annie Ellis am gysur a chydymdeimlad, ac amlygir hyn droeon yn ei llythyrau:

Diwrnod ofnadwy oedd ddoe, diwrnod fy mhen blwydd a bu Mam farw tua wyth o'r gloch. Yr oedd hi'n gofyn am gael myned. Yr oedd yn boen mor fawr. Mae 'nghalon yn rhy llawn i ddweud llawer ond gwn yn eithaf eich bod chwi yn gwybod.<sup>105</sup>

Yn dilyn ei chyfnod yn Aberystwyth ac wedi iddi gwblhau ei chwrs gradd yn yr Adran Gymraeg, daeth cyfle i Dora Rowlands weithio fel ysgrifenyddes yn swyddfa'r aelod seneddol, Syr John Herbert Lewis, a dal cyswllt agos ag un o hoelion wyth Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ynghyd â'r cylch cerddorol Cymreig yn Llundain, gan gynnwys Morfydd Llwyn Owen a Mary Davies. Bryd hynny, mynegodd Dora ei llawenydd mewn gair at Annie Ellis:

<sup>102</sup> Oldfield-Davies, Alun (gol.), 'Dora Herbert Jones', *Y Llwybrau Gynt* (Llandysul, 1972), 99.

<sup>103</sup> Bu Dora Rowlands yn byw yng nghartref Annie Ellis yn Llundain am gyfnod yn 1915 cyn iddi ddechrau gweithio i'r Aelod Seneddol, John Herbert Lewis.

<sup>104</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A349. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis, (d.d. ond ca. 1913).

<sup>105</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A349. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis (d.d.).

I had such a lovely letter from Mrs (Herbert) Lewis the other day and she said you had been talking to her about what I was going to do and discussing things ... She asks would I like to live with her for 3 months and go to a secretarial school in South Kensington (one that you know of, I think) and pay her back by keeping Kitty and Mostyn company and giving them 2 lessons a week in Welsh and speaking Welsh with them ... Think, Notre Dame, anwyl, I should be in the same town as you again and likely to see you often.<sup>106</sup>

Ar gais Annie Ellis daeth Dora Rowlands yn athrawes Gymraeg i T. I. Ellis hefyd yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Westminster ac, yn hyn o beth, parhaodd y cyswllt agos rhyngddynt, a gwireddwyd dymuniad Dora i gael dangos ei diolchgarwch i'r un a fu mor gefnogol iddi yn ystod ei gyrfa golegol:

I think of you, oh so often fy anwyl, anwyl Notre Dame. I would love to do something worthy of you – and I do hope and pray that I may do something with my life – something lasting as an outcome of your kindness to me –... I have an intense longing these days to do something for my country or my language or its music.<sup>107</sup>

Misoedd yn ddiweddarach roedd Dora'n mynegi yr un dyhead unwaith yn rhagor:

Diolch a chan diolch i chwi am eich calon fawr garedig. Ni welais erioed newid ar honno ac mi fydd yn ddiwrnod du iawn arna i os achosa i iddi unrhyw friw. Mae gennyf ofn ofnadwy i chi orfod meddwl llai ohona i, oes yn wir. My only hope of ever thanking you, for the countless 'little unremembered acts of kindness', the strong undercurrent of sympathy I always feel when I'm with you, the influence that keeps me 'yn ymdrechu tua'r nod' will be in serving you, if only I can.<sup>108</sup>

Yn dilyn marwolaeth ddisyfyd ei gŵr yn 1899 nodweddwyd bywyd Annie Ellis gan ymroddiad llwyr i wasanaeth sawl achos. Fel aelod blaenllaw o lys Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a Phanel Penodi Canolog y Brifysgol yng Nghymru<sup>109</sup> bu'n chwarae rhan weithredol yn nhwf a datblygiad addysg uwchradd y genedl. O ganlyniad i ddiddordeb arbennig ei brawd, John Humphrey Davies, ym myd casglu llawysgrifau bu'n aelod dylanwadol o Gorff Llywodraethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Fel areithydd huawdl gelwid arni'n aml i gynrychioli 'The League of Nations'<sup>110</sup> a bu'n frwd iawn ei chefnogaeth i Gwilym Davies a'i Neges Heddwch flynyddol.<sup>111</sup>

<sup>106</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A349. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis, dyddiedig 13.07.1913 o Neuadd Alexandra, Aberystwyth.

<sup>107</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis, dyddiedig 14.08.1913.

<sup>108</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A351. Llythyr oddi wrth Dora Rowlands at Annie Ellis, dyddiedig Mawrth 1914. Danfonwyd y llythyr o 23 Grosvenor Road, Westminster – cartref Ruth Herbert Lewis yn Llundain. Symudodd Dora i fyw yng nghartref Annie Ellis yn 1915 (gw. Llsg. LIGC C1990/7/12 – Dyddiadur Kitty Idwal Jones, 27.04.1915).

<sup>109</sup> Penodwyd hi i'r pwyllgor hwn yn dilyn marwolaeth y Dr Mary Davies yn 1930.

<sup>110</sup> Yn 1924 teithiodd Annie Ellis a Mrs Gwilym Davies i'r Unol Daleithiau i ddenu cefnogaeth gwragedd yr Unol Daleithiau i'r 'League of Nations'.

<sup>111</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A228.

O safbwynt cerddorol, ymddangosodd droeon yng nghyfarfodydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym Mangor (Mehefin, 1913) ac yn y Fenni (Awst, 1913) yn adrodd hanes ei phrofiad yn casglu yn ardal Llandysul<sup>112</sup> gan grybwyll yn enwedig yr anawsterau a gafwyd i ddarbwyllio unigolion y fro i ganu a chofnodi alawon a'r angen mawr am weithwyr pellach yn y maes:

Mrs Ellis went on to say that the movement wanted assistance of all kinds, the musical genius who could rapidly write down what he heard, the student to bring scientific knowledge, the minister, the doctor, and the school master who were the highest authorities in the village on everything, the monied and leisured classes who subscribed, and the humble classes who interested old people in a way that made them produce their greatest possessions, while a more clever person took down the tunes and words.<sup>113</sup>

Yn ystod absenoldeb Ruth Herbert Lewis bu Annie Ellis hefyd yn barod ar adegau i gadeirio cyfarfodydd o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn enwedig wedi iddi gartrefu yn Llundain yn y cyfnod ar ôl Medi 1913, a thystia ei nodiadau ar gyfer darlith gyhoeddus ar draddodiadau cerddorol Cymru a draddodwyd ganddi yn Falmouth, ei bod yn ddigon hyddysg a phrofiadol yn y maes i allu traethu'n awdurdodol arno:

It was in 1844 that Welsh folk music received recognition – in that year, the volume published by Maria Jane Williams of Aberpergwm showed that Welsh folk music could be so beautiful in form and expressive in feeling – and 'Y Fwyalchen', 'Y Deryn Pur' and other songs immediately took their places among the best of the Welsh melodies. ... I daresay you have all heard of the fanatical enthusiasm of the folk song collector. It is a pity that there was none of this enthusiasm in Wales say 200 years ago – it is certain that if there had been, much treasure would have been stored up that has now disappeared for ever.<sup>114</sup>

Credai fod yr angen am gefnogaeth i waith Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn parhau ac fel ei gŵr Tom Ellis flynyddoedd ynghynt, credai na ddylid anwybyddu'r agwedd werthfawr hon ar fywyd diwylliannol y genedl – er gwaethaf dirmyg a gwg y cyfansoddwyr proffesiynol a fu mor elyniaethus i gynnyrch y traddodiad brodorol ar ddechrau'r 20fed ganrif:

If people spend their time in collecting old implements, vessels, old furniture, old MSS; are the old songs of Wales of less value than their old furniture or their proverbs or folk tales? ... Every year, the older folk singers are passing on and the opportunity of procuring new songs are getting fewer.<sup>115</sup>

<sup>112</sup> *The Fifth Annual Report and Financial Statement for the Year ending 30<sup>th</sup> June 1913* (Wrexham, 1913), 2.

<sup>113</sup> *Ibid.*, t. 2.

<sup>114</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, A384 (Nodiadau ac areithiau). Traddodwyd y darlith hon yn Falmouth, Cernyw (d.d.).

<sup>115</sup> *Ibid.*

Fel un a fu'n amlwg yn y maes ac a gafodd brofiad helaeth o gasglu deunydd yn ne-orllewin Cymru, sylweddolai Annie Ellis bwysigrwydd y grefft a'r angen dybryd am barhâd i weithgarwch o'r fath er mwyn cynnal cyhoeddiadau tebyg i'r *Cylchgrawn* ac i sicrhau sefydlogrwydd yn hanes y Gymdeithas fel mudiad ac iddo arwyddocâd cenedlaethol.

Yn 1913 ymgartrefodd Annie Ellis yn Llundain unwaith yn rhagor, gan ymroi i agweddau gwahanol ar fywyd Capel Charing Cross. Bu'n aelod brwdfrydig o'r Ysgol Sul a'r Gymdeithas Ddirwestol,<sup>116</sup> cyfrannai erthyglau'n gyson i *gylchgrawn Y\_Gorlan*,<sup>117</sup> ac ynghyd â Ruth Herbert Lewis, sefydlodd gymdeithas i ddiogelu buddiannau merched o Gymru a ddeuai i weithio yn Llundain. Priododd y Parch. Peter Hughes Griffiths, gweinidog Charing Cross, yn 1916. Parhaodd ei chyswilt â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru am weddill ei hoes, ac er iddi ddymuno ymddiswyddo o'i chyfrifoldebau fel Is-Lywydd y mudiad yn 1916, gofynnwyd iddi ail-ystyried yng ngoleuni ei phrofiad a'i dylanwad yn y maes.<sup>118</sup> Fel un o ganolfannau pwysicaf yn hanes cerddorol a diwylliannol Cymru-Llundain y cyfnod, a chyrchfan boblogaidd i fyfyrwyr a dieithriaid o Gymru, yng nghapel Charing Cross y cafodd Annie Ellis gyfle i werthfawrogi dawn Morfydd Llwyn Owen fel cantores, cyfeilyddes a chyfansoddwraig. Flynyddoedd yn ddiweddarach bu'n barod iawn ei chefnogaeth i Leila Megane cyn iddi adael Prydain i gael hyfforddiant pellach gan Jean de Reszke ym Mharis.<sup>119</sup> Yn ddi-os roedd bywyd cymdeithas y capel yn gyforiog o gyfarfodydd llenyddol, eisteddfodau (yn bennaf rhwng aelodau capeli Cymraeg y brifddinas) a nosweithiau diwylliannol, a dylanwad rhai fel Mary Davies a Ruth Herbert Lewis yn amlwg ar weithgareddau'r cyfnod. Yn y man, roedd enw'r Parch. Peter Hughes Griffiths yn ymddangos ar dudalennau *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* fel ffynhonnell geiriau rhai o'r alawon gwerin a gwybodaeth am arferion y Calan Cymreig,<sup>120</sup> ac ysbrydolwyd sawl aelod o'r gynulleidfa hyd yn oed i gasglu caneuon traddodiadol o Gymru mewn gwahanol rannau o'r byd o ganlyniad i ddylanwad uniongyrchol selogion y mudiad o'u hamgylch.<sup>121</sup>

Fel arwydd o werthfawrogiad aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru o gyfraniad Mary Davies i fywyd cerddorol y genedl, trefnodd Annie Hughes Griffiths a Sir. E. Vincent Evans (Trysorydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar y pryd) dysteb genedlaethol yn 1927 i gydnabod maint ei dylanwad yn y maes. Gyda'r un ymroddiad a gofal, pan

---

<sup>116</sup> Roedd Annie Ellis yn Ysgrifenyddes Cangen Charing Cross o'r North Wales Women's Temperance Association a'r Dr Mary Davies yn Llywydd.

<sup>117</sup> *Cylchgrawn* misol Capel Charing Cross.

<sup>118</sup> Llsg. LIGC. Archif Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru A1. Cofnodion 1908–34.

<sup>119</sup> Roedd Annie Hughes Griffiths yn bresennol ym mhriodas Leila Megane a T. Osborne Roberts yng Ngwesty'r Waldorff, Efrog Newydd 24 Mawrth 1924. Teithiodd yno yng nghwmni Mrs Gwilym Davies ar ran The League of Nations.

<sup>120</sup> *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, Cyf. III, Rhif 9, Rhan 1 (1930), 31–3.

<sup>121</sup> Er enghraifft, cofnododd Silyn Roberts, un o aelodau Capel Charing Cross, y gân 'Gwcu Fach' yn ystod ei ymweliad â Canada.

ddaeth salwch difrifol i darfu ar yrfa lewyrchus Laura Evans-Williams<sup>122</sup> fel cantores ac athrawes leisiol yn Llundain, bu Annie Hughes Griffiths yn flaenllaw yn sefydlu cronfa i'w chynorthwyo hithau hefyd yn ei hangen. Cymeriad rhadlon, parod ei chymwynas oedd Annie 'Cwrt Mawr' a'i gofal o'r flawd, yr anghenus a'r difreintiedig yn ei chymdogaeth yn flaenoriaeth amlwg iddi trwy gydol ei hoes.

Etifeddodd T. I. Ellis ddiddordeb ei fam yn nhraddodiad canu gwerin Cymru yn ogystal. Yn ystod ei ymweliadau achlysurol â chartref y Dr Mary Davies yn 12a Eaton Road, Hammersmith, pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Westminster y dysgodd yntau rai o'r alawon traddodiadol a pharhaodd i ymwneud â'r maes tra oedd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Yno bu'n flaenllaw yn y Gymdeithas Geltaidd,<sup>123</sup> canai unawdau dan gyfarwyddyd Madame Lucie Barbier yng nghyngherddau'r Coleg<sup>124</sup> a lluniodd adolygiadau o gyfarfodydd diwylliannol y myfyrwyr ar dudalennau *The Dragon*. Yn 1926, penodwyd yntau'n Ysgrifennydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru gan ddilyn Dora Herbert Jones i'r swydd,<sup>125</sup> ac fel Tom Ellis ei dad bu'n weithiwr di-febl dros faterion Cymreig yn enwedig ym myd addysg.

Cyn diwedd ei hoes, etholwyd Annie Hughes Griffiths yn Is-Lywydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, bu'n gynrychiolydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y Gyngres Geltaidd a gynhaliwyd yn Llundain yn 1930 (ynghyd â Jennie Williams, Aberystwyth)<sup>126</sup> a bu'n gefnogol iawn i weithgareddau cerddorol Urdd Gobaiith Cymru, yn enwedig ymysg plant a ieuenctid y Mudiad. Ar adeg pan nad oedd cynrychiolaeth o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, a chyn dyfodiad J. Lloyd Williams i'r dref, bu'n barod i ysbrydoli myfyrwyr y cyfnod a chwifio baner y traddodiad brodorol yn un o gadarnleoedd cerddoriaeth gyfoes Ewropeaidd y dydd. O ganlyniad i egni ac ymroddiad Annie 'Cwrt Mawr' yn unig yr heuwyd had byd canu gwerin y genedl yng nghanolbarth Cymru a'i brwdfrydedd heintus hi fu'n ysgogiad i lawer i fentro a thalu sylw haeddiannol i'r maes ym mherfformiadau'r gymdogaeth. Er nad oedd yn arloeswraig, gwnaeth ddiwrnod da o waith yn enw Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, brwydrodd yn ddyfal a diflino ar ei rhan a bu'n gennad ffyddlon ac yn batrwm i eraill i'w hefelychu.

<sup>122</sup> Laura Evans-Williams (1883–1944) o Henllan ger Dinbych, cantores broffesiynol ac un o unawdwyr blaenllaw y byd oratorio ym Mhrydain ddechrau'r 20fed ganrif. Yn dilyn hyfforddiant yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain (c.1906), sicrhaodd gryn enwogrwydd o ganlyniad i berfformiad o *Messiah* (Handel) a'r perfformiad cyntaf o *The Apostles* (Elgar) yng Ngŵyl Harlech. Ystyrid hi'n ddehonglydd caneuon gwerin Cymreig o gryn allu. Gweler John Davies, 'Who was Harry Drew?', *Cerddoriaeth Cymru*, Cyf. 10, Rhif 5, Gaeaf 2000-01 (2001), 23.

<sup>123</sup> Anhysbys: 'St. David's Day Soirée, The Concert', *The Dragon*, Cyf. XL, June (1918), 127-8.

<sup>124</sup> Anhysbys: 'Lit. and Deb Concert', *The Dragon*, Cyf., XL, No. 1, December (1917), 40.

<sup>125</sup> Llsg. LIGC. Casgliad T. I. Ellis, B172. Llythyr oddi wrth Dora Herbert Jones dyddiedig 14.08. 1926.

<sup>126</sup> Welsh Folk Song Society, *The 21<sup>st</sup> Annual Report and Financial Statement (June 1929–June 1930)*, (Wrexham, 1930), 2. Jennie Williams neu Jennie Ruggles-Gates – casglwraig caneuon gwerin a chantores o dref Aberystwyth. Gw. Wyn Thomas: 'Ffarwel i Aberystwyth ...' – Jennie Williams a byd yr alaw werin yng Nghymru', *Cynheiliaid y Gân – cyfrol deyrnged i Phyllis Kinney a Meredydd Evans* (Caerdydd, 2007), 251–79.

*Ioan Williams*

# Ideoleg ac estheteg yn y mudiad drama

---

**GWERDDON**

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 2, Hydref 2007 • ISSN 1741-4261

## Ideoleg ac estheteg yn y mudiad drama

### *Ioan Williams*

*'Ymhob cylch, mewn crefydd, mewn gwleidyddiaeth, mewn economeg, mewn athroniaeth, gellir dangos diffyg unrhyw feddwl Cymreig i'n harwain ar lwybr a fyddai'n naturiol i'n cenedl, ac felly'n lles iddi. A hyd yn oed mewn beirniadaeth lenyddol y mae rhagfarnau'r oes yn fwgwd ar ein llygaid fel na welom wahaniaeth rhwng pethau sy'n wir bob un ond yn eithaf gwahanol i'w gilydd.'*

J. Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor' (1925), R. Geraint Gruffydd (gol.), *Meistri'r Canrifoedd* (1973), t. 81.

Fy amcan yn yr erthygl hon yw canolbwyntio sylw ar ddadl gyhoeddus rhwng dau o lenorion Cymraeg pwysicaf y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, Tom Parry a Kate Roberts, a gynhaliwyd ar dudalennau'r *Genedl Gymreig* rhwng Chwefror ac Ebrill 1931. Trôï y ddadl hon o gwmpas anghydfod ynglŷn â pholisi estheteg y cwmni drama amlycaf ei gyfraniad i ddatblygiad y mudiad drama yng ngogledd Cymru yn y blynyddoedd hynny – Cymdeithas Ddrama Gymraeg Coleg Prifysgol Bangor. Asgwrn y gynnen oedd y polisi o gyfieithu y dramâu a gynhyrchid gan y cwmni ym mis Mawrth bob blwyddyn, yn hytrach na dewis dramâu a gyfansoddwyd yn y Gymraeg.

Tyfodd Cymdeithas Ddrama Gymraeg myfyrwyr Bangor allan o weithgarwch anffurfiol y myfyrwyr ar ddechrau'r daudddegau, pan arferent gyflwyno drama Gymraeg yn Neuadd Powys yn ystod yr wythnos gyd-golegol. Ffurfiolwyd y gweithgarwch hwn yn 1923, gyda sefydlu'r Gymdeithas Ddrama, dan lywyddiaeth R. Williams Parry, a'i hamcan oedd, 'hyrwyddo mudiad y Ddrama yng Nghymru, a hynny trwy lwyfannu dramâu, a sicrhau actio ar radd uchel, heb ystyried na thraul na thrafferth'.<sup>1</sup> Dechreuodd rhaglen flynyddol y gymdeithas yn 1924 yn Chwaraedy'r Sir, gyda pherfformiad o *Change* J. O Francis, yn y fersiwn Cymraeg, dan y teitl *Gwynytoedd Croesion*, a pharhau'r flwyddyn ganlynol gyda drama Gymraeg, *Y Ddraenen Wen* gan R. G. Berry. Ond 1926 a welodd gyfraniad sylweddol cyntaf y gymdeithas i hanes y mudiad drama, gyda pherfformiad o gyfieithiad yr Athro Ifor Williams o *Tÿ Dol* Ibsen, wedi ei chyfarwyddo gan J. J. Williams, Bethesda.

Yn ddiau, fe sefydlodd y cyflwyniad o *Tÿ Dol* ddrama flynyddol y Gymdeithas yn un o'r digwyddiadau pwysicaf ym myd y ddrama Gymraeg yng ngogledd Cymru. 'O!' meddai gohebydd *Y Brython*, 'y fath lwyddiant ydoedd!': 'Dyma arweiniad i Gymru; dilyned ôl ei Phrifysgol, ac y mae dyfodol y ddrama Gymraeg yn sicr ... Pe clywn fod y cwmni yna yn perfformio y ddrama eto – a hynny hanner can milltir o ffordd – awn yno.'<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Rhaglen Cymdeithas Ddrama Gymraeg Coleg Prifysgol Bangor, 1925.

<sup>2</sup> *Y Genedl Gymreig*, Mawrth 15 1926, t. 5.



Dichon bod llwyddiant ysgubol *Tŷ Dol* yn gyfrifol am symbylu uchelgais newydd ymhlith aelodau'r cwmni, i ddyrchafu'r Ddrama Gymraeg 'i uwch tir a lletach llwyfan'.<sup>3</sup> Yr hyn y byddid wedi disgwyl o ganlyniad i hynny oedd datblygiad ar y polisi o gyfieithu campweithiau dramayddol y byd ac yn eu plith, efallai, rai o blith y gorau o ddramâu Cymraeg. Cafwyd datganiad yn y rhaglen gogyfer â pherfformiad 1927 a oedd yn addo hynny:

Oherwydd prinder dramâu Cymraeg, ni phetrusodd y Gymdeithas gyfieithu dramâu cenedloedd eraill, cyfansoddiadau a ystyrir yn safonol gan feirniaid a chan y lliaws sydd â'u chwaeth yn ddigon disgybledig i fwynhau a gwerthfawrogi drama dda. Trwy geisio cadw safon yn yr actio ac yn y ddrama a berfformir, a thrwy ddangos i'r cyhoedd hufen cynhyrchion gwledydd eraill, hyderir medru graddol feithrin traddodiad drama yng Nghymru, a rydd inni, rywdro, ddramâu Cymraeg y bydd wiw gan genhedloedd eraill yn eu tro eu cyfieithu a'u hactio.<sup>4</sup>

Ond ar hyd y blynyddoedd rhwng 1927 a 1939 ni chafwyd ond tri chynhyrchiad y gellid eu rhoi yn y categori hwnnw: perfformio cyfieithiad Tom Parry ac R. H. Hughes o *Hedda Gabler* Ibsen yn 1930; cyflwyno *Ephraim Harris* D. T. Davies am y tro cyntaf ers i gwmni Dan Matthews, Pontaraddulais, sefydlu fersiwn llwyfan hynod lwyddiannus o'r ddrama honno; a llwyfannu drama gyntaf John Gwilym Jones, *Y Brodyr*, yn 1934. Bu sôn hefyd, tua 1935 am gynhyrchiad o *Gwm Glo* J. Kitchener Davies, y gwrthodwyd gwobr Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd iddi y flwyddyn cynt. Ond camodd awdurdodau'r coleg ymlaen yn wyneb y perygl hwnnw i wahardd gwrhydri'r Gymdeithas, a chafwyd y cyfieithiad Cymraeg o *Cross Currents* J. O. Francis (*Gwynoedd Croesion*) yn ei lle.

Heblaw am y cyflwyniadau hyn, cyfieithiadau o'r Saesneg a gafwyd yn y blynyddoedd cyn yr Ail Ryfel Byd, ac eithrio yn 1928, pan welwyd tair drama fer Gymraeg – a'r rheiny'n ddramâu oedd yn gyfredol ar lwyfan theatr fasnachol Lloegr yn ystod y blynyddoedd hynny:

- 1928 *Outward Bound* gan Sutton Vane, wedi ei chyfieithu gan R. Williams Parry fel *Gael Tir*
- 1929 *Dear Departed*, gan Stanley Houghton, wedi ei chyfieithu gan R. Ellis Jones fel *Ymadawedig*, a *Jane Clegg* gan y dramodydd o Wyddel, St John Ervine, wedi ei chyfieithu gan R. Williams Parry
- 1931 *Lonesome Like* gan Stanley Brighouse, fel *Unigrwydd*, a *Rutherford and Son* gan Gita Sowerby, y ddwy wedi eu cyfieithu gan R. Ellis Jones
- 1932 *Hobson's Choice* gan Houghton, wedi ei chyfieithu gan H. Llywelyn Williams fel *Gorfod*

<sup>3</sup> Ibid.

<sup>4</sup> Rhaglen y Gymdeithas 1928–29.

- 1935 *Change* gan J. O. Francis , wedi ei chyfieithu gan Magdalen Morgan fel *Deufor-Gyfarfod*
- 1936 *The Coming of Simon Eval* gan Hugh Beresford a C. St. Brelade Seale, wedi ei chyfieithu gan Jeremiah Jones fel *Dyfodiad Seimon Belial*
- 1937 *Boyd's Shop* gan St. John Ervine, wedi ei chyfieithu gan Oswald Rees Owen fel *Siop Morgan*
- 1938 *Gold and Silver* gan Betty Eynon Evans, wedi ei chyfieithu gan D. T. Llywelyn fel *Arian ac Aur*
- 1939 *Ma's Bit of Brass* gan Ronald Gow, wedi ei chyfieithu gan Oswald Rees Owen fel *Arian Sychion*.

Dyna, felly, gefndir y ddadl a dorrodd allan yn y flwyddyn 1931 rhwng Tom Parry a Kate Roberts. Y symbyliad y mae'n debyg oedd erthygl a gyhoeddwyd gan Tom Parry, islywydd y Gymdeithas. Cyhoeddwyd yr erthygl honno yn *Y Genedl*, 9 Chwefror 1931, yn un mewn cyfres o hysbysebion i'r ddrama flynyddol, ond dangosodd yr awdur o'r dechrau fod ganddo fwy yn ei feddwl na hysbyseb gyffredin. Dechreuodd drwy ganmol y myfyrwyr am eu cariad tuag at gelfyddyd drama pob gwlad, 'a llwyddiant drama Cymru yn arbennig' ac am eu haberth 'er mwyn diddanwch y cynulliad a fo'n gwrando arnynt, ac er mwyn coethi chwaeth a meithrin barn caredigion y ddrama yng Nghymru oll'. Onid dyna reswm, gofynnodd, am iddynt gael eu cefnogi? Ond yn lle hynny, caent eu beirniadu am danseilio'r union achos yr oeddynt yn ei arddel gan sawl 'cyfaill beirniadol' hunangyfiawn:

Beirnedir hwy'n aml am fynd dros Glawdd Offa, ac yn wir dros Fôr y Gogledd, i geisio dramâu. 'Nid ydynt hwy', ebe'r cyfaill beirniadol, gyda dichter cyfiawn (o'i safbwynt ef ei hun), 'yn cefnogi dim ar ddramodwyr Cymreig. Pa ddisgwyl cael drama fawr yng Nghymru, a'r cwmnïau'n anwybyddu pob ymgais creadigol gan ein dynion ni ein hunain? Choellia i byth nad oes rhyw ddrama Gymraeg y gellir ei hactio ym Mangor yna. Beth am A a B ac C? Rhyw agwedd academaidd, ffroenuchel a thrahaus yw peth fel hyn.'

Pwy bynnag oedd y cyfaill beirniadol hwnnw – rhywun fel J. Tywi Jones sy'n dod i'r meddwl! – ymdengys ei fod wedi llwyddo i fynd dan groen academaidd y darlithydd ifanc. 'Cymer dy wynt, frawd', medd TP, gan fynd ymlaen i gynnig i'r beirniaid asesiad o sefyllfa'r ddrama yng Nghymru o'i chymharu â gwledydd eraill gydag awgrym o goegni academaidd:

Nid oes neb gweddol glir ei lygad na wêl fod bron pob gwlad yn Ewrop yn curo Cymru am ddrama. Bwrier y bai ar y Methodistiaid, Senedd Lloegr neu'r tywydd, nid oes wadu'r ffaith. Rhaid i ni heddiw geisio gosod sylfeini traddodiad newydd, ac yn rhywle o gwmpas y sylfeini yr ydym hyd yma, heb osod ond ychydig o gerrig y muriau ar ei gilydd. Meddylier am saer maen wedi myned am drip gyda'r Ysgol Sul, a gweled cipolwg wrth basio yn

y siarri ar dŷ hardd iawn. Cymerodd ato, a chan fod arno eisiau tŷ newydd ei hunan, penderfynodd ei adeiladu ar ddelw hwnnw a welodd ar y daith. Fel saer doeth, y mae'n dechrau trwy chwilio am y plan, ac yn myfyrio arno.

Cawsom ninnau yng Nghymru gipolwg ar adeilad gwych y ddrama, a phenderfynu codi adeilad cyffelyb ar ein tir ninnau, a rhaid i ni gael y plan.

A dyma'r cyfiawnhad, meddai Parry, am benderfyniad y Gymdeithas Ddrama i gyfieithu a pherfformio dramâu gwledydd eraill:

Fel rhan o astudiaeth y plan y bwriedir y dramâu estron a berfformir gan Chwaraewyr y Coleg, ac nid fel pethau i fodloni arnynt a byw ynddynt. Nid oes neb yn edmygu fwy ar ddramodwyr Cymru na myfyrwyr Coleg Bangor, ac yn wir byddant yn barod i gyfaddef bod y gwŷr hynny wedi mynd cam ymhellach na hwy eu hunain, ac wedi dechrau cloddio'r sylfeini, tra daliant hwy i astudio'r plan. Ond eu dadl hwy ydyw bod raid para i astudio, a rhwng pawb fe osodir maen ar faen yn yr adeilad cyflawn a welwn oll â llygad y dychymyg.

Ymhen wythnos i ddyddiad yr erthygl hon, dyna lythyr gan Kate Roberts yn ymddangos yng ngholofnau'r *Genedl* sy'n dangos ei bod hi, er yn raddedig o'r un coleg ac o'r un adran â Tom Parry, yn rhannu rhagfarnau ei gyfaill beirniadol:

Syr – Ni fedraf weld bod grym o gwbl yn nadl T. P. dros gyfieithu dramâu o ieithoedd eraill i Gymraeg o hyd ac o hyd. Nid oes dim o'i le mewn cyfieithu unrhyw waith llenyddol o iaith arall er mwyn ei wneuthur yn batrwm, ond mae dal ymlaen i gyfieithu ac i roddi gwaith cyfieithiedig o flaen cynulleidfaoedd y naill flwyddyn ar ôl y llall, yn niweidiol iawn. Yn un peth, y mae'n niweidiol i'r gynulleidfa; nid yr un peth yw bywyd cenedloedd eraill â'n bywyd ni; ac o weld bywyd cenedloedd eraill o hyd ac o hyd, yn union fel y gwelir bywyd cenedloedd eraill yn y darluniau byw, daw'r Cymry i feddwl nad oes dim bywyd ond un fel yna.

Un o ddylanwadau gwaethaf ar fywyd Cymry Cymreig heddiw yw dylanwad y darluniau byw. Ac er mai yn Gymraeg y clyw'r dyrfa y dramâu estron hyn gan goleg Bangor, eto estron yw'r bywyd a'r awyrgylch ynddynt, ac wrth eu cael o hyd ac o hyd, fe â'r gwrandawyr i deimlo mai dyna yw bywyd Cymru hefyd.

Peth arall, nid yw'n hollol ddrwg i bobl sydd â'u huchelgais at ysgrifennu drama weled un sydd heb fod i fyny i'r clasuron weithiau. Weithiau mae gweled peth symol yn symbyliad i beth gwell, yn enwedig i rywun weled cynifer o glasuron ag a welwyd ym Mangor hyd yn hyn.

Ond y peth yr oedd arnaf eisiau ei ddywedyd wrth T. P. oedd hyn. Mae gennym ni yng Nghymru rai dramâu a ddaw i fyny â'r mwyafrif o'r dramâu a

gyfieithwyd yn ddiweddar ym Mangor. Imi enwi dim ond dwy: *Ephraim Harris* a *Gwaed yr Uchelwyr*. Paham nad actia Bangor y ddwy hyn?<sup>5</sup>

Ni chynigiodd Tom Parry ateb i'r llythyr hwn tan Fawrth yr ail ac erbyn hynny roedd dau gyfaill arall wedi dod ymlaen i gynnal breichiau Kate Roberts. Yn rhifyn *Y Genedl* gogyfer â Chwefror 23 ymddangosodd llythyr oddi wrth W. Gilbert Williams (1874–1966), hanesydd lleol a dramodydd ei hun. 'Purion peth,' meddai Williams, oedd cyflwyno drama Ibsen, 'ond ffolineb ydyw i eraill gochi'r llwybr a gerddodd ef.' Ym marn y sylwebydd hwn roedd etifeddiaeth diwylliant y Cymru yn rhagorach o lawer nag eiddo cenedloedd eraill, tra bod dramâu tramor 'mor angheltaidd ac anghymreig yn eu natur fel na all cynulleidfa gyffredin o Gymry eu deall na'u mawrhau.' Lleisiodd, hefyd, efallai am y tro cyntaf, gŵyn yr athro ysgol sy'n ymdrechu i gynnal yr iaith yn erbyn darlithwyr y colegau prifysgol sy'n ei thanseilio: '(O)feredd yw i ysgolion Cymru geisio meithrin hunan-barch yn y plant pan yw'r colegau'n gweithio i'r gwrthwyneb.'

Yn syth ar ôl llythyr Gilbert Williams, yn yr un golofn a than yr un pennawd, 'Drama Coleg Bangor', ymddangosodd cyfraniad gan Elinor Hannah Thomas, a oedd wedi sefydlu ei hun fel dramodydd gyda *Y Crwydryn* (1922), dan y ffugenw Awena Rhun. Croesawodd hi 'dipyn o synnwyr o'r diwedd' ar yr pwnc, a hynny oddi wrth 'un o blant y colegau ... ac nid oddi wrth neb llai'. Teimlai hi fod yr union arweinwyr deallusol yr oedd eu hysgrifeniadau a'u hareithiau'n bwydo balchder cenedlaethol yn euog o fychanu popeth Cymreig, gan godi modelau estron yn ei erbyn: 'Os bydd eisiau patrwm at rywbeth neu'i gilydd rhaid cael enaid rhyw genedl arall o hyd i edrych i fyny ato.' Arweiniai ei phrif ddadl hithau'n uniongyrchol o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Kate Roberts. Ym myd y ddrama, oni ddylid gadael i Gymru weithio allan ei hiachawdwriaeth ei hun? 'Pam na adewir iddi hi chwarae teg i ymddatblygu a pherffeithio yn ei chwrs naturiol ei hun? ... Onid gwell a fyddai i Gymru ... (d)orri tir newydd a rhoddi i genhedloedd eraill rywbeth i synnu ato.'

I Thomas Parry ei hun, pan ddychwelodd at y ddadl ar Fawrth 2, 'colofnau'r geidwadaeth' a fynnai 'gyfyngu popeth i ffiniau Cymru, a gwahardd datblygiad' oedd y tri chyfaill a oedd wedi ymosod ar bolisi cyfieithu'r myfyrwyr. Cyn cynnig atebion i'w dadleuon, gosododd allan rywfaint o'i ysgolheictod diamheuol ei hun er mwyn sicrhau cyd-destun priodol. Onid oedd Gruffydd Gryg wedi ymosod ar Dafydd ap Gwilym am dorri ar y traddodiad Cymreig? Onid o Loegr y daeth llawer o'r pethau gorau yn llenyddiaeth Cymru – patrymau canu rhydd Dic Hughes; syniadau *Tri Aderyn* Morgan Llwyd; 'Gweledigaethau' Ellis Wynne; ysbryd cywyddau Goronwy Owen; ysbrydoliaeth canu ysgafn Ceiriog a Thalharn. Onid o gyfieithu cathlau Heine ac Omar Khayyam y daeth coethder ein llenyddiaeth ddiweddar. Ac yn olaf, ym myd iaith, 'Tybio bod yr iaith Gymraeg yn hunan-ddigonol a wnaeth William Owen Pughe; astudio leitheg Gymharol a wnaeth John Rhys.'

A chyda'r cyd-destun ideolegol wedi ei sefydlu – creadigrwydd artistig yn erbyn ceidwadaeth gul – â T.P. i'r afael â phrif ddadleuon y gwrthwynebwyr. Kate Roberts yn gyntaf, gyda'r ddadl bod cyflwyno darluniau o fywyd estron yn niweidiol i'r Cymry cyffredin:

<sup>5</sup> 16 Chwefror 1931, t. 2.

(B)eth a ddangosir mewn drama dda? Yn sicr, nid nodweddion gwahaniaethol ac arwynebion cenedl arbennig. Y mae drama fawr yn ymwneud â dynion bethau'r meddwl dynol, â'r gwrthdarawiad rhwng dynion o wahanol natur, ac yn sicr y mae hynny'n gyffredin i bob gwlad. Peth ail-raddol yw awyrgylch mewn drama. Estron i Lundain, bid siŵr, yw awyrgylch *Julius Caesar*, *Hamlet* a *Saint Joan*, ond y mae celfyddyd ac egwyddorion y dramâu hyn yn gartrefol ymhobman. Ac y mae Nora Helmer, Jane Clegg a Hedda Gabler yn Gymry yn haenau dyfnaf eu cymeriadau.

Prin y gellid cymryd ail ddadl y nofelwraig o ddirif, meddai T.P., sef bod gweld pethau symol yn symbyliad i bethau gwell, oherwydd petai hynny'n wir byddai drama Gymraeg wedi codi i'r entychion erbyn hynny. Ond rhydd fwy o sylw i'r pwynt na ddylid cyflwyno cyfieithiadau tra bod dramâu Cymraeg ar gael. 'Pa les,' gofynna, 'a ddaw o actio'r un ddrama dro ar ôl tro?' Ac wedyn, dau bwynt pwysicach, cyn terfynu gyda phigiad bach *ad hominem* i awdur *Rhigolau Bywyd* (1931): 1. Ceir mewn dramâu estron enghreifftiau o holl gywreinerwydd y llwyfan, nas ceir mewn dramâu Cymraeg oherwydd diffyg chwaraedy o safon 2. Mae gan genhedloedd eraill Ewrop ddramâu sy'n well na dim byd a gynhyrchwyd yn y Gymraeg – ac mae myfyrwyr Bangor yn perfformio'r campweithiau hynny, 'am yr un rheswm yn union ag y mae pencampwyr y stori fer yn darllen Maupassant a Tchecov, yn lle o eu cyfyngu eu hunain i'r *Mabinogion*'.

O ran y cyhuddiad bod ysgolheigion y colegau'n tansellio hunan-barch y Cymry, etyb T. P. nad ymffrost ddall yw hunan-barch: 'Nid dim diffyg hunan-barch a bair i Gymro gyfaddef bod Keats yn fwy nag Islwyn, neu nad oes safon uchel i'r ddrama yng Nghymru.' Ac os cyhuddir beirniaid o ddiffyg ffydd yn enaid y genedl am wneud y gymhariaeth honno, gofynna: 'Ai dynion di-ffydd sy'n bwrw blynyddoedd mewn llafur blin i ymchwilio i hanes y wlad, ei hiaith a'i llên?' Nid yw cyfaddef gwendid cymharol y ddrama yng Nghymru yn gyfystyr â chyhuddo'r Cymry o ddiffyg cynhenid, ond yn hytrach yn fater o dderbyn canlyniad diffyg cyfleusterau. Ac yn yr amgylchiadau hyn, myn T.P. na all fod cwestiwn o gymryd patrwm bywyd cenedloedd eraill wrth gyflwyno dramâu mawrion y byd. 'Pam y perfformir y *Messeia* yn hytrach na *Mor Tiberias* gan gorau Cymreig?' Ei apêl sylfaenol ef, felly, bod yn rhaid i'r Cymry arddel safonau diamodol yr estheteg ddyneiddiol os ydyn nhw am honni bod iddynt lle ymhlith cenedloedd gwareiddiedig y byd.

Mae ateb Kate Roberts i'r erthygl hon yn nodweddiadol finiog a diffwdan. 'Synnaf yn fawr', meddai ar y dechrau, i weld Tom Parry yn cymharu addasiadau creadigol â chyfieithu llythrennol:

A oes rhywbeth Cymreiciach na *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* yn holl lenyddiaeth Cymru? Bywyd Cymru a ddisgrifir gan Elis Wyn, ac nid bywyd Sbaen. Beth sydd yn y dramâu a wneir gan gwmni Bangor? Bywyd y gwledydd y benthyciwyd hwy ganddynt heb newid dim arno.<sup>6</sup>

<sup>6</sup> 9 Mawrth 1931, t. 5.

Cytuna hi mai dyfnion bethau meddwl dynol a geir mewn drama fawr, ond ni chytuna ei fod yn dilyn o hynny mai peth cymharol ddibwys yw awyrgylch drama, a hynny oherwydd fe wêl gysylltiad hanfodol rhwng y naill a'r llall:

Af cyn belled â dywedyd bod awyrgylch yn gyfrifol am y ffurf a gymer 'dyfnion bethau'r meddwl'. Er enghraifft, nid damwain ydyw bod bywyd Cymru'n Biwritanaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac nid damwain ydyw mai bywyd gwerinol yw'r bywyd Cymreig heddiw. Mae achosion i'r pethau hyn. Bywyd Piwritanaidd Cymru a roes fod i *Change* J. O. Francis. Yn nhrefn naturiol pethau yr oedd yn rhaid i'r gwrthdaro yna ddyfod, oblegid hanes crefydd yng Nghymru. Buasai *Change* yn amhosibl yn Ffrainc.

Oherwydd mai gwerinol yw bywyd Cymru, medd Kate Roberts, amherthnasol yw cyflwyno dramâu iddynt sy'n troi o gwmpas ysgariad gŵr a gwraig. Fe ddylai bywyd '(r) oi ffurf i'w llenyddiaeth', fel mae bywyd Lloegr wedi rhoi ffurf i'r darlun hwnnw o fywyd a geir yn nramâu cyfredol theatr Lloegr: 'Er mai o wledydd eraill y cafwyd deunydd y dramâu hyn, Seisnig yw eu dull o feddwl ac fel Saeson y sieryd y cymeriadau.'

Mater o gyfartaledd yw'r ddadl yn y bôn, meddai Kate Roberts. Nid yw hi'n gwrthwynebu cyfieithu a chyflwyno dramâu tramor o gwbl, ond gwrthwyneba eu cyfieithu a'u cyflwyno yn lle pethau sy'n adlewyrchu realiti Cymru: '(G)allaf ddychmygu amdanom ni yng Nghymru yn cael cyn lleied o fywyd Cymreig a chymaint o fywyd estron nes myned ohonom i feddwl nad oes dim ond y bywyd estron i'w gael.' Gan fod dramâu fel *Ephraim Harris*, *Gwaed yr Uchelwyr*, *Pobl yr Ymylon* ac *Yr Anfarwol Ifan Harris* ar gael, pam peidio â'u cyflwyno ar lwyfan Bangor? A phe bai angen cyfieithu, pam lai dramâu Molière, yn hytrach na'r rhestr ddiddiwedd o weithiau sydd wedi ymddangos yn theatrau'r West End, pan yw'r gyfundrefn addysg yng Nghymru ei hun yn sicrhau bob pobl Cymru'n medru eu darllen yn yr iaith wreiddiol?

Bu rhywfaint mwy o drafodaeth ar yr achos hwn yn y wasg Gymraeg a Saesneg ar ôl ymddangosiad yr ail lythyr hwn. Cafwyd cyfraniad arall gan Awena Rhun yr wythnos wedyn, a llythyr gan y cynhyrchydd, J. J. Williams, yn amddiffyn y Gymdeithas am eu hymdrechion i 'ennyn diddordeb eang yn nrama Ewrop' ac yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond un o'r dramâu a gynhyrchwyd ym Mangor oedd â 'blas drama ffasiynol Llundain' arni.<sup>7</sup> Cafwyd sawl erthygl olygyddol hefyd yn cloriannu'r dadleuon. Camodd 'Sylwedydd' ymlaen, i atgoffa darllenwyr *Y Genedl* mai diffyg dramâu Cymraeg da oedd wrth wraidd y broblem – os oedd yna broblem o gwbl: 'A oes rhywbeth yn llesteirio dramodwyr gorau Cymru? Nid drwg digymysg, y mae'n sicr ydyw cyfieithu dramodau tramor da ...'<sup>8</sup> Cynigiodd Edward Morgan Humphreys, ('Celt') ateb i'r cwestiwn hwn yn the *Liverpool Post*. Yn ei arolwg ef o'r 'lively correspondence' yn *Y Genedl*, ymdrechodd yn lew i gadw'r ddysgl yn wastad: 'Personally, I cannot see why there should not be room for both original and translated plays,' meddai, er yn cyfaddef, 'It may not have been necessary to translate some of the plays that have been done. They had little to teach

<sup>7</sup> 16 Mawrth 1931, t. 5.

<sup>8</sup> 2 Mawrth 1931, t. 4. John Owen (1864–1953), o bosib, a ysgryfenai golofn wythnosol i'r *Goleuad* o 1930 ymlaen dan y ffug enw hwn.

us ... Perhaps it would not be a bad idea for the College Welsh Drama Society to ransack the stock that exists by next year.<sup>9</sup> Y prif reswm, awgrymodd ef, pam bod drama newydd yn brin, oedd ansicrwydd awduron ynghylch y cyfle i'w cyflwyno i'r cyhoedd a'r ateb i'r broblem honno fyddai'r 'central rallying point' o Chwaraedy Cenedlaethol. Tebyg oedd safbwynt Owen Roberts ('Caerwyn'), mewn arolwg ar gyflwr y ddrama yng Nghymru a ymddangosodd yn *Y Genedl*, 30 Mawrth. Tueddai ef i edrych tuag at y cymorth y gellid ei gael gan grwpiau fel pwyllgor Wythnos Ddrama Gymraeg Abertawe a beirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol yn hytrach na'r Chwaraedy Cenedlaethol. Ond tebyg yn y bôn oedd ei farn yntau ynghylch y mater o gyfieithu dramâu tramor: 'Ni fynnwn er dim weled cilgwthio gwaith Cymry i ddifancoll er mwyn rhoddi lle i waith estroniaid, ond hyd nes byddo gwaith dramawyr Cymreig yn deilwng ac yn unol â safonau drama uchelyrw rhodder lle i'r naill a'r llall ...'<sup>10</sup>

Un peth sydd gan y sylwebyddion hyn yn gyffredin – a llawer tebyg iddynt ar hyd y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel – yw argyhoeddiad diysgog bod methiant y Cymry i gynhyrchu 'drama uchelyrw' yn ganlyniad i'r ffaith eu bod yn anghyfarwydd â'r celfyddydau theatraidd a bod angen darparu addysg iddynt drwy gyfrwng cyflwyniadau o ddramâu safonol a gynhyrchwyd mewn gwledydd eraill. Roedd Kate Roberts wedi cael profiad go chwerw rai blynyddoedd ynghynt a barodd iddi amau'r ddamcaniaeth honno. Fel un o dri beirniad yn Nowlais yn 1922 anogodd grwpiau gweddol amrwd eu rheolaeth o dechnegau dramataidd i fynnu 'y cyfansoddiad goreu posibl' yn anad yr un ystyriaeth arall wrth ddewis testun.<sup>11</sup> Ond o ddadansoddi sylwadau beirniaid y cystadlaethau, sylweddolodd y grwpiau yn gyflym iawn mai'r ddrama Saesneg a ystyrir y cyfansoddiad gorau posibl, ac o ganlyniad bu iddynt droi iffwrdd oddi wrth y ddrama Gymraeg yn gyfan gwbl. Y canlyniad yn Nowlais ymhen chwe blynedd oedd dewis beirniad uniaith Saesneg a gwahardd dramâu Cymraeg – a gwelwyd yr un ffenomen ar hyd ac ar led y wlad.

Fe all mai synfyfyrion ar y profiad hwnnw oedd un o'r ffactorau a ganiataodd i Kate Roberts fedru gweld rhai pethau gymaint yn gliriach na'r bobl o'i chwmpas. Yn sicr, gwelodd hi dri pheth hanfodol. 1. Ni fu erioed angen cyflwyno dramâu a gyfieithwyd i'r Gymraeg yr oedd y Cymry yn gallu eu darllen a'u gweld yn cael eu perfformio yn Llundain, Lerpwl, Caerdydd ac Abertawe gyda'r holl gyfleuster technegol. 2. Bod cyflwyno'r dramâu wedi'u cyfieithu o Saesneg a dramâu tramor fel ei gilydd yn hollol aneffeithiol fel modd o symbylu creadigrwydd yng Nghymru. 3. Bod rhyw gymhlethdod seicolegol ar waith ym meddwl y Cymry pan ystyrir dramâu wedi eu cyfieithu o'r Saesneg o'u cymharu â dramâu Cymraeg.

Fe wnaeth Kate Roberts y tri phwynt hyn yn gryf mewn erthygl bapur newydd yn 1935, gan gyfeirio at ymdrechion 'colegau neilltuol a threfi neilltuol' i roi chwarae teg i'r ddrama Gymraeg a cheisio ei gwella:

<sup>9</sup> *Liverpool Post and Daily Mercury*, 5 Mawrth 1931, t. 11. Bu Humphreys (1882–1955) yn golygu'r *Genedl* tan 1930, pan ymddiswyddodd a mynd yn newyddiadurwr annibynnol.

<sup>10</sup> *Y Genedl Gymreig*, 30 Mawrth 1931, t. 4.

<sup>11</sup> *Y Brython*, 19 Hydref 1922, t. 4.

Yr hyn a wnaeth y lleoedd y cyfeiriad atynt ydoedd chwarae ychydig ddramâu Cymraeg a llawer mwy o gyfieithiadau. Nid chwarae cyfieithiadau oblegid iddi fynd yn big arnynt am ddramâu Cymraeg a wnaethont, oblegid buont am flynyddoedd heb actio *Ephraim Harris*, eithr actio rhai Saesneg neu Ffrangeg (Saesneg gan mwyaf) wedi eu cyfieithu, a'u llwyfannu wedyn yn ôl dull Lloegr, am eu bod yn tybio eu bod yn well na'r rhai Cymraeg. Rhaid cydnabod bod rhai ohonynt yn salach na'r dramâu Cymraeg y gallasent eu perfformio.

A ydyw'r ddrama Gymraeg rywfaint gwell o'u hymdrech? Dim gronyn. Ffrwythau cyntaf ymdrechion o'r fath fuasai rhoi symblyliad i awduron ysgrifennu dramâu Cymraeg ar eu cyfer hwy. Pe cyraeddasai'r rhan yma o fudiad y ddrama ei amcan, fe fuasai rhyw awdur ac ychydig uchelgais at gyfansoddi drama ynddo, wedi troi o gwmpas eu llwyfan ac wedi cael syniad ar sut i lunio drama a chael syniad am chwaraewyr a chwaraeai gymeriadau ei ddrama ef.

Effaith arall mudiad o'r natur fuasai dylanwadu ar chwarae cwmnïau bychain o gwmpas y lleoedd hyn. Ond ni clywais iddynt gael yr effaith yma. Yn wir, gwn am gwmni drama mewn ardal yng Ngogledd Cymru sy'n bur agos i dre sy'n ymhyfrydu yn ei pherfformiad o ddrama Gymraeg bob blwyddyn, sydd yn chwarae'r pethau mwyaf ofnadwy ar enw drama, ie, sydd yn mynd o gwmpas y wlad ac yn llwyddo.<sup>12</sup>

Y gwelediad dyfnaf a fynegodd Kate Roberts yng nghwrs y ddadl rhyngddi hi a Tom Parry oedd na ellid wrth greadigrwydd celfyddydol nad oedd yn fynegiant o'r adeiledd dwfn a oedd yn rheoli gweithgarwch cymuned a'r artistiaid unigol a'i cynhyrchodd. Rhaid, felly, wrth ymffurfiad neilltuol 'ddyfnaf bethau meddwl' unrhyw gymuned, a hynny'n ei gwneud yn amlwg nad oedd modd trosglwyddo'r pethau hynny'n ddiagramgydd drwy ffiniau ieithyddol a diwylliannol. A dyma'r union bwynt a gafodd ei anwybyddu'n gyfan gwbl gan Tom Parry yn ei ymgais i ateb ei dadleuon hi.

Mae'r methiant hwn yn fwy nodedig oherwydd i Parry ei hun ddangos yn y cyfnod hwnnw ei fod yn ymwybodol o'r cysylltiad cymhleth rhwng adeiledd dwfn cymunedau neilltuol ac argaeledd neu gynaliadwyaeth traddodiadau celfyddydol. Dangosodd hyn yn ei astudiaeth ar *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif* (1935), lle mae'n trin gwaith baledwyr y ddeunawfed ganrif fel datblygiad o'r hen draddodiad canu caeth Cymreig ar fesurau newydd.<sup>13</sup> Yn 1810, meddai Parry, 'y bu farw'r olaf o feirdd yr uchelwyr, yr olaf o'r beirdd cymdeithasol, a Thwm o'r Nant oedd hwnnw'. A bu farw'r hen draddodiad gydag ef, oherwydd darfod o'r gymdeithas a oedd wedi ei gynnal ac ymddangos unigoliaeth newydd a fynnai furfiâu mynegiant newydd.

<sup>12</sup> 4 Rhagfyr 1935: wedi ei ddyfynnu o bapurau D. R. Davies yn y Llyfrgell Genedlaethol, Bocs 2/3, t. 109.

<sup>13</sup> Dyfynnodd eiriau David Samuel: 'A Baledwyr y blynyddoedd sydd wedi ein gadael, pwy oeddynt? Onid disgynyddion beirdd a llenorion y Canol Oesoedd?' Gweler *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*, Gwasg Prifysgol Cymru, (Caerdydd, 1935), t. 25.



Pe bai Parry wedi dal gafael gadarn ar y gwelediad hwnnw credaf y byddai wedi gallu deall a derbyn dadleuon Kate Roberts mewn perthynas ag effaith niweidiol polisi Cymdeithas Ddrama Gymraeg Bangor. Ond roedd ganddo gymhlethdod meddwl a'i hataliai rhag gwneud hynny, a'r cymhlethdod hwnnw wedi ei wreiddio yn ei gysyniad o draddodiad fel endid ffurfiol, a oedd yn y bôn yn annibynnol ar strwythurau cymdeithasol.

Daw'r cymhlethdod hwn i'r golwg wrth iddo drin y berthynas rhwng y baledwyr gwerinol ar y naill law a deallusion cydnabyddedig y cyfnod ar y llaw arall, y Morisiaid, yr hawliai eu bod yn cynrychioli hen draddodiad caeth yr awdl a'r cywydd. Arddengys Parry'n gwbl eglur eironi canolog y cyfnod dan sylw, sef y ffaith y gadawyd yr hen draddodiad i farw allan gan yr union ddeallusion a oedd yn llafurio i roi anadl einioes i esgyrn sychion y ffurfiau caeth hynafol. Fe welai Parry dranc traddodiad caeth y baledwyr yn ganlyniad naturiol i ddyfodiad yr unigoliaeth newydd a ymledai yng Nghymru yn sgil cyflwyno strwythurau cymdeithasol ac economaidd a darddodd yn Lloegr. Ond ni welai'r gwahaniaeth trawiadol rhwng yr hyn a ddigwyddodd yn Lloegr ac yng Nghymru. Ar un ochr i Glawdd Offa cafwyd priodas glôs rhwng y synwyruswydd newydd a fynegid ym marddoniaeth gyfoes Coleridge a Wordsworth a hynafiaetheg dynion fel yr Esgob Percy – gwele eu *Lyrical Balads* a *The Rime of Ancient Mariner*. Ar yr ochr arall mynegwyd gelyniaeth gan gynrychiolwyr y mudiad hynafiaethogol tuag at gynrychiolwyr traddodiad gwerinol a hynny er gwaethaf cysylltiadau go agos rhwng y naill blaid a'r llall. Mynegwyd 'agwedd gymysg o ddirmyg a thosturi a rhyw oddefgarwch ffoenuchel' tuag at y baledwyr, gan Goronwy Owen a'r Morisiaid, esboniodd Parry, agwedd y mae'n ei gweld yn ganlyniad naturiol i'w swyddogaeth fel pendefigion deallusol. Parodd maint eu dawn, meddai Parry:

... iddynt ymddiddori yng ngorffennol eu cenedl, a cheisio datrys ei hen lenyddiaeth. Parodd iddynt hefyd ymddiddori ym mhresennol y genedl gyfagos, a thrwy gymathu dau draddodiad ceisient ymgyrraedd at safonau a oedd yn gwbl ddiethr i bawb ond hwy eu hunain. Ffuriasant felly bendefigaeth lenyddol, a rhaffau cynhaliol y *coterie* hwn oedd y cannoedd llythyrau a ysgrifennent y naill i'r llall.<sup>14</sup>

Ar ddiwedd y llyfr ceir disgrifiad gwrthrychol a chytbwys o'r sefyllfa a ddeilliodd o amharodrwydd y *coterie* snobyddlyd hwnnw i gyfryngu rhwng y ddau draddodiad caeth:

Ac felly y trengodd y mesurau caeth newydd a'r hen draddodiad cymdeithasol, ac y blodeuodd yr hen fesurau caeth a thraddodiad unigoliaeth newydd. Y broblem nesaf oedd cael yr hen fesurau caeth, y cywydd a'r awdl, ddygymod â'r unigoliaeth hon, peth cwbl anghynefin iddynt. Ni allwyd llwyr gymathu'r ddeubeth hyd awdl *Yr Haf*.<sup>15</sup>

<sup>14</sup> Ibid., t. 8.

<sup>15</sup> Ibid., t. 165.

Hynny yw, ni allwyd cyfryngu rhwng ysbryd yr oes newydd a'r hen ffurfiau rhwng 1810 a 1910! Onid yw hynny'n disgrifio canrif o ffurfiolrwydd hesb? Ac onid yw'r gwrthgyferbyniad â'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr wrth i'r un mudiadau deallusol gael eu gweithio allan yn un y mae ymron yn amhosibl methu â sylwi arno? Yr hyn sy'n drawiadol yn ei absenoldeb yma yw diffyg unrhyw gydnabyddiaeth o ganlyniadau echrydus i farddoniaeth Gymraeg a ddeilliai o fuddugoliaeth y 'deallusion' Cymreig!

Pe bai Tom Parry wedi medru troi at waith y Morisiaid gyda'r un gwrthrychedd cytbwys ag sy'n nodweddu ei asesiad o waith y baledwyr, fe ddichon y byddai wedi holi mwy ynglŷn â tharddiad eu hymlyniad digymrodedd wrth ffurfiolrwydd estheteg. Yr hyn oedd yn atal hynny oedd ei ymlyniad ef ei hun wrth y traddodiad 'newydd', ffurfiol yr oeddynt wedi ei symbylu. Un canlyniad i hwnnw oedd ei ddrwgdybiaeth ddigymrodedd o'r cysyniad o'r werin ddiwylliedig a fu'n elfen ffrwythlon iawn o'r mudiad rhamantaidd yn Lloegr.

Rhan o amcanion Parry yn ei lyfr, yn dilyn Saunders Lewis, yw gosod seilliau clusuraeth newydd sy'n darlunio llenyddiaeth fel cynnyrch astudiaeth drylwyr a meddwl disgybledig, 'mater o benderfynu ... mater o ewyllys, mater o fyned ati'.<sup>16</sup> A thu ôl i'r glasuraeth honno, y tueddai – eto fel Saunders Lewis – i'w holrhain at yr Awgwstiaid Cymreig, ceir gwrthymateb cryf yn erbyn rhai agweddau ar ramantiaeth beirniadaeth lenyddol gyfoes, ac yn arbennig yn erbyn yr honiad mai diwylliant gwerinol yw'r diwylliant Cymreig, mynegiant greddfodol enaid y genedl. Amcan Tom Parry wrth olrhain canu caeth newydd y ddeunawfed ganrif yn ôl i hen draddodiad yr ysgolion barddol oedd tansellio'r ddadl a glywai yn y byd o'i gwmpas, sef mai rhywbeth greddfodol, gwerinol oedd barddoniaeth, rhywbeth yn perthyn i'r werin ddi-ddysg yn hytrach na dysgedigion yr ysgolion newydd a geid yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd.

Gwrthyd Parry'n bur ddiymdroi y cysyniad gwleidyddol o'r werin fel yr elfen sy'n gwrthwynebu'r bendefigaeth, am y rheswm syml nad oes dim pendefigaeth bellach. Felly hefyd y syniad diweddarach o'r werin fel pobl sy'n gweithio â'u dwylo o'u cyferbynnu â'r rhai sy'n gweithio mewn ysgol neu lyfrgell, oblegid 'dyma ddsbarthu ffôl ac afresymol ar gymdeithas'.<sup>17</sup> Y werin, yn ôl Parry, yw 'pawb trwy'r byd oll sydd heb ei hyfforddi yng nghelfyddyd llenyddiaeth',<sup>18</sup> ond wrth iddo gyflwyno'r diffiniad hwnnw cawn adlais diddorol iawn o'r union raniad cymdeithasol y cyfeiriodd Awena Rhun a Gilbert Williams ato yn y ddadl am bolisi artistig y Gymdeithas Ddrama. Yn ddiweddar, meddai Parry, fe gaed ystyr newydd i'r gair 'gwerin' mewn gwrthgyferbyniad â'r brifysgol:

Tyfodd ymdeimlad â rhyw wahaniaeth annelwig rhwng 'pobl y Colegau' a'r 'werin'. Sonir am y Brifysgol a'r werin, gydag awgrym fod yma ddau eithaf, a bod eisiau dulliau arbennig i gymodi'r ddeubeth. Er ymfrostio o arweinwyr y genedl ddeng mlynedd ar hugain yn ôl fod y werin wedi deffro ac yn

<sup>16</sup> Ibid., t. 144.

<sup>17</sup> Ibid., t. 46.

<sup>18</sup> Ibid., t. 48.

mynnu breintiau addysg iddi ei hun, ac i fardd ganu am weithiwy a roes ei geiniog brin at godi'r Coleg, dyma'r werin a'i Phrifysgol, erbyn heddiw, wedi ymddieithrio, a myned y geiriau i gynrychioli dau ddsbarth cwbl wahanol yn y gymdeithas Gymreig. Ni olyga hyn fod neb yn edrych ar y Brifysgol fel hafan foethus i blant y cyfoethogion, na bod y dynion a'r merched a hyfforddir ynddi yn uwch, o ran safle a swydd, na'r sawl na fuont ar ei chyfyl. Ni feddylir chwaith am yr athrawon yn unig. Mewn gwirionedd, rhyw haniaeth ddigon ansylweddol yw'r ymadrodd 'y Brifysgol', yn gysylltiedig, mae'n wir, â rhyw ychydig o'r athrawon, ond yn golygu dysg yn gyffredinol, ac yn awgrymu cryn lawer o falu hen ddelwau hoff. Mewn gair, fe dyfodd rhyw syniad o bendefigaeth newydd, nid pendefigaeth tir na thras, ond pendefigaeth dysg. Uchelwyr dysg ar y naill law, a'r gweddill o'r genedl, sydd heb gyrraedd at binaclau na dyfnderoedd y ddysg honno, ar y llaw arall; a dyma'r rhai a elwir y werin.<sup>19</sup>

Onid dyma agwedd drawiadol debyg i eiddo'r Morisiaid? Heb y duedd at ddirmyg a thosturi, efallai, ond agwedd ddigon ffroenuchel tuag at y gweithwyr cyffredin nas ceir ond yn anaml iawn, 'yn mwynhau darllen cywyddau lolo Goch, neu'n gloddesta ar *Rheol Buchedd Sanctaidd*,<sup>20</sup> neu'r 'tlotaf o ddynion', sy'n mynnu rhoi 'rhywbeth â lliw arno' i guddio moelni parwydydd, heb wybod paham.

Ceir awgrym go gryf yn y geiriau hyn o'r ffordd yr oedd Tom Parry yn meddwl am raglen Cymdeithas Ddrama Gymraeg Coleg Prifysgol Bangor fel cyfrwng addysgiadol yn nwylo pendefigaeth ddeallusol. Ni ellir synnu, ychwaith, o weld yr agwedd honno yn eiddo i ddarlithydd ifanc a feddylia amdano'i hun yn olyniaeth John Rhys a John Morris-Jones. Ond yr hyn a allai beri syndod yw ei fod yn methu â gweld aneffeithiolrwydd lwyr ei raglen addysgiadol. Y peth mwyaf trawiadol am y ffordd yr ymatebodd i feirniaid y Gymdeithas yw'r ffaith ei fod mor anymwybodol o'r gagendor amlwg rhwng ei siarad didaro am uchel bethau'r meddwl dynol a sylwedd rhaglen y gymdeithas. Dichon y byddai rhai'n dueddol i ddadlau ei fod yn hyn o beth yn rhannu rhagfarn sawl un ymhlith beirniaid ac ysgolheigion mwyaf disglair ei genhedlaeth – ac yn eu plith Saunders Lewis, yr oedd yn gymaint o edmygydd ohono. Ond os oedd awdur *Williams Pantycelyn* yntau'n edrych tuag at bendefigaeth feddylol y genedl am ymwared rhag drygau'r oes, ni ddisgwyliai eu canfod yn rhengoedd athrawon colegau prifysgol Cymru. Rhaid cydnabod hefyd, os credai Saunders Lewis fod gwerth diamodol i gynnyrch aruchel y theatr ar ei gorau, at gyrhaeddiad y *Comedie Française* yng nghyfnodau disgleiriaf ei hanes y trodd ef am fodel, yn hytrach na'r Gaiety ym Manceinion.

Rhaglen y Gaiety dan gyfarwyddyd Annie Horniman yn y cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf oedd model yr arlwy ddramataidd a gynigid gan Gymdeithas Ddrama Bangor, fel y cyfaddefodd J. J. Williams. Rhaid cydnabod bod i'r Gaiety safle digon parchus yn hanes y theatr *rep* yn Lloegr, ond o'r braidd y gellid dadlau ei bod yn fodel y gallai unrhyw theatr Gymraeg ei efelychu. Enghreifftiau o fân-ddiwylliant bwrgeisiol Lloegr a gawn

---

<sup>19</sup> Ibid., t. 46.

<sup>20</sup> Ibid., t. 48.

yn nramâu Houghton, Beresford, Rutherford *et al*, a'u prif swyddogaeth oedd cymodi'r ystrydebau moesol a chymdeithasol ym mywyd beunyddiol Lloegr yn y cyfnod hwnnw. O'r braidd y gellid dadlau fod unrhyw rai ohonynt yn dal yn fyw yng nghof y genedl erbyn hyn, ac eithrio *Hobson's Choice* – a honno'n unig yn y ffilm a wnaethpwyd gan David Lean yn 1954, gyda Charles Laughton a John Mills. Y syndod yw i gymdeithas a hawliai 'hyrwyddo'r mudiad drama' wneud y fath frechdan rhwng cyflwyno *Tŷ Dol* yn 1926 a *Hedda Gabler* yn 1930 a meddwl eu bod yn 'dyrchafu'r Ddrama Gymraeg i uwch tir a lletach llwyfan'.

Mae'n wir, wrth gwrs, os yw'n drosedd ddiwylliannol mewnfario modelau israddol Saesneg i Gymru a'u gwerthu fel ymgorfforiadau o gelfyddyd diamodol, nid darlithwyr a myfyrwyr Bangor oedd yr unig droseddwyr yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf. Ymron o ddechrau'r Mudiad Drama, ac yn fwyfwy ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, fe glywid ymhobman gwynion nad oedd y ddrama a gynhyrchid yn y Gymraeg yn ddigon da. Prin oedd y lleisiau a ofynnodd y cwestiwn hollbwysig, Digon da i beth? A hynny, wrth gwrs, oherwydd yr oedd pawb o leiaf yn hanner ymwybodol o'r ateb, sef 'Digon da o'i chymharu â chynnyrch Theatr yr Abaty yn Nulyn a theatr broffesiynol Lloegr'. Yr hyn sy'n denu sylw neilltuol at rôl Cymdeithas Ddrama Bangor yn y lle cyntaf yw'r anghyfartaledd rhwng ei hamcanion artistig uchelgeisiol ar y naill law a sylwedd ei rhaglen flynyddol ar y llall. Ac yn yr ail le, y cymysgedd o hunanfodhad academaidd, cywilydd a dryswch meddwl a symbylodd un o ddarlithwyr y coleg a oedd yn prysur ennill cydnabyddiaeth deg fel un o golofnau disgleiriaf y diwylliant Cymraeg ymhlith y to ifanc, i gamu ymlaen i'w hamddiffyn – a hynny cyn i neb ymosod arni o gwbl. Dyna a awgrymodd i Kate Roberts fod drwg yn y caws lle roedd perthynas Tom Parry ei hun â'r Gymdeithas yn y cwestiwn:

Yr hyn sydd wedi difetha achos Bangor ydyw i T.P. ysgrifennu ysgrif ar y pwnc i gychwyn. Yn yr ysgrif honno fe roes y gwrthddadleuon cyn bod dadl – ffaith a ddengys ynddi hi ei hunan fod yna deimlad o euogrwydd tua Bangor. Mae i ddyn gyfarfod â gwrthddadleuon cyn bod dadl yr un peth ag ymddiheuriad.<sup>21</sup>

O un safbwynt gellid dadlau nad oedd llawer o ots am hynny. Bu'r ffurfiau ar theatr a gynhaliwyd gan y Mudiad Drama yn fandylllog o ran iaith, yn addasu'n reddfol i lanw a thrai'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cymunedau lleol ac yn ymateb yn reddfol hefyd i ofynion diwylliannol y cymunedau hynny. Mudiad atblygol oedd y Mudiad Drama yn y bôn, a'i egni cynhaliol yn tarddu o haenau dyfnaf, hunanamddiffynnol y cymunedau Cymraeg. Enghraifft nodweddiadol, felly, oedd y cwmni bach lleol y soniodd Kate Roberts amdano'n hwylio ymlaen gyda pherfformiadau dramâu a fyddai wedi dod â gwridd i fochau aelodau o Gymdeithas Ddrama Bangor. Yn y bôn theatr werinol oedd y theatr a gynhyrchwyd gan y Mudiad Drama, yn gweddu i ddiffiniad Tom Parry o'r

<sup>21</sup> Y *Genedl Gymreig*, 9 Mawrth 1931, t. 5.

werin annysgedig, er gwaethaf dadleuon Saunders Lewis.<sup>22</sup> Ac fel theatr werinol, a chanddi frith atgofion o ffurfiau celfyddydol wedi'u benthyg oddi wrth gyfnodau cynt a chyfryngau eraill, methodd â chynhyrchu testunau dramataidd a allai fodloni gofynion estheteg. Tebyg oedd y theatr hon i gorff gwaith baledwyr y ddeunawfed ganrif fel y'u disgrifiwyd gan Tom Parry. Dangosodd Parry nad oedd modd i'r baledwyr gynhyrchu dim o werth llenyddol oherwydd buont yn byw mewn cymdeithas doredig lle na phrofwyd yr undeb rhwng haenau uwch a haenau is sy'n angenrheidiol gogyfer â datblygu ffurfiau celfyddydol a fedr fodloni gofynion estheteg a chymdeithasol llawn y gymdeithas honno. Methodd Tom Parry â gweld bod hynny'n wir hefyd am y Mudiad Drama, yn rhannol efallai, oherwydd nerth gafael modelau Saesneg ar ei ddychymyg.

Edrychai Kate Roberts, ar y llaw arall, ar gyflwr y ddrama yng Nghymru'n gyfan gwbl wrthrychol, oherwydd, efallai, y symbyliad a roddwyd iddi gan ffug-ddadleuon ei chyd-ddisgybl gynt. Roedd hi, wrth gwrs, wedi bod yn weithgar gyda'r ddrama o ddechrau ei gyrfa. Pan oedd yn Ystalyfera, cydweithiodd â Beti Eynon Davies a Margaret Price i gynhyrchu tair drama yn nhraddodiad y Mudiad Drama. 'Comedi o Gwm Tawe' oedd *Y Canpunt*, sy'n troi ar ymdrechion pâr diniwed ifanc i gael y swm hwnnw o arian o ddwylo perthynas er mwyn priodi. Comedi arall oedd *Wel! Wel!*, sy'n codi hwyl ar y ffordd y mae straeon di-sail yn ymledu yng nghymuned werinol Cwmllynfell. Ond melodrama yw *Y Fam*, sy'n trin tynged dau blentyn bach y mae'u tad wedi ailbriodi ar ôl marwolaeth eu mam. Hofran y mae *Y Fam* rhwng byd y dychymyg a'r goruwchnaturiol, rywfaint yn null melodramâu J. Eddie Parry. Yn ystod y nos daw mam y plant yn ôl i gysuro ei phlant am greulondeb y llysfam, gan adael gyda'i merch ifanc. Erbyn y bore, a brawd y ferch fach wedi ei adael yn ei dristwch, darganfyddir corff ei chwaer ar y grisiau tu allan i'r tŷ a gwêl y fam newydd y bydd yn rhaid iddi fyw yn y tŷ bellach yn ymwybodol o bresenoldeb parhaol y fam y mae hi wedi ei disodli.

Nid yw'r dramâu bychain hyn namyn enghreifftiau go fywiog o ystrydebau celfyddydol cynnyrch y Mudiad Drama ac awgrymai triniaeth goeg Kate Roberts o'r perfformiad o *Beddau'r Proffwydi* yn *Laura Jones* fod Kate Roberts wedi pellhau oddi wrthynt erbyn 1930. Ymgais oedd ei drama nesaf hi i fynd i'r afael â'r union ffenomen gymdeithasol a lesteiriodd ddatblygiad y Mudiad Drama, sef y ffaith bod yna rwyg yng Nghymru rhwng trwch y boblogaeth ar y naill law ac ar y llall yr ysgolheigion a hawliai'r fraint o'u harwain. Drama dair act yw *Ffarwel i Addysg*, sy'n cyflwyno hanes merch ifanc o deulu gwerinol sy'n herio rheoliadau caeth y coleg ynghylch ble i garu, ac sy'n cael ei diarddel o ganlyniad i genfigen cyfaill a malais Warden ei neuadd ac yn gorfod dychwelyd adref i ad-drefnu ei bywyd. Yn ymateb i gais am ei gyngor ef, tynnodd Saunders Lewis sylw'r awdur at ffocws ansefydlog y ddrama:

Beth ddylai fod yn destun y ddrama? Os bywyd y coleg, dylai'r olygfa *fawr* fod yng nghyfarfod y senedd, – yr athrawon oll, yr eneth o'u blaen, y warden faleisus, a'r bachgen, yna Annie'n torri i mewn yn ei hysteria, a

<sup>22</sup> Gwelir 'Welsh Drama and Folk Drama', *The Welsh Outlook*, VII, June 1920, t. 168: 'My conclusion ... must be that Welsh drama when it is good, is not "folk" drama, and I think this is matter for rejoicing. ... (W)hat is of present and urgent interest is that we should recognise that the drama of art, of deliberate intention, may be a far more precious thing ...'

chymeriadau'r athrawon gwryw a benyw yn ymddangos drwy'r cwbl. Felly ni byddai ond dau brif bwnc (1) serch ifanc a chenfigen a (2) awyrgylch colegau Cymru, a'r genfigen yno hefyd, cenfigen yr hen o rai iengach a chenfigen hen ferch o eneth synhwyrus.<sup>23</sup>

Digon gwir hynny – a gwir hefyd, fel y dywed Saunders Lewis, y byddai *Ffarwel i Addysg* wedi gwneud gwell nofel na drama yn nwylo Kate Roberts. Serch hynny, mae angen cydnabod y ddrama fel ymgais wirioneddol onest i wynebu'r gwacter brawychus a welodd Kate Roberts yng nghnewyllyn bywyd Cymru gyfoes – a hynny trwy uniongyrchedd drama. Trawiadol iawn yw sylwi bod yr olygfa fawr a ddisgrifiodd Saunders Lewis yn Senedd y Coleg wedi ei hysgrifennu'n barod, a hynny gan y dramodydd Almaenig Frank Wedekind, yn *Deffro'r Gwanwyn* (1891). Ond o gymharu ei waith ef ag eiddo Kate Roberts gwelwn ar unwaith pam na chymerodd hi'r un llwybr. Sylwedd yr olygfa a ysgrifennodd Wedekind yw gwrthgyferbyniad noeth a threisiol rhwng dwy genhedlaeth. Nid gwrthgyferbynnu culni adweithiol y Senedd a naturioldeb merch ifanc sy'n dilyn ei greddf yw amcan Kate Roberts. Yn wir, un o'r pwyntiau y mae hi'n straffaglu i'w wneud yn eglur yn ei drama – a hynny dan ddylanwad gwrthramantiaeth *Gwaed yr Uchelwyr* – yw bod pethau pwysicach hyd yn oed i ferch ugain oed na dilyn ei greddf.

Prif amcan Kate Roberts yn *Ffarwel i Addysg* yw dangos amherthnasedd yr addysg a gynigid yng ngholegau Cymru i fywyd dosbarthiadau gwerinol Cymru. Er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw bu'n rhaid iddi ymgorffori'r darganfyddiad hwnnw ym mhrofiad un o'i chymeriadau. Dyna Gwen, sy'n dychwelyd adref ar ôl cael ei diarddel ac yn darganfod nad addysg yw'r hyn y mae ei thad wedi dymuno iddi ond cydymffurfriad slafaid â delfyrdiaeth ffals. Mae tad Gwen wedi aberthu er mwyn ei hanfon i'r Coleg oherwydd ei fod yn credu bod addysg yn ddrws ymwared o dlodi, ond wrth iddi hi sylweddoli maint ei aberth am y tro cyntaf, sylweddola hefyd nad oedd y wobr yn werth yr aberth.

Y broblem a wynebodd y dramodydd wrth drin y sefyllfa hon oedd nad oedd yna broses y gellid ei dramateiddio. Nid yw deunydd y ddwy act gyntaf ond rhag-baratoad. Nid yw'r broses seicolegol o sylweddoli amherthnasedd yr hyn a gynigir yn y coleg yn dechrau nes i Gwen gyrraedd ei chartref ar ddechrau'r drydedd act. Ar y pwynt yna cyflwynir dau gymeriad newydd, tad Gwen a'i modryb, a'r amcan dramataidd yw i baratoi'r gynulleidfa i ddeall cyd-destun argyfwng moesol nad oedd sôn amdano o gwbl tan hynny.

Yr unig ddolen gyswilt rhwng y ddwy act gyntaf a'r drydedd yw'r berthynas garwriaethol rhwng Gwen a Dafydd. Mae'r garwriaeth benchwiban a fu rhyngddynt yn y coleg wedi peri i Gwen gael ei diarddel ac yn ei symbylu i sylweddoli nad oedd gwir werth yn yr addysg a gynigid yno. Wedyn, wrth i Dafydd gynnig ei phriodi er gwaethaf gwarth y diarddeliad, mae ei phenderfyniad hi i'w wrthod yn ganlyniad i'w difrifoldeb newydd, yn dod â'r ddrama at ryw fath o uchafbwynt. Y mae hi'n ei wrthod, er ei bod yn ei garu, er mwyn bod yn driw i'r sythwelediad y mae hi wedi'i datblygu. Creadur digon gwannaidd

<sup>23</sup> 20 Mai 1931. Gweler *Annwyl Kate, Annwyl Saunders*, gol. Dafydd Ifans, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Aberystwyth, 1992), t. 84.

yw Dafydd, gydag elfen o anwadalwch yn ei natur nad yw Gwen, bellach, yn credu ei bod yn medru ei anwybyddu o aros yn driw i'w hunan.

Diwedd digon diflas sydd i'r ddrama, felly, gyda Gwen fach yn wlo ar ei phen ei hunan ym mharlwr tŷ ei thad. Diwedd digon annramatig, hefyd, ys dywed Saunders Lewis. Serch hynny, mae *Ffarwel i Addysg* ymhlith y mwyaf diddorol o'r dramâu a gynhyrchwyd yn y cyfnod anodd hwnnw rhwng *Gwaed yr Uchelwyr* a *Buchedd Garmon*. Byddai'n gyfleus iawn gallu dweud, yn arbennig wrth ddwyn y gymhariaeth rhwng Kate Roberts a Tom Parry i'r meddwl, ei bod wedi awgrymu ffordd ymlaen i'r ddrama Gymraeg, ond o'i darllen yn ei chyd-destun llawn, gwelwn ei bod wedi datgelu rhywbeth diddorol iawn am y math ar ddrama y gellid ei ddisgwyl yng Nghymru yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf. Wrth iddi ffarwelio ag addysg ac â chariad rhamantaidd ei hieuenctid, y mae Gwen yn wynebu byd go unig a gwag. Byddai'n anodd dychmygu unrhyw ddrama arall y gallai hi fod yn chwarae rhan fwy sylweddol ynddi yn y dyfodol nag eiddo ei modryb ddibriad y mae ei chynghor yn ei chynorthwyo wrth benderfynu gwrthod Dafydd.

Nid ystyrid unigrwydd a gwacter yn ddeunydd addas i ddrama – o leiaf nid tan ymddangosiad *Wrth Aros Godot* (1953) – ac wrth gwrs bu digonedd o drafod ers hynny ar y syniad bod campwaith Beckett wedi lladd am byth y ffurfiau ar ddrama glasurol Ewrop sy'n canoli ar brofiad rhyng-bersonol. Ond mae *Ffarwel i Addysg* yn awgrymu'n gryf mai dyna'r cwbl y gallai unrhyw un ei ddisgwyl o wynebu'r gwirionedd am y ffordd yr adeiladwyd y Gymru gyfoes.

Yr hyn sy'n ein hwynebu ni, felly, wrth ddod â'r gymhariaeth estynedig hon i'w therfyn yw gwrthgyferbyniad rhwng dwy agwedd ar Gymreictod sy'n dal yn gyfredol yn y Gymru sydd ohoni: cysondeb digyfaddawd sy'n arwain at unigedd diffrwyth ar y naill law ac ar y llall meddwl anghyson ac adranedig, sy'n tueddu at y phariseaeth ddeallusol y credai J. R. Jones ei fod yn ganlyniad anorfod i Brydeindod. Trist o beth yw sylwi ar y rôl ganolog y Brifysgol yn yr anghydfod rhwng Tom Parry a Kate Roberts, ond tristach fyth yw sylweddoli cyn lleied sydd wedi newid ers eu dyddiau nhw. Ymatebodd Saunders Lewis i'r sefyllfa hon gyda beirniadaeth ddeifiol ar y Brifysgol oherwydd ei methiant i osod seilliau i feddwl Cymreig, er rhaid sylwi hefyd bod sefyllfa sawl un o arwresau ei ddramâu – Magi *Excelsior* a Sara *Problemau Prifysgol* er enghraifft – yn awgrymu'n gryf fod angen newid seilliau economaidd a chymdeithasol bywyd Cymru cyn bod meddwl Cymreig gwahanredol yn ymarferol. Gellid dadlau nad cyfrifoldeb deallusion y Brifysgol yw ceisio symbylu'r newid hwnnw, wrth gwrs, ond yn hytrach sylwebu ar wahanol agweddau ar ddiwylliant a bywyd eu gwlad fel yr â heibio. Boed hynny fel y bo, credaf fod y cipolwg ar sefyllfa'r y deallusyn Cymraeg a gawn wrth astudio'r gwrthdaro a gafwyd rhwng Tom Parry a Kate Roberts yn y flwyddyn 1931 yn gymorth i ni sylweddoli'r math ar ddewis rydym ninnau'n parhau i'w wynebu yn y Brifysgol sydd ohoni. Gellid dadlau mai da o beth yw profi bod rhai pethau yn ein byd ni sy'n gwrthsefyll pob treigl amser.

## Cyfranwyr

### ***Hywel Jones***

Mae Hywel Jones yn frodor o Gaerdydd. Astudiodd ystadegaeth yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar ôl graddio ymunodd â Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn 1977 pan aeth i weithio yn Swyddfa Ystadegau Busnes yr Adran Diwydiant yng Nghasnewydd. Symudodd i'r Swyddfa Gymreig yn 1988, lle bu'n gweithio ar ystadegau sawl pwnc – amaethyddiaeth, tai, yr iaith, ysgolion, ac iechyd. Fe oedd yn gyfrifol am Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992, yr arolwg mwyaf erioed i ymdrin â'r Gymraeg. Cyhoeddodd nifer o fwletinau ystadegol am y Gymraeg a thra'n gyfrifol am ystadegau ysgolion rhoddodd gychwyn ar y cyhoeddiad ystadegol blynyddol *Y Gymraeg yn yr ysgol*.

Ers 2003 mae'n gweithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, lle mae wedi arloesi gyda dadansoddiadau newydd o ystadegau'r Cyfrifiad, a ffynonellau eraill, ac wedi cyhoeddi ar eu sail. Fe hefyd gomisiynodd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 a phrosiect i ddatblygu dangosyddion ieithyddol lleol. Mae'n ystadegydd siartredig ac yn gymrawd o'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol (FRSS).

### ***Ioan Williams***

Ganwyd Ioan Williams yng Nglyn Ebwy ac fe'i haddysgwyd yn Swydd Herts ac yn Rhydychen. Ar ôl cyfnod byr yn yr Adran Saesneg ym Mhrifysgol Caerwysg, symudodd i Brifysgol Warwick, lle darlithiodd ar lenyddiaeth Saesneg a llenyddiaeth gymharol.

Yn 1976 aeth yn fyfyrwr i Aberystwyth, lle cwblhaodd ddoethuriaeth yn Adran y Gymraeg. Ym 1980 fe'i penodwyd yn athro Saesneg yn Ysgol Gyfunol Penweddig. Dwy flynedd wedyn symudodd i Adran Drama Prifysgol Aberystwyth, lle darlithiodd yn Gymraeg a Saesneg, cyn ei benodi'n uwch ddarlithydd a wedyn (yn 1993), yn Athro Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Ers 1967 mae Ioan Williams wedi cyhoeddi nifer o lyfrau ar lenyddiaeth Saesneg ac Ewropeaidd. Mae ei cyhoeddiadau diweddaraf yn cynnwys *Dramâu Saunders Lewis* (Cyf. I & II) a'r *Mudiad Drama yng Nghymru, 1880-1940*.

### ***Eleri Pryse***

Uwch Ddarlithydd mewn Ffiseg yn Sefydliad y Gwyddorau Mathemategol a Ffisegol Prifysgol Cymru Aberystwyth yw Dr Eleri Pryse. Dros gyfnod o ugain mlynedd bu'n ymchwilio i'r rhyngweithio rhwng yr Haul ac atmosffer uchel y Ddaear, yn arbennig drwy arsylwi ar ôl-troed y rhyngweithio yn yr atmosffer drydanol ar uchderau o tua 300 cilometr. Arloesodd ddull newydd tomograffi radio i astudio'r rhanbarth, gan ddatblygu arbrawf ble y derbynir signalau lloeren gan gyfres o systemau radio ar arwyneb y Ddaear. Gwiredodd y dull drwy gymharu'r delweddau tomograffi ag arsylwadau radar rhyngwladol EISCAT (European Incoherent SCATter Radar) yng ngogledd gwledydd Llychlyn.



Bellach mae'n defnyddio'r dechneg i astudio'r atmosffer drydanol yn y rhanbarthau pegynol ac awroraid, yr ardal lle y gwelir yr awrora borealis, gyda phedwar derbynydd lloeren yn yr Arctig uchel yn Ny Ålesund a Longyearbyen ar Svalbard, Bjørnøya (Bear Island) a Tromsø ar brif dir Norwy. Mae'r arbrawf yn rhan o raglen yr "International Polar Year". Cydnabyddir gyfraniadau gwerthfawr aelodau eraill o'r grŵp ymchwil at y gwaith dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd mae Dr Helen Middleton, sy'n gynorthwy-ydd ôl-ddoethuriaeth, yn monitro'r arbrawf ac mae hi, ynghyd ag Alan Wood, sy'n fyfyrwr ymchwil, yn defnyddio'r data i astudio'r modd y mae'r Haul yn effeithio'r atmosffer uchel. Mae'r gwaith o ddi-ddordeb i ddehongli'r prosesau ffisegol ac i ddefnyddwyr systemau radio lle mae'r atmosffer drydanol yn amharu ar ledaeniad y signalau.

## ***Wyn Thomas***

Brodor o Aberystwyth yw Wyn Thomas. Graddiodd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, a chwblhaodd ei astudiaethau uwch-radd ym maes ethnogerdoreg yn 1983. Yn dilyn cyfnod fel Cynorthwywr Ymchwil ym Mhrifysgol Cymru, penodwyd ef yn ddarlithydd ym Mangor yn 1981 ac yn fuan wedi hynny, sefydlodd Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru yn y coleg.

Y mae bellach yn Uwchdarlithydd a Chymrawd Dysgu yn y Brifysgol ac yn awdur nifer o gyfrolau ar gerddoriaeth y genedl, gan gynnwys *Llyfryddiaeth i Gerddoriaeth Draddodiadol Cymru* (Cyf. I-III), *Cerdd a Chân* – ysgrifau ar gerddoriaeth werin Cymru, *MUSICA* – Atgynhyrchiad ffacsimili o Lawysgrif Robert ap Huw – a *Hanes Cerddoriaeth y Gorllewin* (cyfieithiad Cymraeg o gyfrol D.J.Grout). Y mae'n gyd-olygydd y cylchgrawn dwyieithog *Hanes Cerddoriaeth Cymru / Welsh Music History*.

# GWERDDON

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Cyfrol I, Rhif 2, Hydref 2007 • ISSN 1741-4261

ISSN 1741-4261



9 1771741 426008

02